

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner


# Adroddiad Blynyddol

## 2023-24

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
*This document is also available in English.*

# Cynnwys


Rhagair ....... 2
Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ....... 4
Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25 ....... 5
Cynnydd yn erbyn Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25 ....... 7
Blaenoriaeth Un: Cefnogi dioddefwyr ....... 7
Blaenoriaeth Dau: Atal Niwed ....... 19
Blaenoriaeth Tri: Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol ....... 39
Gwerthoedd ....... 45
Cydweithio ....... 45
Bod yn atebol ....... 50
Bod yn gynaliadwy ....... 66
Ymgysylltu'n Eang ....... 68
Adnoddau ....... 82

# Rhagair



Mae 2023-24 wedi bod yn flwyddyn ddiddorol i bawb sy'n ymwneud â phlismona gyda'r gwasanaeth dan y chwyddwydr ledled y wlad. Mae wedi bod yn heriol yn lleol lle mae nifer o ddigwyddiadau allweddol wedi ychwanegu pwysau ar y gwasanaeth.

Dyma'r drydedd flwyddyn o gyflawni'r ymrwymiadau a nodais yn fy nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2021-2025. Ffocws allweddol fu gweithio gyda'r heddlu i barhau â gwasanaethau hynod effeithiol ac uchel eu parch.

Fel y CHTh rwyf wedi sicrhau fy mod yn ymweld â llawer o gymunedau ar draws ardal yr heddlu i wrando arnoch chi'r cyhoedd a beth yw eich pryderon. Mae'n hanfodol bwysig i mi fy mod yn clywed yr hyn sydd gennych i'w ddweud ac yna, lle mae'n briodol, fy mod yn hwyluso newid.

Rwyf wedi parhau i weithredu fel eiriolwr dioddefwyr ac rwy'n hynod falch o'r gwaith sy'n parhau gyda'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr.

Mae clywed yn uniongyrchol am brofiadau dioddefwyr ar brydiau wedi bod yn brofiad sobreiddiol ond trwy wrando ar y profiadau hynny rydym wedi gallu addasu ein gwasanaethau ac achosi newid.

Mae gwaith ein hymwelwyr annibynnol â dalfeydd ymroddedig wedi arwain at gydnabyddiaeth haeddiannol lle cawsant wobr Aur gan Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol



â Dalfeydd fel rhan o'u hasesiad Fframwaith Sicrhau Ansawdd. Rwy'n hynod ddiolchgar ac yn falch o'r gwaith y maent wedi'i wneud i ennill gwobr o'r fath.

Yn ystod y flwyddyn rwyf wedi croesawu'r gwaith sydd wedi'i wneud gyda sefydliadau addysg uwch ac edrychaf ymlaen at y gwaith a fydd yn cael ei gyflawni yn dilyn penodi cydgysylltydd ymchwil plismona ar sail tystiolaeth a ariennir ar y cyd. Mae hwn yn benodiad a fydd yn ein galluogi i ddysgu o waith ymchwil perthnasol cyfredol a all helpu i ysgogi gwelliannau mewn plismona gweithredol.

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r heddlu, ac rwy'n croesawu'r ffordd y mae'r heddlu wedi bod yn dryloyw yn ystod y flwyddyn pan gefais y cyfle i herio'r prif gwnstabl ar feysydd perfformiad i sicrhau bod y blaenoriaethau a nodir o fewn y Cynllun Heddlu a Throseddu yn parhau i gael eu cyflawni.

Bu heriau penodol yn ystod y flwyddyn sydd wedi achosi pwysau sylweddol ar yr heddlu gan gynnwys materion yng Ngwesty Parc y Strade ond trwy ddeialog reolaidd rwyf wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y digwyddiadau hynny ac wedi lobïo'r Swyddfa Gartref, gan ddylanwadu yn y pen draw ar eu cyfeiriad.

Roeddwn yn hynod falch o fod yn bresennol pan enillodd tri phrosiect allweddol wobrau Cymunedau Mwy Diogel. Enillodd Tîm Troseddau Economaidd y wobr Diogelu, enillodd Partneriaeth INTACT y wobr Trais Difrifol ac enillodd Prosiect Tai Rheoli Troseddwyr Integredig y wobr Troseddu a Chyfiawnder. Roedd y rhain yn benllanw gwaith sylweddol rhwng Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid allweddol sydd wedi dangos ymroddiad ac ymrwymiad i ddiogelu'r cymunedau yn ardal Dyfed-Powys.

Ar lefel leol hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion, staff a phartneriaid sydd wedi gweithio'n ddiflino i ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau lleol. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr sydd wedi rhoi o'u hamser dros y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi ein hymdrechion i wella a chynnal darpariaeth gwasanaeth o safon. Rydych chi i gyd wedi gwneud cyfraniadau sylweddol ac rwy'n hynod ddiolchgar am eich ymdrechion.

Diolch unwaith eto am eich cefnogaeth barhaus – Diolch yn fawr iawn.



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

# Rôl Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae 12 mlynedd bellach ers i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (CHTh) gael eu hethol yn ddemocrataidd am y tro cyntaf, a dechrau gwneud gwahaniaeth gwirioneddol drwy roi llais cryfach i'r cyhoedd ym meysydd plismona a chyfiawnder troseddol.

Wrth nodi'r garreg filltir hon, dywedodd CHTh Llywelyn "Wrth inni ddod at ddiwedd trydydd tymor y comisiynwyr a'm hail dymor i, mae'n fraint ddiffuant o hyd i mi ddal swydd y CHTh. Mae'n anrhydedd i mi fod yn llais i'r cyhoedd ac yn gysylltiad rhwng plismona a'r system cyfiawnder troseddol leol. Mae'r rôl yn hynod bwysig ym marn y cyhoedd ac yn fy marn innau wrth i'm swyddfa ac asiantaethau a sefydliadau partner perthnasol gydweithio i wella gwasanaethau a chanlyniadau i ddioddefwyr troseddau ynghyd â'r bobl sy'n cyflawni'r troseddau gyda'r nod o sicrhau cymunedau mwy diogel ar draws ardal Dyfed-Powys."

## Dyma 12 peth i'w gwybod am Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

### Mae'r comisiynydd yn gyfrifol am y canlynol:

1. Gosod y blaenoriaethau ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys;
2. Cyhoeddi Cynllun Heddlu a Throseddu;
3. Ymgysylltu â chymunedau a chynrychioli llais y cyhoedd ar faterion plismona;
4. Gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelwch cymunedol a phartneriaid cyfiawnder troseddol;
5. Cefnogi dioddefwyr a dod â phobl o flaen eu gwell;
6. Comisiynu gwasanaethau i wneud cymunedau'n fwy diogel ac i gefnogi pobl fregus;
7. Penodi ac, os oes angen, diswyddo'r prif gwnstabl;
8. Delio â chwynion a materion disgyblu yn erbyn y prif gwnstabl;
9. Sicrhau bod y prif gwnstabl yn atebol;
10. Pennu cyllideb flynyddol yr heddlu a lefel y praesept.

### Nid yw'r comisiynydd yn gyfrifol am y canlynol:

11. Y gwaith dyddiol o drefnu a darparu gwasanaethau'r heddlu, a elwir yn 'plismona gweithredol'; neu
12. Ymchwilio i gwynion yn erbyn swyddogion heddlu islaw rheng y prif gwnstabl.

Ewch i'n tudalen YouTube i wylio fideo sy'n esbonio diben, rôl a chyfrifoldebau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu https://youtu.be/PcB_lvZ2Dyk

# Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25

Un o rolau allweddol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw cynhyrchu Cynllun Heddlu a Throseddu sy'n gosod y cyfeiriad ar gyfer plismona am gyfnod o bedair blynedd.

Mae'r cynllun yn cynnwys gweledigaeth gyffredinol y comisiynwyr ar gyfer oes y cynllun, sef cadw cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ddiogel, gan gynnal ymddiriedaeth a hyder yn ein heddlu a'n system cyfiawnder troseddol yn ei chyfanrwydd.


**Mae pum llinyn allweddol y tu ôl i'r weledigaeth hon, sef:**

- Rydym yn cadw ein cymunedau yn ddiogel, gan eu cefnogi pan fydd troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae ein gwasanaethau yn hygyrch i bob cymuned gan gydnabod amrywiaeth a'r Gymraeg.
- Rydym yn mabwysiadu ymagwedd iechyd cyhoeddus at broblemau niwed cymunedol uchel, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod a merched ac iechyd meddwl.
- Rydym yn darparu system blismona a chyfiawnder sy'n diwallu anghenion atal troseddu ein cymunedau, yn diogelu'r cyhoedd ac yn meithrin gwytnwch.
- Mae ein hymgysylltiad ystyrlon, pellgyrhaeddol â'r cyhoedd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau strategol.

**Roedd y datganiadau uchod yn caniatáu i'r comisiynydd ddatblygu tair blaenoriaeth allweddol:**

1. Cefnogi dioddefwyr
2. Atal niwed
3. Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol

**Er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau, mabwysiadodd y comisiynydd bedwar gwerth sy'n sail i waith y comisiynydd, ei dîm a'i bartneriaid:**




Mae'r cynllun yn manylu ar nodau'r comisiynydd ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys a sut y bydd yn sicrhau bod yr heddlu yn atebol i'w cyflawni, yn ogystal â nodi'r camau y bydd y Comisiynydd yn eu cymryd gyda phartneriaid.

Mae Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25 ar gael ar wefan y comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-comisiynydd/cynllun-heddlu-a-throseddu/

Mae cyfres o fideos wedi'u hanimeiddio ar gael drwy glicio'r ddolen uchod, i gefnogi a chrynhoi Cynllun Heddlu a Throseddu'r comisiynydd, er mwyn ei wneud yn fwy hygyrch i bawb.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ystyried y gwaith a wnaed i gyflawni'r blaenoriaethau, yn ogystal â sut mae'r comisiynydd wedi hybu gweithio mewn partneriaeth, atebolrwydd, cynaliadwyedd ac ymgysylltu.

# Y Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol (SPR) yn nodi'r bygythiadau hynny y mae'r Ysgrifennydd Cartref yn barnu eu bod yn peri'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd, a rhaid i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu rhoi sylw dyledus iddynt wrth gyhoeddi neu amrywio Cynlluniau Heddlu a Throseddu.

Mae'n cefnogi'r comisiynydd yn ogystal â'r prif gwnstabl i gynllunio, paratoi ac ymateb i'r bygythiadau hyn drwy gysylltu'r ymateb lleol yn glir â'r bygythiadau cenedlaethol, gan amlygu'r galluoedd a'r partneriaethau sydd eu hangen ar blismona, er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau cenedlaethol.

Mae Gofyniad Plismona Strategol 2023 yn amlinellu saith bygythiad cenedlaethol sydd wedi'u nodi:

- **Troseddau cyfundrefnol a difrifol;**
- **Terfysgaeth;**
- **Ymosodiadau seiber**
- **Cam-drin plant yn rhywiol;**
- **Anhrefn cyhoeddus;**
- **Argyfyngau sifil;**
- **Trais yn Erbyn Menywod a Merched;**


O fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd presennol ymrwymodd y comisiynydd i *"barhau i sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys yn bodloni gofynion y Gofyniad Plismona Strategol."*

Mae staff o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn mynychu cyfarfodydd mewnol Heddlu Dyfed-Powys fel mater o drefn i ddeall sut mae prif swyddogion yn sicrhau bod gan yr heddlu y cymhwyster a'r gallu gofynnol i ymateb i bob un o'r bygythiadau. Yn ogystal, drwy'r Bwrdd Plismona gofynnodd y comisiynydd i'r prif gwnstabl ateb tri chwestiwn:

1. Pa dystiolaeth sydd gan yr heddlu bod ganddynt y gallu angenrheidiol i fynd i'r afael â phob un o'r bygythiadau?
2. Sut gall yr heddlu ddangos datblygiad a defnydd asesiadau bygythiad strategol wrth ragweld a rheoli galw?
3. Beth yw cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu yr heddlu i gynghori cymunedau a busnesau ar fygythiadau a mesurau ataliol?

Darparodd y prif gwnstabl ymatebion ysgrifenedig yn ymdrin â phob un o'r bygythiadau, a adolygwyd yn fanwl gan swyddfa'r comisiynydd. Roedd sicrwydd bod camau lliniaru yn cael eu cynllunio'n briodol lle nodwyd risgiau. Lle bo'n briodol, mae tîm y comisiynydd yn sicrhau bod unrhyw faterion sydd angen sicrwydd pellach yn cael eu datblygu drwy graffu mewnol a'u huwchgyfeirio'n ôl drwy gyfarfodydd y Bwrdd Plismona yn unol â hynny. Mae'r comisiynydd wedi cael ei sicrhau bod asesiadau bygythiad strategol ar waith ac mae'r swyddfa yn parhau i fonitro sut mae'r heddlu a phartneriaid yn defnyddio'r rhain i sicrhau bod gweithgarwch atal yn canolbwyntio ar y meysydd cywir.

Bydd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn defnyddio Gofyniad Plismona Strategol 2023 i lywio datblygu Cynllun Heddlu a Throseddu 2025-29 a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mawrth 2025.



# Cynnydd yn erbyn Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25

## Blaenoriaeth Un: Cefnogi dioddefwyr

### Buddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr.

Mae'r comisiynydd wedi ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu cydnabod a'u cefnogi, bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod ymatebion yn cael eu teilwra i'w hanghenion unigol.

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24, parhaodd y comisiynydd i ariannu gwasanaethau cymorth hanfodol i ddioddefwyr. Mewn llawer o achosion gwneir hyn gan ddefnyddio cyllid grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder; canlyniad allweddol o hyn yw bod gwasanaethau'n helpu dioddefwyr i ymdopi ag effaith trosedd ac adfer ar ôl iddi ddigwydd.

### Gwasanaeth aml-drosedd Goleudy

Drwy gydol 2023-24, parhaodd Goleudy i gynnig cymorth personol, emosiynol ac ymarferol i helpu dioddefwyr, eu teuluoedd a thystion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**Yn ystod 2023-24:**

- **Cafodd ychydig dros 17,734 o ddioddefwyr trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol eu hatgyfeirio er mwyn asesu eu hangen am gymorth. Ymgysylltodd 84% o'r dioddefwyr hyn â Goleudy.**
- **Roedd y gyfran uchaf o'r rhain rhwng 18 a 34 oed (30%) a 35 a 54 oed (33%).**
- **Roedd ychydig dros hanner, 53%, yn fenywod.**

Mae Goleudy yn cyfeirio dioddefwyr at wasanaethau cymorth arbenigol lle bo angen, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl, cam-drin domestig, trais rhywiol a chamddefnyddio sylweddau. Cafodd 253 o ddioddefwyr eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill i gael cymorth arbenigol ychwanegol.

- **Mae'r Comisiynydd yn y broses o ailgomisiynu gwasanaeth i ddioddefwyr yn y dyfodol wrth i'r cytundeb presennol gyda Goleudy ddod i ben ym mis Mawrth 2025.**

## Gwasanaeth Annibynnol Eirioli i Ddioddefwyr Damweiniau Ffyrdd

Ym mis Tachwedd 2023, fel rhan o Wythnos Diogelwch Ffyrdd, cyhoeddodd y comisiynydd ei fod wedi cymeradwyo estyniad 12 mis i wasanaeth cymorth i ddioddefwyr damweiniau ffyrdd yn ardal Dyfed-Powys.

Bydd y cyllid yn galluogi'r darparwr gwasanaeth Brake i barhau i gyflogi eiriolydd annibynnol ar gyfer dioddefwyr damweiniau ffyrdd, gan weithio gyda Heddlu Dyfed-Powys ac yn uniongyrchol gyda dioddefwyr sydd wedi cael profedigaeth oherwydd marwolaethau ar y ffyrdd.

Gwasanaeth Cenedlaethol Dioddefwyr Damweiniau Ffyrdd Brake yw'r darparwr cymorth i ddioddefwyr damweiniau ffyrdd mwyaf blaenllaw yn y DU. Nid llinell gymorth yw'r ddarpariaeth gofal hon – gofal a reolir fesul achos yw hwn o'r diwrnod cyntaf am gyhyd ag sydd ei angen (weithiau mwy na blwyddyn) cyn gadael yn ddiogel. Darperir gofal trwy aseinio gweithiwr achos cyflogedig, hyfforddedig, penodol i deulu.

Mae'r cyllid a ddarperir gan y Comisiynydd yn galluogi Brake i weithio mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys i gefnogi teuluoedd yn dilyn digwyddiadau angheuol ar y ffyrdd, gan sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth arbenigol gan yr eiriolydd annibynnol ar gyfer dioddefwyr damweiniau ffyrdd a fydd yn rhoi pecyn gofal pwrpasol ar waith yn dibynnu ar anghenion pob teulu. Gall helpu i ddatrys problemau ymarferol uniongyrchol fel delio â chyllid a threfniadau angladd a hyd yn oed gefnogi plant gyda chwnsela arbenigol ac eitemau cymorth fel eirth cofio. Mae cyllid y Comisiynydd yn caniatáu i'r rôl hon fod yn ei lle tan fis Ebrill 2025.

Mae swyddfa'r Comisiynydd wedi gweithio'n agos gydag Uned Plismona'r Ffyrdd i annog proses atgyfeirio gadarn yn dilyn marwolaethau ar y ffyrdd. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod pob dioddefwr cymwys yn cael cynnig cymorth.

Mae adborth gan gleientiaid wedi nodi bod y cymorth a ddarperir yn fuddiol ac yn rhoi cysur i gleientiaid a'u teuluoedd:

> *"Diolch am fod yn weithiwr achos i mi – rydych chi'n gwrando ac yn ymateb yn dda. Mae'n anhygoel eich bod chi'n fy nghefnogi i."*

> *"Rwy'n teimlo ei bod yn fraint siarad â chi fel fy ngweithiwr achos. Mae'n gysur imi siarad â chi."*

> *"Braf eich cael chi i siarad ag ef gan nad ydw i eisiau rhoi baich ar y teulu."*

> *"Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr y gefnogaeth rydych yn ei rhoi i mi fel fy ngweithiwr achos. Mae'n fy helpu i siarad â chi gan ei fod yn caniatáu i mi grynhoi fy nheimladau gan fod hyn yn rhoi pethau mewn persbectif i mi."*

**Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn;**

> *"Yn anffodus, mae gwrthdrawiadau ffyrdd yn gyffredin yma yn Nyfed-Powys, er gwaethaf gwaith rhagweithiol ein Huned Plismona'r Ffyrdd, Gwylio Cyflymder Cymunedol, a Gan Bwyll.*
>
> *Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i yrru'n ddiogel a pharchu defnyddwyr eraill y ffyrdd. Ni ddylid derbyn y gyfradd anafiadau ar draws ardal yr heddlu ac rwyf wedi ymrwymo i leihau'r ystadegau hyn a'r gost ddynol ofnadwy gysylltiedig.*
>
> *Ni allaf ddechrau dychmygu'r trawma y mae teuluoedd sy'n dioddef profedigaeth neu anaf sy'n newid bywyd mewn gwrthdrawiad ffordd yn ei ddioddef, ac rwy'n gobeithio, trwy ariannu'r gwasanaeth hwn y mae Brake yn ei ddarparu, y gallwn helpu i liniaru rhywfaint o'r dioddefaint, yr ofn a'r ansicrwydd hwnnw i ddioddefwyr yn Nyfed-Powys."*
>
> Dafydd Llywelyn



**Dywedodd Jami Blythe, Rheolwr Datblygu yn Brake:**


> *"Diolch i gyllid gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, mae Brake yn gallu ymestyn gweithrediad y Gwasanaeth Cenedlaethol Dioddefwyr Damweiniau Ffyrdd i'r ardal leol hon. Bydd y cyllid yn helpu dioddefwyr damweiniau ffyrdd yn Nyfed-Powys i ymdopi â'r sioc, yr helbul a'r dinistr y mae damweiniau ffyrdd yn eu hachosi i deuluoedd. Bydd yr eiriolydd annibynnol dioddefwyr damweiniau ffyrdd yn gweithio gyda theuluoedd lleol i ddarparu'r cymorth hanfodol sydd ei angen arnynt. Rydym yn hynod ddiolchgar i fod yn rhan o ymrwymiad y comisiynydd i gefnogi anghenion dioddefwyr damweiniau ffyrdd."*

## Y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig

Mae'r gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig, sy'n cael ei redeg gan Dal I Godi, yn mynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr sy'n wynebu risg uchel o niwed gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu, gan gynnwys sicrhau diogelwch plant.


Mae Dal I Godi yn wasanaeth partneriaeth cydweithredol a ffurfiwyd gan bum asiantaeth cam-drin domestig arbenigol, Gwasanaeth Trais Domestig Calan, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin, Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Threshold a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru. Mae gan y pum asiantaeth rhyngddynt 148 mlynedd o brofiad ar y cyd o ddarparu gwasanaethau cam-drin domestig.

Derbyniodd y gwasanaeth 1,652 o atgyfeiriadau yn ystod 2023-24, achosion o Sir Benfro oedd y mwyaf niferus, ac yna Sir Gaerfyrddin. Roedd 87% o'r atgyfeiriadau hyn yn fenywod.




### Data canlyniadau ar gyfer y rhai a adawodd y gwasanaeth yn ystod chwarter 4 2023-24:

| | |
|---|---|
| Canran y cleientiaid sy'n adrodd am well iechyd a lles | 53% |
| Canran y cleientiaid sy'n teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well | 60% |
| Canran y cleientiaid sy'n teimlo lefel uwch o ddiogelwch | 63% |
| Canran y cleientiaid sy'n teimlo'n fwy gwybodus ac yn gallu gweithredu'n well | 68% |



**Dyfyniadau gan unigolion sydd wedi defnyddio'r gwasanaethau:**

- Wnes i erioed feddwl y gallwn deimlo'n ddiogel ac yn obeithiol eto, ond mae eich cefnogaeth wedi gwneud hynny'n bosibl. Diolch am eich caredigrwydd ac am fy helpu i gymryd y camau cyntaf tuag at iachâd
- Diolch am ddarparu achubiaeth pan oeddwn yn teimlo ar goll. Mae eich arweiniad a'ch gofal wedi gwneud gwahaniaeth enfawr, ac rwy o'r diwedd yn dechrau teimlo'n obeithiol eto
- Mae dyddiau gwell yn dod a dydw i ddim yn mynd i stopio nes eu bod yma'n llawn. Diolch enfawr am bopeth rydych chi wedi'i wneud i'm helpu, rydych chi wedi bod yn anhygoel! Rwy'n falch iawn fy mod wedi cael eich help! Rwy'n mynd i'ch colli chi gymaint. Rwy mor ddiolchgar fy mod i wedi cwrdd â chi ac am y cyfan yr ydych chi wedi'i wneud i mi.

## Astudiaeth Achos



Gwnaethpwyd atgyfeiriad i'r gwasanaeth yn 2023 yn dilyn digwyddiad yr adroddwyd amdano i'r heddlu. Menyw y credwyd ei bod yn profi rheolaeth orfodol, cam-drin corfforol a rhywiol a gyflawnwyd gan ei phartner ac yna gan deulu'r partner.

Gwnaeth y gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Gam-drin Domestig y cyswllt cychwynnol yn ddiogel o fewn 24 awr i dderbyn yr atgyfeiriad a threfnwyd i gyfarfod mewn gorsaf heddlu leol. Yn dilyn asesiad risg cychwynnol, nodwyd bod hwn yn achos arwyddocaol o gam-drin domestig. Yn dilyn y datgeliad hwn, cefnogodd y gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Gam-drin Domestig yr unigolyn i gael mynediad i'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, ffoi i lety diogel a'i chefnogi i wneud datganiad i'r heddlu a arweiniodd yn ddiweddarach at arestio'r troseddwr honedig ac aelod o'r teulu.



Roedd yr unigolyn yn dod i gysylltiad â'r tramgwyddwr oherwydd bod plentyn yn cadw cysylltiad ag ef a phrofodd gam-drin ar ôl gwahanu gan gynnwys gorfodaeth a bygythiadau a oedd yn peri iddi deimlo'n ofnus. Cefnogodd y gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig yr unigolyn i wneud adroddiad i'r heddlu, darparodd gefnogaeth emosiynol wrth wneud y datganiad a rhoddodd ddiweddariad i'r unigolyn ar unrhyw gynnydd yn yr achos trwy ymgysylltu â'r swyddog cam-drin domestig a neilltuwyd i'r achos.

Parhaodd yr unigolyn i ymgysylltu â'r gwasanaeth ac mae wedi dweud ei bod yn teimlo'n fwy gwydn am y dyfodol iddi hi a'i merch yn rhydd rhag camdriniaeth.

## Y Gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Rhywiol

Mae New Pathways yn ddarparwr cymorth trais rhywiol profiadol yng Nghymru, gyda dros 30 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth arbenigol i oedolion a phlant yr effeithir arnynt gan drawma treisio, ymosodiad rhywiol a cham-drin rhywiol. Ledled Cymru maent yn cefnogi bron i 4,000 o bobl y flwyddyn.

Yn ardal Dyfed-Powys, atgyfeiriwyd 582 o unigolion i Lwybrau Newydd yn 2023-24, gyda mwyafrif yr atgyfeiriadau drwy Heddlu Dyfed-Powys. Roedd ychydig dros hanner, 55% o atgyfeiriadau o ganlyniad i achosion hanesyddol gyda 17% o atgyfeiriadau yn dilyn cyflwyniad acíwt a oedd angen archwiliad meddygol fforensig. Mae'r rhai sy'n cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yn elwa ar gefnogaeth cynghorydd trais rhywiol annibynnol sy'n darparu cymorth sydd wedi'i deilwra i'r unigolyn ac sy'n darparu cymorth emosiynol ac ymarferol.

**Yn ystod 2023-24:**

- Cafodd **582** o atgyfeiriadau eu gwneud i New Pathways.
- Roedd **55%** o'r rhain yn achosion hanesyddol.
- Roedd **12%** o'r atgyfeiriadau ar gyfer plant o dan 12 oed.
- Roedd **37%** o ddioddefwyr a atgyfeiriwyd o dan 17 oed

**Canlyniadau gwasanaeth cymorth Llwybrau Newydd:**

- **84%** o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi dweud eu bod yn teimlo fel eu bod yn gallu ymdopi'n well.
- **84%** wedi profi gostyngiad mewn symptomau gorbryder.

## Ymgyrch Soteria Bluestone

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd Heddlu Dyfed-Powys i drawsnewid eu hymagwedd at blismona treisio a throseddau rhywiol difrifol eraill yn unol ag Ymgyrch Soteria Bluestone; rhaglen ymchwil a newid genedlaethol a ariennir gan y Swyddfa Gartref.

Parhaodd y comisiynydd i oruchwylio cynnydd Heddlu Dyfed-Powys yn erbyn eu cynllun gweithredu lleol eu hunain a model gweithredu cenedlaethol ymgyrch Soteria (a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2023), drwy gyflwyno diweddariadau rheolaidd yn y Bwrdd Plismona. Mynychodd cynrychiolwyr o SCHTh gyfarfodydd mewnol ac amlasiantaeth hollbwysig, gan roi gwybod i'r comisiynydd am unrhyw feysydd o bryder neu arferion gorau a nodwyd.

Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd ymgyrch Soteria ei "*Arolwg Profiad Heddlu ar gyfer dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhywiol*". Ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys, hyrwyddodd SCHTh yr arolwg hwn ar gyfryngau cymdeithasol, gan annog dioddefwyr treisio ac ymosodiadau rhywiol lleol i rannu eu profiad ar lefel genedlaethol er mwyn gwella ymateb yr heddlu i'r troseddau hyn.




Gan weithredu fel llais dioddefwyr, bydd y Comisiynydd a'r staff yn parhau i gynorthwyo'r heddlu i ymgysylltu â'r rhai sydd â phrofiad bywyd i sicrhau bod ganddynt lais wrth wella gwasanaethau'r heddlu. Bydd SCHTh yn cymryd mwy o ran yng ngwaith craffu mewnol Heddlu Dyfed-Powys ar eu hymateb i dreisio ac ymosodiadau rhywiol.

## Cwmni Buddiannau Cymunedol Physical Empowerment CIC

Dosbarthodd y Comisiynydd gyllid hefyd i sefydliadau cymunedol ac elusennau sydd â'r nod o gefnogi pobl fregus.

Mae cwmni buddiannau cymunedol Physical Empowerment CIC yn darparu dosbarthiadau hunanamddiffyn, gwydnwch a magu hyder i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig.

Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus yn 2022-23, derbyniodd Physical Empowerment CIC gyllid pellach i barhau â'r gwaith pwysig hwn.

Roedd y cynllun peilot gwreiddiol yn defnyddio staff sy'n cael eu cyflogi yng nghanolfan y sefydliad ym Mhort Talbot i deithio i Lanelli i gyflwyno sesiynau. Mae cyllid eleni yn ehangu ar y ddarpariaeth hon i gyflogi adnodd llawn amser i gyflenwi'n uniongyrchol i gymunedau Dyfed-Powys.

Y canlyniadau y maent yn eu cyflawni yw datblygu gallu mynychwyr i symud o feddylfryd 'dioddefwr' i 'oroeswr', cael ymdeimlad cryfach o'r hunan, eu helpu i gael gwared ar y teimlad parhaol hwnnw o ofn sydd ganddynt, bod yn fwy galluog, annibynnol a hyderus ac yn ei dro, gallu cyfrannu mwy i gymdeithas.

Mae'r prosiect peilot wedi cael derbyniad da ac mae wedi darparu cymorth mawr ei angen ar fenywod i'w grymuso i adnabod ac osgoi patrymau ymddygiad mynych; dod yn fwy pendant a chynyddu eu hunan-barch.

Mae'r cyllid wedi hwyluso cyflogi cydgysylltydd cymunedol, rheolwr gweithrediadau a hyfforddwr i gyflwyno'r sesiynau, cit arbenigol ar gyfer y prosiect a, lle bo'n briodol, mae cyllid wedi'i roi ar gyfer gofal plant a chostau teithio.

Ffocws y cyllid oedd sefydlu canolfan o fewn rhanbarth Dyfed-Powys gyda chydlynydd cymunedol ac mae hyn wedi'i gyflawni'n llwyddiannus. Cynhaliwyd un sesiwn hyfforddi yn ystod y cyfnod ariannu gydag 11 o unigolion â diddordeb i fynychu. Cwblhaodd pedwar cleient y cwrs llawn a chysylltwyd â'r lleill i gynnig cefnogaeth ychwanegol, gyda rhai ohonynt yn




awyddus i fynychu cyrsiau yn y rhanbarth yn y dyfodol.

Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu cyrsiau mewn lleoliadau eraill o fewn Dyfed-Powys er mwyn cynyddu cyrhaeddiad.

**Mae adborth cleientiaid yn cynnwys y canlynol:**

> ***"Mae'r cwrs hwn wedi dod â menywod at ei gilydd i deimlo'n fwy na dioddefwyr ond i deimlo'n ddynol, i deimlo wedi'u grymuso."***

> ***"Rwy wedi mwynhau'r cwrs grymuso corfforol yn fawr. Y peth rydw i wedi teimlo sydd wedi bod yn hynod ddefnyddiol yw gallu siarad â merched sy'n deall Fi!"***

> ***"Cwrs anhygoel. Byddwn yn argymell yn fawr y dylai unrhyw un sydd wedi bod mewn perthynas gamdriniol wneud y cwrs. Rhyfeddol. Diolch."***

> ***"Gwych, mae'n gweithio i ailosod eich ymennydd yn ôl i'r cyfnod cyn y cam-drin, mae'n well na chwnsela. Mae'n grymuso."***

## Camdrin Rhieni gan Blant

Ym mis Rhagfyr 2023 unwaith eto tynnodd y Comisiynydd sylw at gamdrin rhieni gan blant yn dilyn Ymgyrch Rhuban Gwyn ac anogodd sefydliadau yn ardal Dyfed-Powys i lofnodi'r Cyfamod Cam-drin Rhieni gan Blant.

Mae camdrin rhieni gan blant yn elfen arbennig o gam-drin domestig, ac mae diffyg ymwybyddiaeth o'r math hwn o gam-drin.


Mae'r cyfamod yn rhoi cyfle i gyflogwyr ledled y DU gydnabod camdrin rhieni gan blant fel math allweddol o gam-drin domestig, a dechrau cynnig cymorth i'w staff, gwirfoddolwyr, defnyddwyr gwasanaeth neu aelodau'r cyhoedd. Gall sefydliadau lofnodi'r cyfamod p'un a oes ganddynt bolisïau a hyfforddiant staff eisoes ar waith, neu p'un a ydynt ar ddechrau ar eu taith o ddarganfod beth yw camdrin rhieni gan blant a sut mae'n effeithio ar deuluoedd.

Mae'r cyfamod wedi'i lansio gan sefydliad di-elw Parents Education Growth Support (PEGS), fel rhan o'u hymrwymiad parhaus i gefnogi rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid y mae camdrin rhieni gan blant yn effeithio arnynt.

Mae'r comisiynydd wedi darparu cyllid i PEGS yn ystod 2023-24 i godi ymwybyddiaeth a chefnogi rhieni sy'n dioddef o'r math hwn o gam-drin.

Yn ystod 2023-24, gwnaed 32 o atgyfeiriadau i PEGS, ac o'r rhain derbyniodd 29 o ddioddefwyr gymorth.

**Roedd yr holl ddioddefwyr a gefnogwyd yn fenywod yn yr ystodau oedran canlynol:**




Yn ogystal â'r gwasanaeth cymorth, mae PEGS wedi darparu pecyn hyfforddi cynhwysfawr i ymarferwyr, gan gynnwys swyddogion heddlu, gwasanaethau a gomisiynir a phartneriaid. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys ymwybyddiaeth o declyn asesu sy'n cael ei ddefnyddio gan Heddlu Dyfed-Powys i nodi a yw camdrin rhieni gan blant yn digwydd, ac i lywio'r ymateb gweithredol.

**Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn:**

> *"Mae ein hymdrechion, gan gynnwys yr hyfforddiant unigryw rydym yn ei ddarparu yn y maes hwn a llofnodi'r Cyfamod Camdrin Rhieni gan Blant, yn gamau tuag at gymuned fwy diogel a gwybodus. Drwy gydweithio, gallwn greu newid parhaol a chefnogi'r rheiny y mae'r mathau hyn o gam-drin yn effeithio arnynt."*
>
> Dafydd Llywelyn



Mae rhagor o fanylion am gamdrin rhieni gan blant, a'r cyfamod, ar gael ar wefan PEGS yma: https://www.pegsupport.co.uk/CPAC

## Safer Communities Awards
## Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel

Cynhaliwyd Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel i gydnabod cyfraniadau eithriadol i ddiogelwch cymunedau mewn cyd-destun amlasiantaeth. Roedd y seremoni wobrwyo, a gynhaliwyd yn Abertawe ym mis Rhagfyr 2023, yn gyfle i gydnabod y rhai sydd wedi cael effaith wirioneddol ar fywydau pobl trwy gydol y flwyddyn.

Enillodd nifer o fentrau a phrosiectau Dyfed-Powys wobrau gan gynnwys INTACT - partneriaeth amlasiantaeth sy'n brwydro yn erbyn trais difrifol a throseddau cyfundrefnol yn Nyfed-Powys, prosiectau tai Rheoli Troseddwyr Integredig a Thîm Troseddau Economaidd Heddlu Dyfed-Powys.

Mae staff a swyddogion Heddlu Dyfed-Powys ac asiantaethau partner sy'n gweithio ym mhob un o'r tri maes busnes hyn wedi dangos ymrwymiad ac ymroddiad i ddiogelu cymunedau Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Phowys ac maent yn haeddu'r gydnabyddiaeth genedlaethol.

Mae INTACT yn bartneriaeth amlasiantaeth a ffurfiwyd yn 2019 i frwydro yn erbyn trais difrifol a throseddau cyfundrefnol yn Nyfed-Powys. Nod INTACT yw lleihau'r niwed a achosir i unigolion a chymunedau gan drais difrifol a throseddau cyfundrefnol. Mae'n gweithredu o dan y dull pedair elfen o blismona: Paratoi; Diogelu; Atal; Ymlid.  Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau partner i ddarparu gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal i amddiffyn y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ymgysylltu â thrais difrifol a throseddau cyfundrefnol fel dioddefwyr neu troseddwyr.  Hyd yma, mae dros 600 o blant, pobl ifanc ac oedolion bregus wedi cael cynnig amrywiaeth o ymyriadau wedi'u targedu.

Mae prosiect tai Rheoli Troseddwyr Integredig Dyfed-Powys yng Ngheredigion yn darparu llety symud ymlaen dros dro i droseddwyr y rhaglen.

Nododd tîm Rheoli Troseddwyr Integredig Ceredigion mai llety oedd yr angen allweddol ymhlith y garfan i geisio torri'r cylch troseddu. Nid oedd prosiectau amlfeddiannaeth presennol yn darparu amgylchedd na chyfle ar gyfer adsefydlu.

Darparodd y comisiynydd gyllid i sefydlu eiddo pwrpasol (fflat un ystafell wely) i sefydlogi pobl a enwebwyd o'r prosiect Rheoli Troseddwyr Integredig tra daethpwyd o hyd i lety mwy hirdymor. Ers sefydlu'r prosiect yn 2021, mae saith o bobl a enwebwyd wedi defnyddio'r eiddo, a'r prif anghenion a nodwyd i ddileu troseddu yw llety, cyffuriau ac iechyd meddwl. Ers hynny mae chwech o'r bobl a enwebwyd wedi gadael prosiect Rheoli Troseddwyr Integredig, gydag un yn parhau ar y cynllun. Y rhesymau dros adael y prosiect yw bod llwybrau wedi sefydlogi'n llwyddiannus, ac nad oes angen cymorth cofleidiol amlasiantaethol dwys ar yr unigolion mwyach.

Ym mis Ebrill 2020, cymerodd Tîm Troseddau Economaidd Dyfed-Powys y gwaith o reoli'r holl ddigwyddiadau twyll a seiberdroseddu a adroddwyd i'r heddlu yn galw am wasanaeth – gan frysbennu'r adroddiadau ac ymgysylltu â dioddefwyr cyn gynted â phosibl er mwyn darparu cyngor, arweiniad a chefnogaeth arbenigol ar y pwnc ac i sicrhau adrodd cywir i Action Fraud.

Drwy reoli pob digwyddiad o dwyll a seiberdroseddu mae'r Tîm Troseddau Economaidd nid yn unig wedi lleihau'r straen ar swyddogion rheng flaen ond hefyd wedi cael adborth cadarnhaol gan ddioddefwyr yn y gymuned, gyda llawer yn gwneud sylwadau ar ansawdd y gwasanaeth a'r sicrwydd a gawsant.

Gwnaed 3,328 o adroddiadau i Action Fraud gan drigolion ardal Dyfed-Powys yn ystod 2023-24. Roedd 1,663 o'r rhain wedi'u hadrodd yn uniongyrchol i Heddlu Dyfed-Powys yn galw am wasanaeth.

Ymgysylltwyd â 918 o ddioddefwyr ychwanegol a gysylltodd yn uniongyrchol ag Action Fraud a rhoddwyd cyngor diogelu iddynt.

Cyfanswm yr arian a gollwyd drwy dwyll a adroddwyd i Action Fraud oedd dros £20 miliwn

Mae ymgyrch Signature yn nodi ac yn cefnogi dioddefwyr twyll bregus, gan ddarparu mesurau ataliol a chefnogol i'w hamddiffyn a'u diogelu rhag cael eu targedu ymhellach.

Yn 2023-24, ymunodd 285 o ddioddefwyr ag ymgyrch Signature.

O'r 285 o unigolion, cafodd 81 eu categoreiddio fel dioddefwyr risg uchel, 81 risg canolig a 123 fel risg isel.

Darparodd y Swyddog Diogelu Twyll gefnogaeth trwy gyswllt uniongyrchol ac ymgysylltu â 163 o ddioddefwyr ac adennill colled o £727,700.

Mae'r Uned Ymchwilio Ariannol o fewn y Tîm Troseddau Economaidd wedi adennill cyfanswm o £1,004,181.72.

**Enghraifft o ymchwiliad twyll a gynhaliwyd gan y Tîm Troseddau Economaidd:**

- Argyhoeddodd dyn o Ddinbych-y-pysgod ffrindiau a chyfeillion i wneud taliadau gwerth uchel y dywedodd y byddai'n eu rhoi mewn cynlluniau buddsoddi ar eu rhan. Mewn gwirionedd, roedd yn ddi-waith ac yn ariannu ei ffordd o fyw ei hun.
- Daeth ymddygiad troseddol y dyn i'r amlwg yn 2018, pan fethodd ei ddioddefwyr â derbyn unrhyw arian o'r 'buddsoddiadau' a dechreuasant amau fod rhywbeth o'i le.
- Fe wnaeth ymholiadau'r heddlu ganfod bod nifer o bobol wedi cael eu heffeithio gan ei gynllun anonest, ac fe gafodd ei arestio ar amheuaeth o dwyll.
- Arweiniodd ymchwiliad trylwyr at y dyn 62 oed at ei gyhuddo o 26 achos o dwyll.
- Ar ôl achos hir ym mis Rhagfyr 2023, fe'i cafwyd yn euog o'r 26 cyhuddiad hyn, ac un o ddwyn.
- Disgrifiodd Ei Anrhydedd y Barnwr Thomas ef fel 'un o'r dynion mwyaf anonest' a gyfarfu erioed, a chafodd ei ddedfrydu ar 5 Ionawr, 2024, i wyth mlynedd yn y carchar am achosi colledion o £377,000.
- Canmolodd Ei Anrhydedd y Barnwr Thomas waith y Tîm Troseddau Economaidd, gan ganmol y swyddog yn yr achos yn arbennig am ansawdd ei hymchwiliad.

**Wrth longyfarch y dair fenter, dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys Dafydd Llywelyn;**

> *"Rwy'n hynod falch o longyfarch Heddlu Dyfed-Powys a'r partneriaid amlasiantaeth, ar y gydnabyddiaeth haeddiannol a roddwyd iddynt yng Ngwobr cenedlaethol Cymunedau Mwy Diogel Cymru yr wythnos hon.*
>
> *Mae'r cyflawniad hwn yn amlygu ymrwymiad i ddiogelu ein cymunedau drwy fynd i'r afael â heriau cymhleth."*

Hefyd yn derbyn cydnabyddiaeth yn y gwobrau oedd menter Hyrwyddwr Cymunedol Dyfed-Powys. Mae'r fenter hon yn rhaglen bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Trais Domestig Calan, Threshold, Canolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin. Mae rhaglen addysgol yr hyrwyddwyr yn codi ymwybyddiaeth o stelcian, aflonyddu a throseddau casineb, gan weithio tuag at greu cymunedau mwy diogel, annog cyfranogwyr i beidio â chadw'n dawel ac adrodd fel y bo'n briodol.

## Gweithdy Athreuliad Cam-drin Domestig

Ymgorfforwyd lleihau athreuliad dioddefwyr mewn achosion cam-drin domestig yng Nghynllun Cyflawni Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys 2023-24.

Yn flaenoriaeth allweddol ar lefel Genedlaethol yng Nghymru trwy waith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru, mae 'athreuliad dioddefwr' yn cyfeirio at dynnu cefnogaeth yn ôl ar gyfer ymchwiliad troseddol. Gall ddioddefwyr dynnu eu cefnogaeth yn ôl am sawl rheswm gwahanol. Fel cam cyntaf i ddeall athreuliad dioddefwyr mewn achosion cam-drin domestig, cyfarfu asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth mewn gweithdy amlasiantaeth ym mhencadlys yr heddlu ym mis Tachwedd 2023, a gynhaliwyd gan dîm y Comisiynydd.

Wedi'i gadeirio gan Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) Cymru, roedd y gweithdy'n canolbwyntio ar y canlynol:

1. Achosion athreuliad dioddefwyr mewn achosion cam-drin domestig, fel sy'n amlwg yng ngwaith a data presennol asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth; ac yn bwysig.
2. Y camau y gallai asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth eu cymryd i leihau athreuliad dioddefwyr cam-drin domestig ar draws ardal Dyfed-Powys.



### Mesurau Arbennig

Gall ystod o fesurau arbennig helpu dioddefwyr a thystion bregus dan fygythiad yn ystod ymchwiliad ac wrth ymddangos o flaen y llys. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- y defnydd o sgriniau i atal y dioddefwr neu'r tyst rhag gweld y sawl a gyhuddir.
- rhoi tystiolaeth trwy gyfrwng cyswllt byw.
- rhoi tystiolaeth yn breifat i ffwrdd o'r llys.
- barnwyr a bargyfreithwyr yn tynnu eu wigiau a'u gynau.
- recordio cyfweliad ymlaen llaw neu recordio croesholi cyn treial.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Gwasanaeth Erlyn y Goron: https://www.cps.gov.uk/legal-guidance/special-measures

**Enghreifftiau o'r hyn sy'n achosi athreuliad dioddefwyr a nodwyd oedd:**

- Oedi wrth ddarparu diweddariadau i ddioddefwyr yn ystod ymchwiliad.
- Y derminoleg a ddefnyddir gan swyddogion ymateb yn y rhyngweithio cychwynnol â dioddefwyr.
- Diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r mesurau arbennig sydd ar gael i ddioddefwyr, gan ddioddefwyr ac o fewn asiantaethau cyfiawnder troseddol/gwasanaethau cymorth.
- Gwybodaeth annigonol yn cael ei rannu â dioddefwyr am wasanaethau, prosesau cyfiawnder troseddol a phwy y gallent ddod i gysylltiad â nhw.

**Rhai o'r camau gweithredu a nodwyd ar gyfer sefydliadau, gan gynnwys swyddfa'r Comisiynydd, oedd:**

- Cydlynu ymarfer craffu gan Banel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd gan ganolbwyntio ar y derminoleg y mae swyddogion ymateb yn ei defnyddio wrth ryngweithio â dioddefwyr ar gychwyn ymchwiliad. Digwyddodd hyn ar 20 Mawrth 2024 a rhannwyd yr arferion gorau a'r materion a nodwyd â Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer dysgu.

- Adolygu Pecyn Gwybodaeth Dioddefwyr Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth y gallai fod ei hangen ar ddioddefwr, yn benodol mewn perthynas â gwasanaethau dioddefwyr, prosesau cyfiawnder troseddol a'r unigolion/rolau y gall dioddefwr ddod i gysylltiad â nhw. Dechreuodd y gwaith hwn ym mis Mawrth 2024, a bydd aelodau Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr y comisiynydd yn cael eu gwahodd i adolygu'r pecyn.

- Cynnal gweithdy gyda goroeswyr cam-drin domestig, i gasglu barn ar achosion athreuliad, yr hyn y gallai asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth ei wneud i gynnal cymorth i ddioddefwyr a sut y gall y derminoleg y mae swyddogion ymateb yn ei defnyddio wrth ryngweithio ar gychwyn achos â dioddefwyr effeithio ar athreuliad dioddefwyr.  Mae disgwyl i'r gweithdy gael ei gynnal ar-lein yn ystod mis Ebrill 2024.

Mae cynrychiolwyr yr asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth a fynychodd y cyfarfod amlasiantaeth gwreiddiol yn parhau i gyfarfod bob chwarter i sicrhau bod cynnydd yn parhau yn y maes hwn. Bydd hefyd yn bwysig adolygu unrhyw newidiadau mewn data athreuliad dioddefwyr i asesu a yw'r camau a gymerwyd gan asiantaethau cyfiawnder troseddol a gwasanaethau cymorth wedi effeithio'n gadarnhaol ar athreuliad.



# Blaenoriaeth Dau – Atal Niwed

## Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru – School Beat Cymru

Ganol mis Rhagfyr 2023, hysbysodd Llywodraeth Cymru heddluoedd Cymru y byddai'r holl gyllid ar gyfer rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan (£0.3 miliwn) yn cael ei dynnu'n ôl o 1 Ebrill 2024.

Mae Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru yn gydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a Heddlu Dyfed-Powys, Gwent, Gogledd Cymru, a De Cymru sy'n creu rôl Swyddogion Heddlu Ysgolion – pwynt cyswllt penodedig ar gyfer pob ysgol yng Nghymru. Mae Swyddogion Heddlu Ysgolion wedi bod yn cyflwyno cwricwlwm dwyieithog o wersi a ddatblygir gan athrawon ar gyfer disgyblion 5-16 oed, a adolygir yn genedlaethol, am y deng mlynedd diwethaf. Yn-fwy na hynny, maent yn darparu cefnogaeth ac ymateb pwrpasol i ddigwyddiadau, gan sicrhau diogelwch, lles a datblygiad cyffredinol a gofal bugeiliol myfyrwyr a'u hysgolion.

Ysgrifennodd y comisiynydd at arweinwyr ysgolion yn ardal Dyfed-Powys ym mis Ionawr 2024 i egluro sefyllfa Rhaglen Ysgolion Heddlu Cymru. Roedd y llythyr yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae Swyddog Heddlu Ysgolion yn ei chwarae wrth gynnal a meithrin amgylchedd diogel a saff i ddisgyblion a myfyrwyr. Ymrwymodd y comisiynydd i sicrhau parhad y rhaglen o fewn y pedwar awdurdod lleol yn ardal Dyfed-Powys tan ddiwedd y flwyddyn academaidd ac mae'n gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys a phartneriaid i archwilio dyfodol y rhaglen y tu hwnt i fis Gorffennaf 2024.



## Asesiad Strategol o Wrthdrawiadau Difrifol

Yn ôl ymchwil a wnaed gan Forbes Advisor, mae gan Bowys y ffyrdd mwyaf peryglus ym Mhrydain, ac yna Ceredigion yn ail a Sir Benfro yn seithfed safle. Gellir cyrchu'r ddolen i'r ymchwil yma https://www.itv.com/news/wales/2022-08-05/the-top-10-most-dangerous-roads-in-britain-according-to-new-research

O ganlyniad, comisiynodd y comisiynydd GanBwyll i gynhyrchu adolygiad strategol deng mlynedd o wrthdrawiadau difrifol ar draws ardal Dyfed-Powys. Darparodd yr adolygiad ddata ar gyfer ardal Dyfed-Powys yn ei chyfanrwydd, gyda phwyslais ar Bowys oherwydd y nifer anghymesur o farwolaethau sy'n digwydd yn y sir. Canfu'r adolygiad fod 40% o'r holl wrthdrawiadau angheuol wedi digwydd yn ardal Powys ac o ganlyniad, sefydlwyd Grŵp Diogelwch Ffyrdd Powys gyda chynrychiolwyr o'r heddlu, Cyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru. Datblygodd y grŵp hwn Adroddiad Strategol Diogelwch Ffyrdd Powys a fydd yn cael ei gyflwyno i Weinidogion Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad yn rhoi argymhellion i bartneriaid perthnasol (gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau priffyrdd a Llywodraeth Cymru) ar sut y dylent gyfrannu at gynyddu diogelwch ffyrdd ym Mhowys.

## Ymgysylltu Cymunedol â Partneriaeth Ffyrdd Powys

Mae'r Comisiynydd wedi cefnogi Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Powys wrth iddynt ganolbwyntio ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Yn ystod ymweliad â Llanfihangel Cwm Du a Thalgarth, cyfarfu'r comisiynydd â chynghorwyr i ddysgu mwy am bryderon ynghylch diogelwch ffyrdd ar brif gefnffordd yr A479. Roedd deiseb wedi'i chreu yn galw am gyfyngiadau cyflymder is yn y ddau bentref, creu terfyn pwysau ar gyfer y darn cyfan o'r ffordd, rheoliadau sŵn cerbydau, a gosod llwybrau beicio a cherdded, ac roedd pob un ohonynt yn faterion i Lywodraeth Cymru eu hystyried.

Roedd y Comisiynydd yn gallu trafod y pryderon hyn â chynghorwyr lleol a hefyd â thrigolion sy'n byw ar ochr yr A479 i ddeall yr effaith y mae traffig y ffordd yn ei chael arnynt yn unigol, ac ar eu heiddo. Yn ddiweddarach yn y dydd, ymwelodd y Comisiynydd ag Ysgol Y Mynydd Du a'r Llyfrgell Gymunedol yn Nhalgarth i gwrdd â staff a gwirfoddolwyr yn ogystal â llysgennad diogelwch ffyrdd yr ysgolion.

Roedd y Comisiynydd yn gallu rhoi sicrwydd i bawb bod Uned Plismona'r Ffyrdd Heddlu Dyfed-Powys a Gan Bwyll yn ymwybodol o'r pryderon lleol.

Ysgrifennodd y comisiynydd lythyr at Ddirprwy Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru i dynnu sylw at y pryderon ynghylch goryrru ar hyd cefnffordd yr A479. Yn y llythyr, awgrymodd y Comisiynydd hefyd y dylid ystyried gweithredu camerâu terfyn cyflymder cyfartalog ar hyd y ffordd hon. Anfonodd y Comisiynydd lythyr hefyd at Bennaeth Priffyrdd Cyngor Sir Powys i fynegi ei bryderon ynghylch goryrru ym mhentref Trefeca ac i annog y cyngor i gymryd camau ataliol. Argymhellodd y Comisiynydd y dylid defnyddio mesurau gostegu traffig yn Nhrefeca megis twmpathau ffordd neu rwystrau igam-ogam i sicrhau y cedwir at y terfyn cyflymder.




## Dyletswydd Trais Difrifol

Dechreuodd y Ddyletswydd Trais Difrifol ar 31 Ionawr 2023 ac mae'n gosod dyletswydd ar awdurdodau penodedig i gydweithio i atal a lleihau trais difrifol. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dyrannu cyllid grant i bartneriaid ym mhob ardal heddlu i gyflawni'r ddyletswydd, cefnogi'r gwaith o gyflawni strategaethau lleihau trais difrifol ac atal niwed.

Mae gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ddyletswydd cynnull i alw awdurdodau penodedig ynghyd a chynorthwyo i gyflawni'r ddyletswydd.

Cynorthwyodd y bartneriaeth, gan gynnwys yr holl awdurdodau penodedig a pherthnasol, i ddatblygu'r asesiad o anghenion strategol a nododd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer ardal Dyfed-Powys. Yna cynhaliwyd gweithdy gyda phartneriaid i ddatblygu'r blaenoriaethau hyn yn strategaeth gyda nifer o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni. Helpodd hyn i nodi mentrau a chynlluniau yn ardal Dyfed-Powys i'w hariannu gan ddefnyddio cyllid grant Dyletswydd Trais Difrifol.

**Canfyddiadau allweddol o'r asesiad o anghenion strategol:**

- Mae troseddau treisgar ar draws ardal Dyfed-Powys wedi bod yn cynyddu ers sawl blwyddyn.
- Mae poblogaethau haf dros dro yn effeithio ar y cyfraddau fesul poblogaeth, gan wyro'r ffigurau i ddangos mai Sir Benfro a Cheredigion sydd â'r cyfraddau uchaf o drais difrifol. Mae her poblogaeth ddibreswyl yn rhywbeth y mae angen mynd i'r afael ag ef fel rhan o'r strategaeth.
- Cam-drin domestig a thrais rhywiol yw'r mwyaf cyffredin ymhlith y troseddau trais difrifol.
- Mae cyfran uchel o ddioddefwyr o dan 25 oed.
- Mae lefel sylweddol o gyflawnwyr troseddau rhywiol hefyd o dan 25, gan gynnwys is-set o droseddau rhwng cymheiriaid.
- Mae'r dioddefwyr yn fenywod yn bennaf, yn aml yn ddioddefwyr mynych ac yn debygol iawn o dynnu'n ôl o'r broses cyfiawnder troseddol.
- Mae mwyafrif y cyflawnwyr yn ddynion.
- Mae nifer fawr o achosion o drais a cham-drin ar-lein.
- Mae ysgogwyr a ffactorau risg wedi'u nodi fel:
  - Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod
  - Camddefnyddio sylweddau
  - Normau cymdeithasol
  - Difreintedd
  - Diffyg mynediad ac ymgysylltiad ag addysg

Y blaenoriaethau allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r gweithdy oedd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV); bygythiadau ar-lein; gweithgaredd atal ac economi gyda'r nos. Mae'r rhain wedi'u troi'n strategaeth a chynllun cyflawni sy'n cynnwys cynllun ariannu dros dro ar gyfer 24/25. Bydd y cynllun cyflawni yn parhau i esblygu wrth i ddarnau allweddol o waith dadansoddi a gwaith ychwanegol gael eu dwyn ynghyd.

**Awdurdodau penodedig a pherthnasol sy'n ymwneud â datblygu'r asesiad o anghenion strategol a'r strategaeth:**

- Heddlu Dyfed-Powys
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Partneriaethau Diogelwch Cymunedol
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Ceredigion
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
- Cydlynydd rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi
- Cyngor ar Bopeth
- Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

# INTACT

Yn ystod 2023-24, cyhoeddodd Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) rifyn o 'In Focus' a wnaeth ganolbwyntio ar https://www.apccs.police.uk/media/8931/in-focus-innovative-and-effective-approches-to-tackling-serious-violence.pdf.

Mae'r cyhoeddiad yn amlygu rhaglen atal ac ymyrryd Heddlu Dyfed-Powys - INTACT, fel enghraifft o arfer da.

Mae troseddau treisgar yn cael effaith ddinistriol ar ddioddefwyr a chymunedau, ac mae'n hynod gostus i gymdeithas, ond ni all heddluoedd ac asiantaethau eraill weithio ar eu pen eu hunain i fynd i'r afael ag ef.

Mae 'In Focus' Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn amlinellu'r gwaith hanfodol y mae Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn ei wneud ledled Cymru a Lloegr gyda'u heddluoedd a'u partneriaid lleol, i hwyluso partneriaethau amlasiantaeth effeithiol i atal trais difrifol.

Mae'n amlygu dulliau cydweithredol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n allweddol i sicrhau bod ein cymunedau'n fwy diogel.

Wedi'i gynnwys yng nghyhoeddiad In Focus fel enghraifft o arfer da, rhoddir trosolwg manwl o ddull Dyfed-Powys o fynd i'r afael â thrais difrifol a throseddau cyfundrefnol yn ardal yr heddlu, trwy fenter INTACT.

Prif nod INTACT yw cydlynu a chyflwyno rhaglenni ymyrraeth gynnar, sy'n amrywio o ymgysylltu â'r cyhoedd ac addysg i ymwneud un-i-un ag unigolion penodol, gan dynnu ar ystod o lenyddiaeth ac egwyddorion sefydledig ym maes troseddau a chyfiawnder ymhlith ieuenctid.

**Dywedodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Dafydd Llywelyn:**


> *"Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, rwy'n credu'n gryf bod mynd i'r afael â throseddau trais difrifol yn ei gwneud yn ofynnol i ni esblygu'n barhaus ac ymgorffori dulliau arloesol ac effeithiol.*
>
> *Diogelwch ein cymunedau yw ein prif flaenoriaeth, ac rydym yn cydnabod nad yw dulliau plismona traddodiadol yn unig yn ddigon i fynd i'r afael â'r heriau cymhleth a achosir gan drais difrifol.*
>
> *Er mwyn amddiffyn ein trigolion a sicrhau dyfodol mwy disglair, mwy diogel, rydym wedi ymrwymo i gydweithio â phartneriaid lleol i ddatblygu strategaethau blaengar fel INTACT, sy'n atal a brwydro yn erbyn trais difrifol o fewn ein cymunedau, ac rwy'n falch o weld y dull arloesol hwn yn Nyfed-Powys yn cael ei amlygu yng nghyhoeddiad In Focus Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu."*




# Gwasanaeth ôl-drafod a chyfryngu ar gyfer pobl ifanc sydd ar goll

Mae Llamau yn cynnig gwasanaeth ôl-drafod a chymorth i blant a phobl ifanc yr adroddwyd eu bod 'ar goll' ac sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio neu eu herlid. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu gwasanaeth cyfryngu ar gyfer y bobl ifanc a'u teuluoedd, gan fynd i'r afael â materion i helpu i atal episodau coll yn y dyfodol.

Yn ystod 2023-24 roedd 1,599 o adroddiadau o blant a phobl ifanc ar goll ledled Dyfed-Powys. Roedd llawer o'r rhain yn episodau coll ailadroddus. Yn dilyn y meini prawf cymhwysedd, atgyfeiriwyd 341 o bobl ifanc i gael ôl-drafodaeth. Roedd 52% o atgyfeiriadau yn ferched a'r grwpiau oedran mwyaf cyffredin oedd 13 i 15 oed.




Nododd 19% o ôl-drafodaethau arwyddion posibl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, sef cynnydd o 2% ar y flwyddyn flaenorol. Roedd cyfanswm o 66 o achosion lle nodwyd camfanteisio. O'r cyfanswm o achosion arweiniodd 94 at atgyfeiriadau i dimau diogelu, gan ddarparu cymorth amlasiantaeth hanfodol i'r bobl ifanc a'u teuluoedd.

Parhaodd y Comisiynydd i ddarparu cyllid cynyddol i'r gwasanaeth i gefnogi'r cynnydd yn nifer a chymhlethdod yr achosion sy'n cael eu cyfeirio at y gwasanaeth.

Daw'r cytundeb presennol i ben ym mis Mawrth 2025, a bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2024 i ailgomisiynu'r gwasanaeth atal hanfodol hwn.

## Astudiaeth Achos

**Person ifanc coll a oedd wedi dod i gysylltiad â phroblemau iechyd rhiant a chamddefnyddio sylweddau yn ei fabandod a arweiniodd at gael ei faethu gan fam-gu a thad-cu ar ochr ei fam.**

Roedd yr unigolyn ifanc yn ofalwr i'w mam-gu, a dioddefodd o gamdriniaeth emosiynol pellach ganddi. Roedd y fam-gu yn dioddef a phroblemau alcohol a bu fawr o ganlyniad.

Yn 14 oed, profodd y person ifanc syniadaethau hunanladdol cryf a gwnaeth ymdrechion difrifol i ladd ei hun. Yn dilyn y cyfnod hwn cymerodd tad yr unigolyn ofal ohonynt.

Yn dilyn symud at y tad dioddefodd gam-drin emosiynol pellach, ac ar y pwynt yma y daeth Llamau i mewn i gefnogi. I ddechrau, roedd y person ifanc yn ei chael hi'n anodd siarad am ei phrofiadau ond roedd y gweithiwr ôl-drafod yn gwrando ac yn gallu cefnogi'r unigolyn.

Cynhaliwyd sesiynau cyfryngu gyda'r unigolyn, y tad-cu a'r tad a thrwy hyn a datblygu rheolau tŷ arhosodd yr unigolyn gyda'i thad-cu. Galluogodd y sesiynau cyfryngu iddyn nhw i chwalu'r hen ddrwgdeimlad gan alluogi'r teulu i gyfathrebu'n gadarnhaol. Yn dilyn yr ymyriadau llwyddiannus, nid yw'r person ifanc bellach yn cael ei hystyried i fod mewn perygl o fynd ar goll o'i chartref ac mae'n edrych ymlaen at ei dyfodol.

Mae adborth arall gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys sylw gan riant a nododd: "Mae fy mab wedi elwa o siarad â chi ac mae'n deall y risgiau y mae'n ei achosi iddo'i hun trwy fynd ar goll"; a pherson ifanc a oedd yn ofni cyfweliad gyda'r heddlu ond a deimlodd fod y dull ôl-drafod wedi caniatáu iddo deimlo'n dawel ei feddwl a siarad yn agored am ei sefyllfa, gan honni "dydych chi ddim fel yr oeddwn i'n ei ddisgwyl. Roeddwn i dan ychydig o straen am y peth ond rydych chi'n dda mewn gwirionedd".


## Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr

Nod Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr Dyfed-Powys yw delio ag ymddygiad troseddol yn llawer cynt yn ystod taith droseddu unigolyn drwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu a materion iechyd a chymunedol cysylltiedig. Y nod yw lleihau nifer y dioddefwyr troseddau drwy gynnig rhaglen pedwar mis o ymyriadau i droseddwyr cymwys yn hytrach na'u herlyn. Mae'r comisiynydd yn gweithio gyda Pobl, gyda'r nod o ddargyfeirio troseddwyr lefel isel o'r System Cyfiawnder Troseddol a lleihau aildroseddu yn ardal yr heddlu.


### Yn 2023-24

- Cafwyd **1,041** o atgyfeiriadau.
- Aeth **969** ymlaen i'r cam asesiad cychwynnol (gwrthodwyd **72** cyn yr asesiad gan nad oeddent yn gymwys ar gyfer y cynllun oherwydd eu bod y tu allan i'r ardal neu eu bod wedi cyflawni trosedd nad yw'n gymwys i gael ei dargyfeirio y tu allan i'r llys).
- Cwblhawyd **810** o asesiadau.
- Cwblhaodd **715** o gleientiaid yr ymyriadau'n llwyddiannus yn 23/24:
- Roedd **322** ychwanegol yn dal i dderbyn cymorth ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- Ymddieithrodd **44** o gleientiaid yn ystod y cytundeb 4 mis ac felly ni wnaethant gwblhau'n llwyddiannus. Cyfeiriwyd yr unigolion hyn yn ôl at yr heddlu er mwyn i brosesau cyfiawnder troseddol gael eu cynnal.

### Argyfeiriadau Rhanbarthol 2023-24




### Rhaniad oedran ar gyfer 2023-24




### Canlyniadau ychwanegol:

| | |
|---|---|
| Canlyniad 1 – Wedi'u galluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol | **89%** |
| Canlyniad 2 – Wedi'u grymuso i wneud newidiadau cadarnhaol | **88%** |
| Canlyniad 3 – Gwell diogelwch | **91%** |

## Astudiaeth Achos

**Unigolyn sy'n byw ar ei ben ei hun mewn eiddo sy'n cael ei rentu gan y cyngor.**



Mae'n uniaethu fel unigolyn trawsryweddol ac ar hyn o bryd yn derbyn cymorth a thriniaeth i drawsnewid. Roedd y broses hon a'r profiadau cronedig o fyw mewn fflat maint cyfyngedig mewn lleoliad a oedd yn dueddol o wynebu problemau economaidd-gymdeithasol yn ymwneud ag aflonyddwch sain a honiasau o ddefnydd anghyfreithlon o gyffuriau, wedi dod â'r unigolyn i sylw'r heddlu, yn dilyn bygythiad i gymydog a threfn gyhoeddus. Dywedodd y defnyddiwr gwasanaeth fod sylwadau difrïol annymunol yn aml yn cael eu cyfeirio atynt gan nifer o gymdogion.

Gwnaethpwyd atgyfeiriad i'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr yn dilyn y digwyddiad. Ar ôl cyfarfod â'r unigolyn, sefydlwyd perthynas o ymddiriedaeth trwy drafodaeth agored a gonest ynghylch pam yr oedd yn teimlo bod y digwyddiadau hyn wedi digwydd a pham y gwnaeth fygwth y preswylydd yn y fflat cyfagos.  Eglurodd yr unigolyn hanes y digwyddiad a chyfaddefodd ei fod wedi colli rheolaeth emosiynol ac wedi gwneud bygythiad i'r cymydog, digwyddiad yr oedd yn ei ddifaru. I liniaru'r sefyllfa, dywedodd ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei erlid a'i fwlio yn yr ardal oherwydd ei hunaniaeth drawsryweddol a'i fod yn cael trafferth gyda'i iechyd meddwl ei hun. Roeddent hefyd yn cael trafferthion ariannol gan fod buddion cyfyngedig yn cyfyngu ar ei gweithgareddau ac yn ei hynysu'n ddaearyddol.

Cyfaddefodd yr unigolyn ei fod wedi defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac alcohol fel ffordd o ymdopi a dianc o'i realiti ac ar y cam asesiad cychwynnol roedd yn agored i ystyried ffordd arall o fyw nad oedd yn defnyddio sylweddau, felly cwblhawyd atgyfeiriad at yr asiantaeth ymyrraeth cyffuriau leol. Ymhellach, daeth i'r amlwg nad oedd yr unigolyn yn hawlio pob budd-dal yr oedd hawl ganddo i'w cael i'w alluogi i fyw bywyd mwy boddhaus a darparu opsiwn ar gyfer rhentu llety mewn lleoliad gwahanol os dymunir.

Cwblhawyd cais am Daliad Annibyniaeth Personol gan weithiwr y cynllun dargyfeirio a oedd yn gofyn am gyswllt manwl a pharhaus gyda chydweithwyr iechyd i gefnogi'r cais ynghyd â chadarnhau diagnosis cyflyrau. Bu'r cynllun dargyfeirio yn gweithio gyda'r partneriaid perthnasol i ddod o hyd i ddatrysiadau i bryderon llety a meithrin perthynas waith gyda'r unigolyn. Cwblhawyd gwaith ar feddwl canlyniadol a datrys gwrthdaro dros ymyrraeth pedwar mis y cynllun dargyfeirio er mwyn osgoi rhyngweithio negyddol pellach ag awdurdodau cyfiawnder troseddol a chynrychiolwyr y cyngor.

Roedd y cais am fudd-dal am daliad annibyniaeth bersonol yn llwyddiannus ac yn galluogi'r unigolyn i wneud penderfyniad ynghylch ble roedd am fyw, gan ddarparu mwy o ddewisiadau bywyd. Roedd mynd i'r afael â'r cam-ddefnydd o gyffuriau ac alcohol wedi ei alluogi i gael gwell iechyd meddwl, a pharhaodd i gael cymorth gan weithwyr meddygol proffesiynol. Roedd mynd i'r afael â meddwl canlyniadol hefyd yn allweddol i osgoi gwrthdaro pellach. Bu hyn yn llwyddiannus gan na fu unrhyw ddigwyddiadau pellach tra'i bod yn destun i'r cynllun dargyfeirio.

## Gwasanaethau camddefnyddio sylweddau

Nod y gwasanaethau hyn a gomisiynir ar y cyd, a ddarperir gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (GCAD) yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, a Kaleidoscope ym Mhowys, yw lleihau niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn ein cymunedau, yn enwedig lleihau niwed ymhlith y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol a'u teuluoedd a dioddefwyr.

Mae'r Comisiynydd yn ariannu'r gwasanaethau hyn ar y cyd fel rhan o gytundeb ehangach a rennir ag asiantaethau partner o fewn y Byrddau Cynllunio Ardal, gan gynnwys y sector iechyd, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi. Mae'r ddau sefydliad yn gweithio i nodi ac ymgysylltu â throseddwyr o'r pwynt arestio hyd at y ddedfryd, ac i sicrhau bod y cyfran uchaf posibl o unigolion yn cwblhau rhaglenni triniaeth yn llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda throseddwyr yn y ddalfa i gynnal profion ar adeg arestio a darparu ymyriadau byr i leihau'r risg uniongyrchol o niwed.

**Yn ystod 2023-24:**

- Cyfeiriodd cydweithwyr yn yr heddlu ychydig llai na 300 o unigolion ar gyfer triniaeth camddefnyddio sylweddau. Mae hyn yn cynnwys y rhai y rhoddwyd rhybuddion amodol iddynt ac unigolion a brofwyd wrth eu harestio yn y ddalfa.
- Mae dros 80% o atgyfeiriadau ar gyfer dynion.
- Mae bron i 70% o atgyfeiriadau ar gyfer pobl 20-39 oed.
- Gadawodd 64% o unigolion y gwasanaeth gyda'u hachos wedi'i gau yn gadarnhaol ee bod yn rhydd o gyffuriau neu'n cwblhau triniaeth.
- Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, roedd 40% o atgyfeiriadau ar gyfer camddefnyddio alcohol sylfaenol, gyda 56% o atgyfeiriadau ym Mhowys ar gyfer alcohol. Dilynir hyn gan heroin a chocên fel y sylweddau mwyaf cyffredin.

Daw'r gwasanaeth hwn i ben hefyd gyda'r cytundeb presennol yn dod i ben ym mis Ebrill 2025. Bydd tîm y Comisiynydd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i asesu'r ddarpariaeth o dan y gwasanaeth presennol a dylanwadu ar ddatblygiad y gofyniad gwasanaeth newydd.

## Strydoedd Mwy Diogel 5

Yn ystod 2023-24, sicrhaodd SCHTh gyllid o bron i £800,000 o Gronfa Strydoedd Mwy Diogel 5 y Swyddfa Gartref, drwy weithio'n agos gyda phartneriaid uchel eu parch i ddatblygu sawl ymyriad cadarn.

Roedd y ceisiadau'n cynnwys nifer o fentrau ymyrryd sydd rhyngddynt yn mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched (VAWG), troseddau meddiangar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Mae cydweithredwyr yn cynnwys Awdurdodau Lleol a phartneriaid sector arbenigol gan gynnwys sefydliadau cam-drin domestig.

**Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Dafydd Llywelyn:**

> *"Mae sicrhau bron i wyth can mil o bunnoedd o gyllid ar gyfer mentrau ymyrraeth sy'n targedu trais yn erbyn menywod a merched, troseddau meddiangar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cynrychioli ein hymrwymiad di-baid i ddiogelwch a lles ein cymunedau.*
>
> *"Mae'r buddsoddiad hwn yn tanlinellu ein hymroddiad i weithio ar y cyd â phartneriaid lleol i ddod o hyd i atebion rhagweithiol, ac rwy'n edrych ymlaen at weld effaith y mentrau hyn wrth i ni weithio i sicrhau cymunedau mwy diogel a mwy gwydn i bawb."*

**Yn ystod 2023-24, cyflawnwyd y gweithgareddau canlynol:**

## Canolfan y Merched

Mae'r cyllid Strydoedd Mwy Diogel wedi cefnogi Ymddiriedolaeth Nelson i ddatblygu gofod rhyw-benodol o fewn ardal Dyfed-Powys i gefnogi anghenion menywod bregus yn y rhanbarth. Lleolir yr adeilad modwlar hwn ar dir Ysbyty Glangwili, Sir Gaerfyrddin.


Mae Canolfan y Merched yn hafan ddiogel i fenywod a merched sydd wedi'u heffeithio gan droseddau trais yn erbyn menywod a merched ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd Swyddogion Allgymorth yng nghanolfan y Merched yn cyflwyno rhaglenni ataliol sy'n darparu cymorth cyfannol, ymarferol ac emosiynol i rai o'r menywod dan yr anfantais mwyaf , sydd wedi'u hymyleiddio a'u stigmateiddio yn ein cymunedau.

Mae menywod hefyd yn wynebu amrywiaeth o rwystrau mewnol/allanol i asesu cymorth effeithiol i leihau troseddu neu leihau'r risg o droseddu. Yn ogystal â rhwystrau ymarferol megis materion llety a threfniadau gofal plant, maent yn wynebu rhwystrau seicolegol gan gynnwys cywilydd, euogrwydd neu deimladau eu bod yn ddiwerth. Bydd Canolfan y Merched yn cefnogi menywod gyda phob agwedd ar eu bywydau lle nodir bod angen darpariaeth ychwanegol a/neu atgyfeiriadau.



Tra bod yr adeilad modwlar yn cael ei adeiladu oddi ar y safle, mae Ymddiriedolaeth Nelson wedi cael safle i'w defnyddio dros dro yng Nghaerfyrddin i sicrhau nad oes ddiffyg gwasanaeth a bod anghenion y merched yn cael eu diwallu heb amhariad. Bydd y CHTh yn agor Canolfan y Merched yn ffurfiol mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Nelson yn hwyrach yn 2024.

## Teledu cylch cyfyng Aberystwyth



Mae cyllid Strydoedd Mwy Diogel wedi cefnogi gosod teledu cylch cyfyng sy'n targedu troseddau ymddygiad gwrthgymdeithasol o amgylch Tan y Cae, Glan y Môr, tir y castell, Stryd y Bont a'r Ffynnon Haearn yn ward Rheidiol, Aberystwyth.

Mae adroddiadau a gafwyd gan ferched yn dweud bod absenoldeb teledu cylch cyfyng yn yr ardal yn gwneud iddyn nhw deimlo'n anniogel. Mae adroddiadau am achosion o gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol yn ardal tir y castell yn atal y gymuned leol a thwristiaid rhag ymweld â'r atyniad hwn sy'n cynnwys ardal chwarae i blant.

Mae dadansoddiad patrwm trosedd, data Strydoedd Diogel a chudd-wybodaeth leol gan Dimau Plismona Bro, yn datgelu mai'r prif ysgogwyr ar gyfer y broblem yw absenoldeb teledu cylch cyfyng, arwyddion o gamddefnyddio cyffuriau/alcohol a golau annigonol yn yr ardal. Mae cynnydd yn y ddarpariaeth teledu cylch cyfyng yn yr ardal wedi bod o gymorth i adnabod/mynd i'r afael â'r materion hyn a rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.

Roedd ymgysylltu a chydweithio cadarnhaol â'r awdurdod lleol a'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi hwyluso gosod y camerâu teledu cylch cyfyng ar ddiwedd mis Mawrth 2024.

**Cyflawnodd y prosiectau canlynol weithgarwch yn ystod 2023-24 a byddant yn parhau yn 2024-25:**

## Fy Man Diogel

Mae'r prosiect hwn, a gyflwynir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn cefnogi hawliau dioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod a merched i aros yn ddiogel yn eu cartrefi. Cyflawnir hyn trwy ddarparu atebion ymarferol gyda'r nod o wella mesurau diogelwch yn y cartref, gan gynnwys addasiadau, technoleg ac offer.

Mae'r prosiect yn cydnabod pwysigrwydd diogelwch yn y cartref ond hefyd yn y gymuned, y gymdogaeth a'r gymuned ar-lein. Bydd y gwasanaeth yn darparu budd ychwanegol trwy ddarparu gwybodaeth a chyngor ar gyfer diogelwch yn y gymuned, wrth gael mynediad at wasanaethau ar-lein a pherthnasoedd yn y gymdogaeth. Bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gan arbenigwyr sydd wedi'u hyfforddi i Dystysgrif Lefel 4 mewn Atal Troseddu i Ymarferwyr. Bydd ymagwedd bartneriaeth yn cael ei mabwysiadu, gan ategu'r gwasanaeth hwn trwy gysylltedd â gwybodaeth, arbenigedd a sgiliau'r gweithlu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a swyddogion Cynllunio i Atal Troseddu yr Heddlu.

Yn ystod 2023-24, cafodd 22 o bobl wiriad diogelwch cartref a arweiniodd at becyn diogelwch safonol a nodweddion ychwanegol ar gyfer eu heiddo unigol yn unol ag argymhellion y cynllun, ynghyd â gwybodaeth am dechnegau diogel i'w defnyddio o fewn y cartref.

Mae'n braf gweld yr amrywiaeth o leoliadau y mae'r prosiect wedi bod yn weithredol ynddynt (hy, nid yn unig o fewn y prif drefi) yn ogystal â'r ystod deiliadaeth. Mae hyn yn dangos natur hyblyg y prosiect i roi dewis i ddioddefwyr. Mae'r Swyddfa Gartref yn amcangyfrif mai cost un dioddefwr cam-drin domestig yw £34,015. Ar y sail honno, yn y cyfnod adrodd hwn yn unig mae'r gwasanaeth hwn wedi cyflawni camau ataliol y gellid eu prisio hyd at £741,588.



## ■ Cymunedau Cysylltiedig

Mae'r gweithgaredd hwn yn cwmpasu dau linyn o gefnogaeth ac ymgysylltiad cymunedol, a ddarperir gan Gyngor Sir Penfro.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol – Amnest gwastraff

Mae hyn yn cynnwys cyfres o amnestau gwastraff ar draws chwe stad o dai cymysg mewn tair tref yn Sir Benfro – Aberdaugleddau, Doc Penfro a Hwlffordd. Bydd hyn yn arwain at welliannau amgylcheddol tactegol, gweladwy a gostyngiad mewn tipio anghyfreithlon a throseddau amgylcheddol.

Yn ystod 2023/24 mae bron i 500 o gartrefi wedi cael eu cefnogi ar draws Sir Benfro, gyda dros 45 tunnell o wastraff gweddilliol a 55 tunnell o wastraff ailgylchu wedi cael ei ddileu.

Nododd timau rheoli gwastraff faterion troseddau amgylcheddol sylweddol a brofwyd gan gymunedau, a dyna pam y cafwyd rhaglen wedi'i thargedu.

Anfonwyd llythyrau personol at breswylwyr, a dilynwyd hyn drwy gyswllt un i un ar draws y ddwy stad i dynnu sylw at y cyfle i drafod wyneb yn wyneb â Wardeniaid Tai.

Roedd y gwasanaeth personol, wedi'i dargedu hwn yn golygu cyfle cyfartal i bawb; lle'r oedd preswylwyr yn wynebu anawsterau wrth gadw at amserlenni, rhoddwyd ymyriadau ar waith, cynigiwyd cymorth ychwanegol os oedd angen.

Mae arwyddion stryd newydd wedi'u gosod ar draws ystadau, yn dilyn ymgynghoriad rhwng trigolion lleol a'r awdurdod lleol. Yn olaf, mae'r mannau gwyrdd o amgylch ystadau tai wedi'u clirio, ac mae bellach yn fan awyr agored mwy defnyddiadwy i breswylwyr. Cyflawnwyd y canlyniadau canlynol:

- Arweiniodd cyswllt cychwynnol personol at ymgysylltiad uchel o fewn y gymuned.
- Cefnogaeth gadarnhaol gan breswylwyr ar gyfer y rhaglenni gwaith.
- Adnabod aelwydydd bregus, gyda chysylltiadau â gwasanaethau perthnasol.
- Mae llawer o'r bobl sy'n cael cymorth yn oedrannus neu'n anabl ac ni allant symud eitemau heb y cymorth hwn.
- Gwellodd perthnasoedd preswylwyr â gwasanaethau.
- Mae 45 tunnell o wastraff gweddilliol wedi'i symud o gartrefi, gerddi a thipio anghyfreithlon posib.
- Mae gostyngiad mawr mewn tipio anghyfreithlon eisoes yn amlwg.
- Mae 55 tunnell o wastraff ailgylchu wedi'i wahanu a'i ailgylchu gan gynnwys dodrefn, eitemau trydanol, pren, plastig, metel a gwastraff gardd.
- Nodwyd y cartrefi lle'r oedd tystiolaeth glir o gelcio / rheoli gwastraff yn wael gan Wardeniaid Tai.
- Mae preswylwyr wedi ymgysylltu â'r prosesau rheoli gwastraff newydd.

Hyd yn hyn, cynhaliwyd tri digwyddiad ymgysylltu cymunedol yn Hwlffordd, Aberdaugleddau a Doc Penfro yn y drefn honno. Cefnogwyd pob digwyddiad gan ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys:

- Timau Gwastraff Amgylcheddol – darparu cyngor ar gasgliadau ymyl y ffordd, gweithgaredd amnest gwastraff a dosbarthu cynwysyddion ar gyfer gwastraff.
- Gwasanaethau Cam-drin Domestig – cyngor, cefnogaeth a chyswllt cymunedol
- Timau/sefydliadau bwyd a maeth – darparwyd bwyd am ddim mewn

digwyddiadau, cyngor i rieni ynglŷn â phrydau ysgol am ddim, cynhaliwyd arddangosfeydd bwyd ar sut i wneud cawl iach, a threfnwyd rafflau i ennill offer bwyd/hamperi.

- Sefydliadau chwaraeon/byw'n iach – ymarferwyr sgiliau pêl-droed, sglefrfyrddio a syrcas ar gael i gynnig hyfforddiant am ddim i fynychwyr.
- Tîm cymorth ariannol – cynnig cyngor ariannol i fynychwyr gan gynnwys cymorth i deuluoedd ar incwm isel.
- Timau Tai – yn darparu cyngor a chefnogaeth ynglŷn â thenantiaeth a materion tai eraill, roedd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o Gymdeithas Tai Ateb.
- Sector gwirfoddol - darparodd Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS) gefnogaeth cysylltwyr cymunedol i fynychwyr.

Mae'r ail linyn yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac ymgysylltu cymunedol gyda digwyddiadau ar ystadau tai a fydd yn cynyddu gwelededd a theimladau o ddiogelwch mewn mannau problemus ar draws Sir Benfro. Y nod yw lleihau difrod troseddol, llosgi bwriadol, trais difrifol, byrgleriaeth, defnyddio cyffuriau a gwerthu cyffuriau mewn mannau cyhoeddus. Hyrwyddo cyfranogiad cymunedol hirdymor.

Bydd hyn yn canolbwyntio ar newid agwedd/ymddygiad ac ymwybyddiaeth o effeithiau ymddygiad gwrthgymdeithasol ar y gymuned leol a dioddefwyr.

## ■ Pobl sy'n gweld Digwyddiadau Niweidiol a Mwy

Dangosodd ymgynghoriadau cymunedol yn 2022 yn ardal Dyfed-Powys fod dioddefwyr yn cael anhawster adrodd ar sylwadau ac ystumiau digroeso, cael eu dilyn/ymosod arnynt a/neu eu haflonyddu mewn mannau cyhoeddus.

Mae sefydliadau arbenigol Cam-drin Domestig Dyfed-Powys wedi ffurfio grŵp cydweithredol sydd wedi datblygu dull cydlynol o ymdrin â gweithgarwch ataliol. Mae'r consortiwm yn cynnwys Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Sir Gaerfyrddin (CarmDAS), Threshold a Chanolfan Argyfwng Teuluol Sir Drefaldwyn.

Mae rhaglen Pobl sy'n gweld Digwyddiadau Niweidiol yn gweithio gyda chyfranogwyr i gynyddu hyder i wneud gwahaniaeth cadarnhaol yn eu cymunedau. Bydd y gweithgaredd yn grymuso cyfranogwyr i herio ymddygiad amhriodol mewn modd diogel ac adeiladol.

Cyflawnodd y consortiwm hwn weithgaredd tebyg trwy gyllid Strydoedd Mwy Diogel 4. Mae'r ymyriad hwn wedi cynyddu'r ddarpariaeth bresennol o hyfforddiant ymyrraeth llwyddiannus i bobl sy'n gweld digwyddiadau niweidiol i leoliadau nas targedwyd yn flaenorol lle mae cyfraddau troseddu wedi cynyddu a/neu heb leihau.

Mae gwelliannau i'r rhaglen yn cynnwys datblygu hyfforddiant ar-lein, a ddarperir ar gyfer y rhai na allant gael mynediad i hyfforddiant wyneb yn wyneb oherwydd cyfyngiadau gwaith, gofal plant a/neu deithio.

Mae dros 50 o ddigwyddiadau hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth wedi'u cynnal yn ystod 2023/24 ar draws y bartneriaeth gyda 21 o hyrwyddwyr yn llofnodi'r ymrwymiad ac yn parhau â'r gwaith o fewn eu busnesau a'u cymuned leol. Mae ymwneud â gweithgaredd y Rhuban Gwyn hefyd wedi cyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth a diddordeb yn y prosiect.

Mae'r consortiwm wedi ymgysylltu â dros 300 o bobl gan gynnwys aelodau o'r gymuned, sefydliadau a busnesau, gydag ymatebion cadarnhaol ac ymrwymiad gan fusnesau lleol, sefydliadau'r sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a chymunedau lleol sy'n awyddus i gymryd rhan a derbyn hyfforddiant a chefnogaeth gan y fenter hon.

## ■ Rhaglen Addysg ac Atal Heddlu Dyfed-Powys

Cynlluniwyd y rhaglen gan Heddlu Dyfed-Powys fel dull system gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ac fe'i cefnogir gan bartneriaid cymunedol lluosog.

Nod y rhaglen yw targedu pob math o droseddau trais yn erbyn menywod a merched gan gynnwys treisio, aflonyddu, stelcian ac ymosodiad rhywiol.

**Mae pum llinyn ar wahân i'r rhaglen hon fel a ganlyn:**

■ **Apiau Cerdded yn Ddiogel (Walk Safe) / Byddwch yn Ddiogel (Stay Safe)**

Nod yr ap hwn yw gwella teimladau o ddiogelwch, yn enwedig ymhlith menywod mewn mannau cyhoeddus ac economi'r nos. Mae'n galluogi defnyddwyr i nodi/osgoi mannau lle ceir llawer o droseddu ac mae'n helpu gyda llwybrau diogel adref.

■ **Hyfforddiant, Cefnogaeth ac Ymyrraeth o fewn Addysg Bellach ac Uwch**

Cyflwyno hyfforddiant/gweithdai i sefydliadau addysg bellach/ uwch lle mae myfyrwyr mewn perygl o brofi trais yn erbyn menywod a merched..

Cydweithio gyda cholegau/prifysgolion lleol i gryfhau cysylltiadau presennol a pharhau i ganolbwyntio ar wella ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod a merched a chefnogi myfyrwyr.

■ **Trais yn erbyn menywod a merched Dynion fel Cynghreiriaid / Diwylliant Dynion**

Mae'r rhaglen hyfforddi i ddynion wedi'i hanelu at reolwyr cwmnïau sy'n gyflogwyr mawr ledled ardal Dyfed-Powys.

Mae sefydliad y Rhuban Gwyn yn cydnabod bod y rhan fwyaf o ddynion eisiau i drais yn erbyn menywod a cham-drin menywod ddod i ben, ond nad ydyn nhw'n teimlo'n hyderus i godi llais, nac yn gwybod sut i herio rhywun sy'n ymddwyn mewn modd rhywiaethol, aflonyddus neu dreisgar.

Mae rhaglen Dynion fel Cynghreiriaid yn cynnwys gweithdai sy'n hyrwyddo gwrywdod cadarnhaol, yn tarfu ar ddisgwyliadau negyddol a stereoteipiau ac yn grymuso dynion i beidio â chadw'n dawel ac i fod yn gynghreiriaid gwell i fenywod a merched.

■ **Taclo'r Tacle**

Mae gan Taclo'r Tacle hanes llwyddiannus o hysbysu trigolion am faterion trosedd a bydd yn cefnogi ac yn helpu'r rhaglen i hyrwyddo'r holl ymyriadau a restrir er mwyn sicrhau ystod eang o sylw.

Mae gan ardal Dyfed-Powys boblogaeth wledig sylweddol sy'n gallu bod yn anodd ei chyrraedd yn aml, a bydd Taclo'r Tacle yn cynorthwyo ac yn cynghori pob arweinydd ymyrraeth o fewn rhaglen Addysg ac Ymyrraeth Strydoedd Mwy Diogel 5 ar y ffordd orau o gysylltu â'r cymunedau hyn i sicrhau cynrychiolaeth deg i'r holl drigolion.

■ **Perfformiad mewn Addysg - Torri ar Draws**

Cyflogwyd darparwr perfformiad mewn addysg i gefnogi mynd i'r afael/atal troseddau trais yn erbyn menywod a merched a dylanwadu ar agweddau/ymddygiad cadarnhaol mewn pobl ifanc.

Cafodd y wybodaeth a'r ymarferion a gynhwyswyd yn y perfformiad, y gweithdy a'r deunyddiau addysg eu creu o amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael i'r cyhoedd, gan grynhoi ymchwil ac arferion cyfredol gorau i hyfforddi pobl sy'n gweld digwyddiadau niweidiol i beidio â chadw'n dawel. Cytunwyd ar gyfres o amcanion dysgu i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd ymyrraeth ddiogel wrth weld ymddygiad problemus ymhlith ffrindiau a chyfoedion.

Yn ystod 2023-24, cyflwynwyd "Torri ar Draws" i 28 o ysgolion. Cyflwynwyd cyfanswm o 45 o sioeau a 21 o weithdai, gan gyrraedd cyfanswm o tua 6,000+ o ddisgyblion. Mae'r hyfforddiant wedi cael derbyniad da gan ddisgyblion ac addysgwyr.

## Adborth Disgyblion

Cynhaliwyd gwerthusiad gyda sampl o'r myfyrwyr a fynychodd y perfformiadau.

- Erbyn diwedd y sesiwn, roedd 78% o fyfyrwyr yn llwyr ddeall ystyr trais rhywiol yn erbyn menywod a merched, o gymharu â 41% cyn y digwyddiad.
- Erbyn diwedd y sesiwn, roedd 60% o fyfyrwyr yn teimlo'n gwbl hyderus y byddent yn adrodd am ddigwyddiad o drais rhywiol yn erbyn menywod a merched pe baent yn dyst, o gymharu â 45% cyn y digwyddiad.
- Erbyn diwedd y sesiwn, roedd 83% o fyfyrwyr yn teimlo naill ai'n gwbl hyderus neu'n bennaf hyderus y byddent yn gallu ymyrryd yn ddiogel pe byddent yn dyst i ddigwyddiad o drais rhywiol yn erbyn menywod a merched, o gymharu â 50% cyn y digwyddiad.
- Erbyn diwedd y sesiwn, roedd 98% o fyfyrwyr yn gallu adnabod y pum elfen i chwilio amdanynt yn gywir, o gymharu â 3% cyn y digwyddiad.

## Adborth Oedolion

Cynhaliwyd gwerthusiad gyda'r oedolion a fynychodd y perfformiadau.

- Roedd 122 o'r 137 o oedolion a gwblhaodd y gwerthusiad yn meddwl y byddai'r cyflwyniad yn eu helpu i siarad am drais yn erbyn menywod a merched gyda'u myfyrwyr.
- Roedd 125 o'r 137 o oedolion a gwblhaodd y gwerthusiad yn meddwl y byddai'r cyflwyniad yn eu helpu i siarad am sut i ymyrryd yn ddiogel gyda'u myfyrwyr.
- Roedd 124 o'r 137 o oedolion a gwblhaodd y gwerthusiad yn meddwl y byddai'r cyflwyniad yn eu helpu i siarad am bwysigrwydd ymyrryd â'u myfyrwyr.
- Roedd 118 o'r 137 o oedolion a gwblhaodd y gwerthusiad yn meddwl y byddai'r cyflwyniad yn eu helpu i siarad am y cyfrifoldeb sydd gan bawb i adrodd am drais a'i herio gyda'u myfyrwyr.
- Roedd 100% o oedolion yn meddwl bod y cyflwyniad wedi bod o fudd i'w myfyrwyr.
- Roedd 99% o oedolion yn meddwl bod y cyflwyniad yn annog eu myfyrwyr i ystyried effeithiau a chanlyniadau trais rhywiol yn erbyn menywod a merched.
- Roedd 100% o oedolion yn meddwl bod y cyflwyniad wedi'i anelu at y lefel gywir ar gyfer eu myfyrwyr.
- Byddai 100% o athrawon yn argymell y gweithgaredd hwn i ysgolion a cholegau eraill.

**Dyfyniadau gan fynychwyr:**

*"Yn sicr. Mae'n grymuso pobl ifanc i weithredu mewn ffordd ddiogel. Mae hefyd yn amlygu ei fod yn digwydd ar garreg eu drws a sut i ddelio/ymateb i sefyllfaoedd fel hyn."*

**– Athrawes, Ysgol Bro Dinefwr**

*"Roedd y siaradwyr/perfformwyr yn wych. Gweithiodd cael arddangosiad/'ffug ddigwyddiad' yn dda ac roedd cyflwyniad y gweithdy yn glir ac yn llawn gwybodaeth. Diolch!."*

**- Athrawes, Ysgol Uwchradd Redhill**

**Ysgol Uwchradd y Frenhines Elisabeth (myfyrwyr Blwyddyn 9)**

*"Addysgiadol ac ymgysylltiol iawn."*


*"Ffordd mor wych o bortreadu pwnc mor anodd."*

## Buddsoddi mewn mentrau cymunedol

Yn 2023-24, parhaodd y comisiynydd i fuddsoddi mewn mentrau a grwpiau cymunedol lleol i'w galluogi i weithio gyda'u cymunedau i atal niwed.

## Stallion Boxing

Mae Stallion Boxing yn cynnig 'Box Clever' – rhaglen ymyrraeth gynnar ac atal. Mae Stallion Boxing yn cydnabod pa mor fregus yw pobl ifanc difreintiedig ac mae wedi datblygu rhaglen i helpu i wella cyfleoedd/dewisiadau bywyd cadarnhaol, atal niwed yn y gymuned ac annog hyder.



Darparodd y comisiynydd gyllid i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r rhaglen hon. Mae'r prosiect wedi'i fwriadu ar gyfer pobl ifanc 11 i 16 oed sydd eisoes yn hysbys o fewn y system cyfiawnder troseddol neu sydd mewn perygl o ymwneud â gweithgaredd troseddol.
Mae'r prosiect wedi'i gynllunio i alluogi myfyrwyr i ddeall am fyw bywyd sydd wedi'i ategu gan egwyddorion a gwerthoedd moesol cryf; deall manteision ymarfer corff/bwyta'n iach i wella iechyd a lles; sgiliau sylfaenol y grefft o focsio yn arwain at feddylfryd disgybledig i wneud gwell penderfyniadau cymdeithasol, corfforol, deallusol ac emosiynol.

Cymerodd 40 o unigolion ran mewn sesiynau wythnosol dros gyfnod y rhaglen.

Bydd gwerthusiad o lwyddiant y prosiect yn cael ei gynnal yn 2024-25.

## Area 43 Depot

Mae'r Depo yn gaffi a arweinir gan bobl ifanc sy'n cael ei redeg fel man diogel gan Area 43 yng Ngheredigion mewn partneriaeth â phobl ifanc. Mae'r Depo yn cynnig gwasanaeth agored, cynhwysol i bobl ifanc 14 i 25 oed sydd mewn perygl o ddod yn ddioddefwyr a chyflawnwyr trosedd.

Maen nhw'n gweithio gyda phob person ifanc i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â bregusrwydd.

Mae'r Depo yn grymuso ac yn cefnogi hawl pobl ifanc i gael mynediad at wasanaethau cyngor, cwnsela a chymorth lleol o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth i wella eu cyfleoedd bywyd ar gyfer dyfodol gwell.

Mae'r Depo wedi gwneud gwaith adeiladu helaeth yn ddiweddar i greu gofod mwy o faint, mwy effeithiol ar gyfer ei ddefnyddwyr. Darparodd y comisiynydd arian ar gyfer prynu dodrefn ac offer i wneud y gofod yn fwy croesawgar i'r defnyddwyr er mwyn caniatáu amgylchedd diogel a chyfforddus i gefnogi datblygiad personol cadarnhaol.

O ganlyniad i'r cyllid, mae Depo wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymwelwyr diolch i'r offer newydd, gyda nifer yr ymwelwyr bellach bron i 800 y mis ar gyfartaledd.

Mae'r adborth gan yr ymwelwyr ifanc wedi bod yn wych gan eu bod yn gwerthfawrogi'r cyfleusterau a'r sesiynau a drefnir ar gyfer unigolion megis dosbarthiadau ioga, dawns a ffitrwydd.

**Dywedodd Ryan Davies, Rheolwr Cyffredinol:**

*"Rydym wedi gallu cyflwyno sesiynau cylchol, gweithdai dawns ac ioga diolch i'r cyllid hwn, ac mae'r adnodd hwn yn golygu ein bod wedi gallu ymgysylltu â'r bobl ifanc hyn mewn amgylchedd cefnogol iach.*

*Roedd pobl ifanc yn awyddus i fod yn rhan o ddatblygu'r gofod hwn a threulio amser yn dysgu adeiladu'r dodrefn newydd yn ogystal â defnyddio'r adnoddau a'r gofod gweithgareddau newydd."*

## Ymddiriedolaeth Jac Lewis

Cychwynnwyd yr elusen Sefydliad Jac Lewis yn 2019 i helpu pobl i gael mynediad cyflym at gefnogaeth iechyd meddwl a darparu gwasanaeth cwnsela ar gyfer teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad. Mae'r sefydliad wedi datblygu i fod yn ddarparwr gwasanaeth profiadol ac mae'n randdeiliad allweddol yng nghyflwyniad Llywodraeth Cymru o gyfarfodydd ymateb cyflym ar draws Cymru.

Gall effaith hunanladdiad fod yn bellgyrhaeddol, o fewn teulu, rhwng cyfeillion ac o fewn cymunedau. Gall marwolaeth annisgwyl achosi effaith adleisiol sy'n ymestyn dros gyfnodau hir. Gall unigolion, grwpiau a chymunedau gael eu heffeithio gan farwolaeth annisgwyl. Mae ymchwil yn dangos bod unigolion sydd wedi'u heffeithio gan farwolaeth rhywun agos atynt drwy hunanladdiad yn eu gwneud nhw 65% gwaith mwy tebygol o gyflawni hunanladdiad eu hunain.

Mae Heddlu Dyfed Powys ac Awdurdodau Lleol yn bartneriaid trosglwyddo sy'n darparu atgyfeiriadau i'r Sefydliad ar gyfer y rhai hynny sydd wedi dioddef profedigaeth o ganlyniad i hunanladdiad; yn profi anawsterau gyda materion cyffuriau/alcohol; mewn perygl o droseddu; dioddefwyr camdriniaeth alcohol/cyffuriau; a/neu drais domestig. Mae'r sefydliad yn cynnig cefnogaeth o fewn 48 awr i atgyfeiriad er mwyn lleihau'r perygl o niwed ac yn cefnogi unigolion a grwpiau drwy ddigwyddiadau trawmatig.

Mae gan y sefydliad dîm proffesiynol arbenigol iawn sy'n medru cynnig cymorth therapiwtig i blant, arddegwyr ac oedolion. Mae'r tîm yn cynnwys therapyddion chwarae, therapyddion plant ac arddegwyr, a therapyddion trawma i sicrhau bod yr unigolyn yn derbyn y cymorth mwyaf buddiol wedi'i deilwra'n arbennig iddo/iddi.

Rhoddwyd cyllid i'r Sefydliad gan Lywodraeth Cymru yn 2023-24 er mwyn trosglwyddo'r gwasanaeth atgyfeirio ymateb cyflym. O ganlyniad i lefelau annisgwyl a digynsail o atgyfeiriadau oherwydd digwyddiadau Marwolaeth Sydyn o fewn Dyfed-Powys, mae'r cyllid a dderbyniwyd wedi ei ddisbyddu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Cytunodd y Comisiynydd i ariannu Ymddiriedolaeth Jac Lewis tan ddiwedd y flwyddyn ariannol hon (2023-24) er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth atgyfeirio hwn a chynnig cymorth y mae mawr ei angen ar gymunedau ardal Dyfed-Powys.

**Mae adborth a dderbyniwyd gan y rhai sydd wedi colli anwylyn drwy hunanladdiad sydd wedi derbyn cymorth gan y sefydliad yn cynnwys:**

> "Cefais fy ngalw'n annisgwyl ac roedd fel angel arweiniol. Roedd hi'n braf siarad gyda rhywun a oedd yn deall. Roedd cwnsela'n wych, fe wnaeth wahaniaeth gwirioneddol."

> "Byddwn i wedi bod mewn lle tywyll iawn, yn amharod i gymryd meddyginiaeth. Helpodd fi i ymdopi â'r sefyllfa lethol. Ni fyddwn wedi gallu ymdopi hebddo."

> "Gwnaeth bob gwahaniaeth fedrwch chi ddychmygu. Mae wedi fy ngalluogi i oroesi. Helpodd y teulu cyfan. Achubodd bawb ohonom."

> "Dydw i ddim yn siŵr iawn ble fyddwn i. Dydw i ddim yn siŵr pa un ai a fyddwn i dal yma."

**Dywedodd Siân Bamford, Cydlynydd Iechyd Meddwl, y Ganolfan Fregusrwydd, Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys:**

" Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn gweithio gyda Sefydliad Jac Lewis ers sawl mis fel rhan o'r ymateb cyflym i'r broses beilot hunanladdiadau tybiedig. Heb eu cymorth nhw yn y cyfarfodydd hyn, ni fyddai llawer o ddiben a neb i gymryd y prif gamau gweithredu. Pennir tua 90% o'r camau gweithredu o'r cyfarfodydd hyn i Sefydliad Jac Lewis, sy'n cysylltu â'r holl unigolion y nodwyd fod angen cymorth arnynt. Gall y rhain fod yn aelodau o'r teulu, tystion, cydweithwyr, ffrindiau, cymdogion ac ati. Mae'r ffynhonnell cymorth hwn wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ein cymunedau.

Y mae wedi'i hen gydnabod drwy ymchwil a thystiolaeth bod perygl uwch y bydd y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth drwy hunanladdiad yn cymryd eu bywyd eu hun. Gan hynny, mae cael y cymorth hwn ar waith o fewn dyddiau o'r brofedigaeth yn hollbwysig ar gyfer gwaith diogelu parhaus yn ein cymunedau.

Gallai hyn hefyd leihau trosedd a chamddefnyddio sylweddau, sy'n aml yn mynd law yn llaw ar gyfer y rhai sydd wedi dioddef profedigaeth drwy hunanladdiad. Gan hynny, mae cymorth parhaus Sefydliad Jac Lewis yn hollbwysig ar gyfer sicrhau ein bod ni'n medru parhau i gynnig y cymorth hwn a chadw ein cymunedau'n ddiogel.

Oherwydd eu presenoldeb ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, yr ydym yn cydweithio i nodi unrhyw faterion sy'n codi yn y gymuned o ganlyniad i'w gwaith. Maen nhw'n medru teilwra'r cymorth yn ôl yr angen, gydag ymatebion targedig mewn meysydd sy'n achosi pryder. "

**Dywedodd Dr Richard Swain, Arweinydd Clwstwr Meddygon Teulu – Clwstwr Meddygon Teulu Dyffryn Aman a Gwendraeth:**

" Ym mis Ionawr 2020, dechreuodd Sefydliad Jac Lewis ddarparu asesiadau iechyd meddwl, cymorth ac ymyriadau therapiwtig ar gyfer cleifion yn ardal Aman Gwendraeth o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae adborth gan gleifion yn dorcalonnus o gadarnhaol ac effeithiol, ac mae ein clinigwyr wedi canfod bod y gwasanaeth yn cael ei groesawu'n gyffredinol ac yn cyflwyno gwell iechyd meddwl i'n timoedd, oherwydd fe wyddwn fod llwybr ystyrlon i gleifion dderbyn cymorth o fewn ffrâm amser rhesymol.

Mae'r cyfathrebu a'r adborth gan arweinwyr Sefydliad Jac Lewis yn dda iawn ac rydym yn falch o'u cael nhw'n gweithio ochr yn ochr â ni er budd ein poblogaeth. "

Mae'r Sefydliad hefyd wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am ei waith o fewn Galar Drwy Hunanladdiad, gan gyrraedd rownd derfynol Prosiect y Flwyddyn 2022 Loteri Genedlaethol y DU am ei brosiect 'Gwasanaeth cymorth galar drwy hunanladdiad', a dod yn drydydd allan o 160 prosiect ar draws y DU a gyflwynwyd am y wobr.



## Y Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd

Mae'r Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd yn ddarparwr cymorth cyflogaeth arbenigol adnabyddus i fudwyr yn Abertawe. Gyda dros 30 prosiect llwyddiannus, maen nhw wedi chwalu rhwystrau a rhoi sgiliau hanfodol i gymunedau ddatblygu.

Hyd yn hyn, mae'r elusen wedi gwasanaethu dros 500 o fuddiolwyr ac wedi cyflwyno dros 3,000 o wasanaethau. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys cefnogi cleientiaid gyda'u teithiau gyrfa a gwella hyder yn y sector cyflogaeth a hyfforddiant. Mae dros 50% o gleientiaid sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth hwn wedi cael cymwysterau addysg uwch.

Yn cael ei arwain gan brofiadau byw, mae 75% o dîm arweiniol y sefydliad yn ethnig amrywiol, gan ddarparu dealltwriaeth ddofn o heriau cymunedol. Gyda 50% o'u gweithlu'n 30 oed neu iau, maen nhw'n cynnig cymorth i bobl ifainc sy'n briodol i'w hoed.

Mae'r Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd yn cydweithio'n agos â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (GCPhEF) er mwyn cyflawni canlyniadau teg i bobl o liw yn y system cyfiawnder troseddol. Mae eu gwaith yn cynnwys adolygiad o Gynllun Gwrth-hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru a chyflwyno adroddiad o argymhellion i Gyfiawnder Troseddol yng Nghymru yn 2021.

O dan gomisiwn gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn 2022 o ran mynd i'r afael ag amrywiaeth a chynhwysiant o fewn y gwasanaeth, cyflwynodd y Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd sesiynau dysgu i staff wella eu dealltwriaeth o safbwyntiau profiad byw o gefndiroedd sy'n amrywiol yn hiliol ac ethnig a'r heriau penodol maen nhw'n eu hwynebu yn y system cyfiawnder troseddol. Roedd hyn yn cynnwys pecyn adnoddau ar gyfer adlewyrchu ganlyniadau a'u gwerthuso i dynnu sylw at arferion gorau.

Yn dilyn ymweliad â safle'r Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd yn Abertawe ddiwedd 2022, roedd y Comisiynydd yn awyddus i weithio gyda'r sefydliad o ran datblygu presenoldeb yn ardal Dyfed-Powys er mwyn cefnogi cymunedau ag iddynt amrywiaeth ethnig a darparu llwyfan i grwpiau a dangynrychiolir i ffynnu yn yr ardal.

Ym mis Medi 2023, dyfarnodd y Comisiynydd arian grant i'r Ganolfan Entrepreneuriaeth Affricanaidd ddatblygu presenoldeb yn Llanelli.

Mae'r prosiect (Llwybrau i Ffyniant) yn darparu gwasanaethau sy'n briodol ar gyfer oedran, sy'n sensitif i hil a diwylliant, i gymunedau ag anghenion amlweddog a chymhleth ac sydd wedi'u hymyleiddio yn y gorffennol.

Gan gefnogi pobl ifainc o gartrefi sydd ar incwm isel, y rhai sydd yn gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol neu mewn perygl o fod yn gysylltiedig â hi, a mudwyr, yn arbennig ceiswyr lloches a ffoaduriaid, eu cenhadaeth gyffredinol yw grymuso'r unigolion hyn i gyflawni eu potensial llawn a chyfrannu i gymdeithas.

Mae'r prosiect yn cynnwys ymyriadau sy'n canolbwyntio ar Gyflogadwyedd a Chymorth Entrepreneuraidd, Clwb Lles a Magu Hyder ac Ymgysylltu Cymunedol. Drwy'r ymyriadau hyn, bydd y prosiect yn cyfrannu at greu ardal fwy diogel a chyfartal, lle mae niwed yn cael ei atal ac mae'r rhai mwyaf bregus mewn cymdeithas yn cael eu grymuso i ffynnu.

Nod y prosiect yw darparu cymorth arbenigol, gan ystyried croestoriadedd buddiolwyr, a'u grymuso i wneud penderfyniadau bywyd gwybodus a gwireddu eu huchelgais. Mae'r prosiect yn alinio'n gryf â blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a bydd yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi allweddol i wireddu'r amcanion hyn.

### *'PL Kicks'* Uwch-gynghrair

Mae'r cyllid tair blynedd a ddyfarnwyd i Ymddiriedolaeth Clwb Pêl Droed Dinas Abertawe'n parhau i symud ymlaen i dymor 2023/24 gydag effeithiau cadarnhaol ar y bobl ifainc sy'n mynd i'r sesiynau yn Nyfed-Powys. Yr ydym yn edrych ymlaen at dderbyn eu hadroddiad effaith terfynol ddiwedd y tymor, a fydd yn cael ei adlewyrchu yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.

## Rekindle

Elusen iechyd meddwl pobl ifanc yw Rekindle, sydd wedi'i lleoli yn y Drenewydd ac sy'n cefnogi pobl 16 i 25 oed.

Mae nifer fawr o'u cleientiaid wedi bod yn dioddef camfanteisio neu'n ymwneud â gangiau llinellau cyffuriau, neu mewn perygl o fod. Mae eraill wedi dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol, wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol, a chanddynt hanes o brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn defnyddio cyffuriau ac alcohol, neu â thueddiadau treisgar.

Mae'r sefydliad yn rheoli man diogel i ddioddefwyr camfanteisio.

Yn ystod 2023-24 cafodd Rekindle arian gan y comisiynydd i helpu i gefnogi eu prosiect cymorth adferiad un-i-Un.

Diben prosiect cymorth adferiad Rekindle yw darparu cymorth iechyd meddwl gan ddefnyddio model adferiad yn seiliedig ar ymyrraeth gynnar. Nod hyn yw cefnogi pob agwedd ar fywydau eu cleientiaid gan gynnwys tai, cydberthnasau, gwaith, hyfforddiant a chyllid, ynghyd â therapi unigol a grŵp manwl.

Yn ystod y cyfnod ariannu, deliodd Rekindle â dros 51 o atgyfeiriadau gan gynnwys cefnogi pobl ifanc gyda materion tai, cyllid, cyflogaeth a pherthnasoedd.

Darperir cymorth ymarferol gyda materion tai, cyllid a chyflogaeth gyda chymorth gan ymarferwyr adferiad Rekindle. Maent wedi gweithio gyda phobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf i symud i dai mwy diogel, cefnogi ceisiadau ariannol a helpu gyda CVs a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'r tîm wedi cefnogi pobl ifanc gydag apwyntiadau meddyg teulu a gwasanaethau iechyd eraill.

Mae'r ymarferwyr adferiad yn eirioli ar ran pobl ifanc i gyflogwyr a darparwyr addysg i wneud addasiadau sy'n lleihau rhwystrau i gleientiaid niwroamrywiol sy'n credu bod amhariad ar eu cynnydd mewn gwaith/addysg.

Dywedodd 100% o gleientiaid Rekindle fod y cymorth wedi effeithio'n gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles ac o ganlyniad i gael cymorth, gallant reoli heriau'r dyfodol a chymryd camau tuag at fyw'r bywyd y maent am ei fyw.

## Astudiaeth Achos:

Atgyfeiriwyd Alisha (nid ei henw iawn) menyw ifanc 23 oed i Ailddeffro gan y tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol. Mae hi'n un o garfan newydd o gleientiaid a ddaeth i Ailddeffro ym mis Mai 2023. Cyflwynodd Alisha gydag anawsterau'n chwilio'i ffordd yn y byd ar ôl dychwelyd i fyw yn y Drenewydd. Roedd yn brwydro anawsterau iechyd meddwl a chorfforol a datgelodd ei bod wedi camddefnyddio cyffuriau ac alcohol i geisio lefelu pethau. Roedd yn hunan-niweidio'n rheolaidd ac yn cael gofal personol yn anodd gan fod gweithredoedd hunan-niweidio'n digwydd yn y gawod. Roedd yn ddi-waith ac roedd baich dyled cynyddol yn ei llethu. Amcanion cychwynnol Alisha oedd cael swydd hirdymor, cael mynediad i gefnogaeth a chael ei deall. Roedd yn dymuno diagnosis cywir o'i phroblemau a gwella ei hunan-ddealltwriaeth a'i hymwybyddiaeth. Gan ei bod i bob pwrpas yn ddigartref pan gyrhaeddodd, rhoddwyd cefnogaeth iddi gael mynediad i dai awdurdod lleol. Fodd bynnag, cafodd ei gosod mewn llety anaddas lle cam-fanteisiwyd yn fuan iawn ar ei breguster gan denantiaid eraill, gan achosi trallod mawr iddi. Gwnaethpwyd atgyfeiriad at POBL (sefydliad cefnogaeth tai arbenigol) a chyfeiriodd y cyngor Alisha at The Money Saviour, gwasanaeth cwnsela dyled. Mae Alisha nawr yn byw mewn eiddo rhent annibynnol diogel. Mae hi'n gweithio tuag at ddiagnosis o'i phroblemau iechyd meddwl ac wedi dechrau creu cynllun i ddatrys ei phroblemau dyled yn barhaol. Mae gan Alisha swydd ac mae'n gweithio'n hwyr ddwy noson yr wythnos er mwyn gallu dod i Ailddeffro yn ystod y dydd i gael cefnogaeth barhaus. Mae hi'n teimlo'n fwy hyderus, ac yn teimlo ei bod yn cael ei chlywed a'i deall. Mae hi'n parhau i fynychu sesiynau rheolaidd gydag Ailddeffro.

*"Fyddwn i ddim lle rydw i nawr heb Ailddeffro. Roedd angen help ar un o fy ffrindiau i a dwedais i wrthyn nhw am ddod yma'n syth, gan eich bod chi wir yn helpu. Byddwn i ar goll yn llwyr heb eich help chi."*

*"Fel rhywun sy'n ymweld ag Ailddeffro'n wythnosol, gallaf ddweud gyda fy llaw ar fy nghalon mai dyma'r gefnogaeth orau rydw i erioed wedi ei chael. O drefnu help gydag arian, tai, apwyntiadau, helpu cael gafael ar fwyd pan nad oedd gen i ddim, a fy nghefnogi i gyda fy iechyd meddwl a phob peth arall rhwng hynny i gyd. Allwn i ddim cynghori lle gwell i fynd iddo nag Ailddeffro, a gallaf i ddim diolch digon iddyn nhw."*

# Blaenoriaeth Tri - Sicrhau system gyfiawnder fwy effeithiol

Mae'r comisiynydd wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid, cymunedau a dioddefwyr i wella hyder yn y system cyfiawnder troseddol.

## Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys yn dod ag uwch gynrychiolwyr o asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n gweithredu yn ardal Dyfed-Powys at ei gilydd, i wella'r cyfiawnder a'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr a thystion. Mae'r bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan y Comisiynydd.

Gweledigaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys yw gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yn ardal Dyfed-Powys, gan gynnwys gwella profiad dioddefwyr a thystion a meithrin hyder yn y system yn ei chyfanrwydd.

Yn ystod 2023-24, parhaodd y bwrdd i gyflawni'r blaenoriaethau y maent yn eu rhannu â Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i Gymru:

- Canolbwyntio ar ddioddefwyr a thystion, yn enwedig dioddefwyr sy'n dioddef o droseddau rhyw difrifol.
- Pobl sydd wedi troseddu.
- Ymyrraeth ac atal cynnar
- Gweithredu gwrth-hiliaeth

Gwnaethpwyd gwaith sylweddol i fodloni blaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, ac roedd yr uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys:

- **Athreuliad Cam-drin Domestig** – Cynhaliwyd gweithdy amlasiantaeth ym mis Tachwedd 2023 i adolygu achosion cam-drin domestig i ddeall pam fod dioddefwyr yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl ar gyfer camau pellach. Yn ystod y gweithdy, datblygwyd cynllun gweithredu ac mae wedi'i gynnwys yng nghynllun cyflawni'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ar gyfer 2024-25.
- **Cynllun peilot Uned Ymateb Rithwir i Gam-drin Domestig** - Fel rhan o ffocws Heddlu Dyfed-Powys ar weithio tuag at ddileu cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu, dechreuodd cynllun peilot yn Sir Gaerfyrddin ym mis Ebrill 2023.Mae'r gwasanaeth yn rhoi'r dewis i ddioddefwyr sy'n riportio digwyddiadau domestig, nad oes angen ymateb brys arnynt, i siarad â swyddog dros alwad fideo. Mae'r rhai sy'n dewis hyn yn derbyn gwasanaeth fideo ar unwaith yn hytrach nag oedi wrth orfod mynychu'n gorfforol.  Mae ymateb fideo ar unwaith yn caniatáu ar gyfer nodi risg yn gynt ac asesu cyfleoedd tystiolaethol. Mae dioddefwyr wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gwybod na fyddai cymdogion yn ymwybodol o gysylltiad yr heddlu. Cafodd galwad fideo ar unwaith lai o effaith ar fywyd teuluol, ac roedd yn llai brawychus na'r posibilrwydd o fynd i orsaf heddlu. Oherwydd llwyddiant y peilot hwn, cytunwyd i ddarparu'r gwasanaeth ar draws yr heddlu.
- **Dyletswydd Trais Difrifol** – cwblhawyd asesiad anghenion strategol cynhwysfawr a dilynwyd hyn gan weithdy partneriaeth ym mis Ionawr. Y diben oedd ystyried y canfyddiadau allweddol, llunio argymhellion a chynllun cyflawni, mapio ymyriadau presennol y gellid eu cefnogi gan gyllid Dyletswydd Trais Difrifol presennol a nodi ymyriadau newydd, perthnasol. Bydd y a'r cynllun cyflawni dilynol yn cael eu gweithredu dros y misoedd nesaf. https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/cr4gx1dx/cymraeg-dyfed-powys_svd-strategy_jan-2024_v1.pdf
Dechreuodd Cydgysylltydd Dyletswydd Trais Difrifol, a recriwtiwyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin, yn ei swydd ym mis Mawrth 2024. Bydd y rôl yn gweithio ar draws y bartneriaeth i weithredu'r strategaeth a bydd yn ceisio sicrhau'r cyllid mwyaf posibl i gefnogi mentrau atal presennol a gweithredu ymyriadau newydd i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yn y Ddyletswydd Trais Difrifol.

- **Canolfan y Merched** – Dyfarnwyd Cyllid Strydoedd Mwy Diogel 5 gan y Swyddfa Gartref i ddatblygu Canolfan Merched yng Nghaerfyrddin. Mae Ymddiriedolaeth Nelson www.nelsontrust.com (sefydliad sydd wedi bod yn gweithio'n llwyddiannus gyda phobl fregus ac sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys dibyniaeth, trawma a throseddu ers dros 38 o flynyddoedd) yn arwain y prosiect i gyflwyno gwasanaethau o adeilad modwlar unigryw yn y Ganolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn Sir Gaerfyrddin. Mae caniatâd cynllunio wedi'i gymeradwyo ac mae disgwyl i'r prosiect ddod i ben dros y misoedd nesaf.


- Mae'r **tasglu gwrth-hiliaeth** wedi bod yn ystyried hyfforddiant a chynrychiolaeth y gweithlu, ymgysylltu â'r gymuned, data ac anghymesuredd. Bydd grŵp Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Dyfed-Powys yn monitro metrigau perfformiad ar amrywiaeth y gweithlu a gweithgarwch gweithredu cadarnhaol. Mae aelod o fforwm ieuenctid y CHTh hefyd yn cael ei recriwtio i gynrychioli llais pobl ifanc ar y Grŵp Cynghori Annibynnol.

## Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Fel Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, mae'r Comisiynydd yn aelod gweithgar o Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru. Mae'r Bwrdd yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o bartneriaid cyfiawnder troseddol ledled Cymru i sicrhau dull cydgysylltiedig o fynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol a restrir uchod.

Mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn dod â phartneriaid cyfiawnder troseddol ynghyd gan gynnwys: Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS), Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLlTEF), y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, gwasanaethau'r heddlu yng Nghymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyrff y sector gwirfoddol a'r Comisiynydd Dioddefwyr.

Mae'r ffeithlun isod yn rhoi cipolwg ar gynllun gwaith Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru ar gyfer 2023-24, sy'n cynnwys pedair blaenoriaeth gyffredinol a oedd yn canolbwyntio ymdrech mewn rhai meysydd i wneud gwahaniaeth a sicrhau newid.



Roedd rhai o gyflawniadau allweddol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn ystod 2023-24 yn cynnwys:

Cynnydd yng Nghymru o ran Ymgyrch Soteria, sy'n helpu i ddeall yr ymateb y mae dioddefwyr treisio yn ei gael ac i adnabod a rhannu arferion gorau.

Adnabod rhwystrau a'r rhesymau pam mae dioddefwyr yn tynnu'n ôl o'r system cyfiawnder troseddol, sy'n cynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr, cefnogaeth gyfartal drwy gydol y broses dreial a hysbysu dioddefwyr am y mesurau arbennig sydd ar gael wrth roi tystiolaeth yn y treial.

Deall rhesymau ac achosion sylfaenol troseddu a mynd i'r afael â bylchau mewn gwasanaethau megis llety, iechyd meddwl a chymorth niwroamrywiaeth.

Sicrhau bod y system cyfiawnder troseddol yn ymwybodol ac yn ystyried effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar y rheini yn y system, yn ddioddefwyr ac yn droseddwyr. Roedd hyn yn cynnwys gwaith trwy Becyn Cymorth sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod Canolfan ACE Cymru (TraCE).

Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru, gyda saith ymrwymiad i'w cyflawni erbyn 2030. Mae un o lwyddiannau allweddol eleni yn cynnwys sefydlu panel goruchwylio a chynghori annibynnol. Mae'r panel yn cael cyflwyniadau ac yn craffu ar y modd y darperir gwasanaethau i sicrhau bod yr holl waith yn cael ei lywio gan bobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/criminal-justice-anti-racism-action-plan-for-wales

Mae Adroddiad Blynyddol Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru yn manylu ar y gwaith a wnaed yng Nghymru i sicrhau system cyfiawnder troseddol effeithlon, effeithiol a theg. https://www.gov.uk/government/publications/criminal-justice-board-for-wales-annual-report-2023-24/adroddiad-blynyddol-bwrdd-cyfiawnder-troseddol-cymru-2023-2024

## Gwneud Iawn â'r Gymuned

Ym mis Medi 2023, ymunodd y Comisiynydd â staff lleol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn ardal Dyfed-Powys i nodi 50 mlynedd ers cyflwyno gorchmynion gwasanaeth cymunedol.

Gwneud iawn â'r gymuned yw lle mae troseddwyr yn gweithio ar brosiectau i dalu'r gymuned yn ôl am eu troseddau, er enghraifft, trwy gael gwared ar graffiti, clirio tir diffaith, addurno canolfan gymunedol. Rhaid i'r gwaith fod o fudd i'r gymuned leol, ni ddylai dynnu gwaith cyflogedig oddi ar eraill, ac ni ddylai wneud elw i neb.

Ers i'r gorchymyn gwasanaeth cymunedol cyntaf, fel y'i gelwid bryd hynny, gael ei wneud yn Swydd Nottingham ym 1973, mae miloedd lawer o brosiectau gwneud iawn â'r gymuned (neu waith di-dâl) wedi'u cwblhau ledled Cymru a Lloegr, gan helpu pobl ar brawf i ennill sgiliau a phrofiad wrth iddynt gwblhau eu gofynion, a bod o fudd i gymunedau.

Mae prosiectau wedi cynnwys clirio rhandiroedd, atgyweirio ac ailaddurno adeiladau cymunedol, plannu coed, glanhau afonydd a thraethau, gweithgynhyrchu teganau ac ailgylchu pren a roddwyd yn ddodrefn.

I goffau'r 50 mlynedd, cafodd Cymru sylw cenedlaethol gan HMPPS ym mis Medi, gyda nifer o brosiectau ar y gweill ledled y wlad. Mae'r prosiectau'n canolbwyntio ar themâu gan gynnwys glanhau traethau, prosiectau cymunedol, a phrosiectau glanhau cymunedol eraill.

Tra ar ddiwrnod ymgysylltu cymunedol yn Sir Gaerfyrddin, ymunodd CHTh Llywelyn â chydweithwyr yn Llanelli i wneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ar safle, casglu sbwriel, a thorri gordyfiant yn ôl, i ddathlu 50 mlynedd.

Gall aelodau cymunedol enwebu prosiect ar gyfer gwaith di-dâl i'w wneud gan droseddwyr yn eu hardal leol.

Os oes gan unrhyw un brosiect yr hoffent iddo gael ei ystyried ar gyfer prosiect gwneud iawn â'r gymuned, gallant ddod o hyd i ragor o fanylion https://www.gov.uk/nominate-community-payback-project.

**Dywedodd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Dafydd Llywelyn:**

> *"Ers iddo gael ei gyflwyno gyntaf, mae cynllun Gwneud Iawn â'r Gymuned wedi rhoi cyfle i droseddwyr wneud iawn am eu gweithredoedd ac i roi yn ôl i'r cymunedau y gallent fod wedi'u niweidio. Trwy waith di-dâl, mae unigolion wedi atgyweirio mannau cyhoeddus, wedi cyfrannu at gadwraeth amgylcheddol, ac wedi cefnogi elusennau a sefydliadau lleol. Mae hyn i gyd yn cael ei gydlynu drwy gydweithio rhwng partneriaid, gan gynnwys heddluoedd, gwasanaethau prawf, awdurdodau lleol, a phartneriaid cymunedol."*

## Goruchwylio llety diogel i blant

Ni ddylai plant gael eu cadw yng ngorsaf yr heddlu am fwy o amser nag sydd angen oherwydd nad oes cymorth a/neu lety ar gael. Y ddeddfwriaeth sylfaenol ar drin pobl a ddrwgdybir yn nalfa'r heddlu, gan gynnwys plant, yw Rhan IV o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE). Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn ei gwneud yn ofynnol i arestio, cadw yn y ddalfa neu garcharu plant gael eu defnyddio fel cam olaf yn unig ac am y cyfnod byrraf priodol o amser, a bod unrhyw benderfyniadau a wneir er budd pennaf y plentyn.

Mae Deddf Plant 2004 hefyd yn gosod dyletswydd ar yr heddlu i sicrhau bod eu swyddogaethau, ac unrhyw wasanaethau yn diogelu a hyrwyddo lles plant.

Er mwyn dal y prif gwnstabl yn atebol am gyflawni'r dyletswyddau hyn, cynhaliodd swyddfa'r Comisiynydd samplau ar hap o gofnodion dalfeydd plant i fonitro'r sefyllfa yn ardal Dyfed-Powys ac ystyried sut y caiff hyn ei fonitro yn y dyfodol.

Ym mis Mawrth 2024, adolygodd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa 14 o gofnodion dalfa pobl ifanc i wirio a fu cynnydd a gwelliannau ers yr hapsamplau blaenorol. Ar y cyfan, roedd yr adborth gan y panel yn gadarnhaol ac roeddent yn tynnu sylw at y gwaith da a welwyd yng nghofnodion y ddalfa. Fodd bynnag, nodwyd mewn 43% o'r achosion a adolygwyd na cheisiwyd unrhyw ofal arall a chafwyd achosion o broblemau yn ymwneud â mynediad at wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.

Yn dilyn yr adolygiad, rhoddwyd y camau gweithredu canlynol ar waith gan yr heddlu i ysgogi gwelliannau yn y maes hwn:

- Mae adroddiadau plant yn y ddalfa yn cael eu llunio'n fisol ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref ac maent bellach yn cael eu rhannu ag Arweinydd Diogelu Pobl Fregus.
- Cyfarfod misol rhwng Arweinydd y Ddalfa ac Arweinydd Diogelu Pobl Fregus i adolygu cadw pob plentyn sy'n aros eu prawf yn y ddalfa i nodi unrhyw bryderon ynghylch gwneud penderfyniadau a dysgu unrhyw wersi y gellir eu cyfleu'n ôl i'r swyddogion perthnasol.
- Mae'r wybodaeth bellach yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd Diogelu chwarterol.

Bydd Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn parhau i fonitro'r maes hwn yn ystod 2024-25 a bydd hefyd yn cynnal adolygiad ar wahân o lais y plentyn o fewn y broses ymchwilio a chyfnod yn y ddalfa.

## Astudiaeth fanwl o Stelcian ac Aflonyddu

Mae adolygiadau craffu manwl yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen ar y Comisiynydd i wneud penderfyniadau gwybodus ar y gwasanaeth y mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei ddarparu i'w gymunedau.

Yn 2023-24, cynhaliodd swyddfa'r Comisiynydd adolygiad manwl iawn o reolaeth yr heddlu ar gyflawnwyr stelcian ac aflonyddu, gan roi cipolwg annibynnol ar effeithiolrwydd y prosesau rheoli troseddwyr a ddefnyddiwyd, ac ar ddiogelu dioddefwyr o ganlyniad i'r prosesau hyn.

Asesodd swyddfa'r Comisiynydd reolaeth cyflawnwyr stelcian ac aflonyddu drwy:


- Ymchwilio i ddata cenedlaethol a lleol
- Adolygu adroddiadau, argymhellion a gweithgarwch craffu presennol
- Cyfweld swyddogion allweddol, aelodau staff, ac arbenigwyr
- Samplo achosion ar hap o stelcian ac aflonyddu
- Ymgysylltu â dioddefwyr a chraffu ar ddata boddhad dioddefwyr
- Ystyried defnydd yr heddlu o orchmynion sifil
- Adolygu Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcio gweithredol.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar yr astudiaeth fanwl ym mis Medi 2023, ac mae ar gael ar wefan y comisiynydd ochr yn ochr â fideo o ymateb y comisiynydd a Heddlu Dyfed-Powys i'r canfyddiadau.

https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-chraffu/craffu/craffu-dwys/rheoli-cyflawnwyr-stelcio-ac-aflonyddu-2023/

**Prif gasgliadau...**

- ***A yw dioddefwyr yn cael eu cefnogi?*** Nid oedd dioddefwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, ond roedd samplo ar hap yn awgrymu bod dioddefwyr yn cael eu diogelu.
- ***A yw ymddygiad troseddol yn cael ei atal?*** Roedd angen gwneud mwy, yn enwedig wrth ddefnyddio a rheoli gorchmynion sifil, i atal cyflawnwyr rhag stelcian ac aflonyddu, a'u defnyddio yn gyson ac yn gadarn.
- ***A yw'r system cyfiawnder troseddol yn cael ei defnyddio'n effeithiol?*** Roedd ystyriaeth a defnydd cynyddol o orchmynion sifil ac erlyniadau, ond hefyd tystiolaeth o ddiffyg cysylltiad rhwng dealltwriaeth y dioddefwr, yr heddlu a'r llysoedd o'r ymateb i dorri gorchmynion ac aildroseddu.
- Roedd Heddlu Dyfed-Powys wedi gweithredu neu nodi mentrau i wella'r plismona mewn ymateb i stelcian ac aflonyddu.



## Prif argymhellion...

1. **Adnoddau** – blaenoriaethu cyllid a recriwtio ar gyfer rolau hanfodol, a mynd ati'n rhagweithiol i geisio cyngor a chymorth arbenigol.

2. **Hyfforddiant** – i adolygu'r rhaglen hyfforddi Hyrwyddwyr atal Stelcio, ac i ystyried dysgu o ymgyrch Soteria Bluestone

3. **Data** – i ehangu dangosfyrddau perfformiad i graffu'n agosach ar orchmynion sifil, ac i sicrhau bod swyddogion yn cael mynediad hawdd at gofnod cyflawn o hanes troseddwr o dorri amodau.

4. **Ymyriadau Cyflawnwyr** – gwreiddio'r offeryn blaenoriaethu cyflawnwyr ar draws yr heddlu, ac ystyried defnyddio amrywiaeth o ymyriadau, gan gynnwys gorchmynion sifil, fel rhan o strategaethau rheoli cyflawnwyr

5. **Rheoli Cyflawnwyr** – ystyried gweithredu prosesau i reoli gorchmynion sifil, gan gynnwys mwy o weithgarwch dilynol a monitro, ac ymgorffori llais y dioddefwr mewn adolygiadau trefn sifil.

6. **Dioddefwyr** – ailedrych ar gytundebau cyswllt dioddefwyr ar wahanol gamau o'r ymchwiliad, a sicrhau bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu'n gyson yn unol â'r cytundeb.

Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona ym mis Chwefror 2024, cyflwynodd Heddlu Dyfed-Powys ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion uchod. Roedd yn galonogol nodi cynnydd cadarnhaol yn erbyn nifer o argymhellion. Yn galonogol, roedd y diweddariad yn dangos bod y maes thematig hwn yn parhau i fod yn destun gwaith gwella parhaus gan yr heddlu.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi cydnabod yr angen i ganolbwyntio'n barhaus ar y gwaith hwn wrth geisio gwella'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt i leihau'r risg i ddioddefwyr a'r cymunedau ehangach.

Bydd y comisiynydd yn parhau i oruchwylio cynnydd Heddlu Dyfed-Powys ac yn monitro gwelliannau.



# Gwerthoedd

Yn ogystal â'r tri maes blaenoriaeth i gynorthwyo'r comisiynydd i gyflawni gweledigaeth **'Cadw Cymunedau Dyfed-Powys yn Ddiogel'**, mae pedwar o werthoedd gwahanol sy'n ceisio annog yr heddlu a holl sefydliadau eraill y system cyfiawnder troseddol i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol drwy wneud y canlynol:



Cydweithio | Bod yn atebol | Bod yn gynaliadwy | Ymgysylltu'n eang

# Cydweithio



Drwy gydol 2023-24, parhaodd y comisiynydd a'i swyddfa i weithio mewn partneriaeth i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu a darparu gwasanaethau i gymunedau lleol yn ardal Dyfed-Powys.

Mae dyletswyddau partneriaeth allweddol y comisiynydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth ac yn cael eu hesbonio ymhellach ar y wefan yma https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/gwasanaethau-a-partneriaethau/partneriaethau/. Maent yn cynnwys canolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol, cyfiawnder troseddol a diogelu plant a phobl ifanc.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl yn wahoddedigion statudol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus[1] (BGC) ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar draws ardal Dyfed-Powys ar yr agenda hon.

Bydd y dolenni isod yn mynd â chi i'r gwefannau ar gyfer BGC pob ardal:

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys

Mae enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd gan bartneriaid Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2023/24 yn cynnwys cefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar dlodi megis banciau bwyd ac ymgyrchoedd mannau cynnes a datblygu hyfforddiant llythrennedd carbon pwrpasol ar gyfer partneriaid.

Parhaodd y Comisiynydd i gefnogi gwaith Grŵp Llywio Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cyflog Byw drwy gydol 2023-24, drwy gyflwyno'r Cyflog Byw gwirioneddol i sefydliadau BGC. Mae'r Cyflog Byw yn gyfradd gyflog wirfoddol sy'n seiliedig ar gostau byw ac yn cael ei chyfrifo'n annibynnol gan Ymddiriedolaeth Cyflog Byw.

Fe'i cynlluniwyd i sicrhau bod gweithwyr yn cael eu talu digon i fyw arno, yn hytrach na'r isafswm cyflog cyfreithiol yn unig. Mae hwn yn gyfle hanfodol i atal troseddau meddiangar megis byrgleriaeth a dwyn o siopau. Mae'r Cynllun Dargyfeirio Troseddwyr a ariennir gan y comisiynydd yn parhau i dderbyn lefelau uchel o atgyfeiriadau ac mae'r cynllun wedi gweld cynnydd mewn anghenion cyllid, budd-daliadau a dyled yn ddiweddar. Er mai dim ond un arwydd yw hwn o'r anghenion sylfaenol, bydd mentrau fel y Cyflog Byw Go Iawn yn helpu i roi sefydlogrwydd i gefnogi unigolion a theuluoedd.

Fel cadeirydd y grŵp llywio, agorodd y Comisiynydd ddigwyddiad dathlu yng Nghanolfan Cynhadledd a Halliwell yng Nghaerfyrddin yn ystod wythnos Cyflog Byw 2023. Clywodd y mynychwyr gan Coaltown Coffee a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant wrth iddynt rannu eu safbwyntiau ar weithredu'r Cyflog Byw. Amlygwyd yr effaith gadarnhaol y gall y Cyflog Byw ei chael ar fusnesau, mawr a bach, a'r effaith y gallant ei chael ar y gymuned drwy arferion cyflog teg. Roedd yn galonogol clywed Cyngor Sir Powys yn cyhoeddi yn y digwyddiad eu hymrwymiad i




1 Wedi'i sefydlu'n ffurfiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol

ddod yn gyflogwr Cyflog Byw. Mae hwn yn gam arwyddocaol tuag at nod y grŵp llywio o gydnabod Canolbarth a Gorllewin Cymru yn swyddogol fel rhanbarth Cyflog Byw cyntaf Cymru.

Mae asiantaethau partner BGC yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio a chyflwyno ymyriadau i atal trais fel rhan o'r gwaith cydweithredol o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol. Mae'r Comisiynydd wedi helpu i amlygu mynychder ac effaith trais a deimlir gan ein cymunedau. Mae'r diagram isod yn dangos peth o'r gwaith sydd wedi'i wneud i fynd i'r afael â thrais difrifol:

## Partneriaethau Diogelwch Cymunedol

Mae'r Comisiynydd wedi parhau i gefnogi'r pedair Partneriaeth Diogelwch Cymunedol ar draws ardal yr heddlu, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i sicrhau cyllid gan Strydoedd Mwy Diogel 5 a'r Ddyletswydd Trais Difrifol fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad.

Mae meysydd nodedig eraill o gydweithio yn cynnwys mewnbwn partneriaeth hanfodol i fynd i'r afael â grwpiau troseddau cyfundrefnol, canolbwyntio ar atal troseddau gwledig a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ddefnyddio Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus.

Darparodd swyddfa'r Comisiynydd adborth i gam dau adolygiad cenedlaethol o arferion gorau o ran gweithio mewn partneriaeth. Roedd y trafodaethau'n ymdrin ag amrywiaeth o bynciau allweddol gan gynnwys deddfwriaeth a rheoliadau presennol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, gweithgarwch a blaenoriaethau cyfredol, modelau gweithredu, mecanweithiau ariannu, perthnasoedd â phartneriaid allweddol, llywodraethu, atebolrwydd, a'r gwerth ychwanegol wrth atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Archwiliodd hefyd y newidiadau cyd-destunol amrywiol a'r heriau y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi'u hwynebu ers iddynt gael eu cyflwyno'n wreiddiol.

O ganlyniad, bydd y Swyddfa Gartref yn diweddaru canllawiau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol craidd i adlewyrchu'r cyd-destun presennol a gosod safonau gofynnol a argymhellir yn ogystal ag awgrymiadau o arferion da.

Mae'r Swyddfa Gartref yn parhau i weithio tuag at weithredu cynigion sy'n deillio o gam un yr adolygiad o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i gryfhau'r berthynas rhwng Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gan gynnwys drwy'r Mesur Cyfiawnder Troseddol, sydd yn y Senedd ar hyn o bryd.

## Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r comisiynydd yn parhau i deimlo'n angerddol am weithio gyda'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn ardal Dyfed-Powys. Parhaodd y comisiynydd i ariannu prosiect Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol Cyfiawnder Ieuenctid, sydd â'r nod o ddarparu cymorth i ddioddefwyr a galluogi iddynt leisio eu barn ar bob cam o'r system cyfiawnder ieuenctid.

Mae swyddfa'r Comisiynydd yn ei gynrychioli ym mhob un o gyfarfodydd bwrdd rheoli'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ac mae'n cadw mewn cysylltiad â'r penaethiaid gwasanaeth bob chwarter. Drwy'r cysylltiadau hyn, mae'r Comisiynydd wedi gallu dal y prif gwnstabl i gyfrif drwy gydol y flwyddyn ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys pynciau fel: angen mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio gwarediadau y tu allan i'r llys, oedi wrth atgyfeirio i'r gwasanaethau, a'r materion a brofwyd yn ystod cyfnod newid systemau'r heddlu. Mae'r cysylltiadau hyn hefyd wedi darparu dealltwriaeth fwy cyfoethog o effeithiau penderfyniadau plismona, megis stopio a chwilio. Roedd y Comisiynydd yn falch o glywed am y sgôr 'eithriadol' a gafodd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin yn ei arolygiad gan Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi yn ystod y flwyddyn adrodd.

Mae SCHTh hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd rhanbarthol Hwb Doeth. Diben Hwb Doeth yw dod â gwybodaeth, sgiliau a phrofiad ynghyd i annog datblygu arferion cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth gadarn, sy'n cael ei gymhwyso'n ymarferol i'r rhai sy'n bwriadu ei ddefnyddio, ac sy'n gweithredu polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn llwyddiannus.

## Byrddau Cynllunio Ardal

Cyflwynwyd Byrddau Cynllunio Ardal i ddarparu atebolrwydd a chraffu ar gynllunio, perfformiad a rheolaeth ariannol camddefnyddio sylweddau o dan awdurdodau cyfrifol Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae Byrddau Cynllunio Ardal hefyd yn cyd-fynd â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gomisiynu gwasanaethau atal a thrin ar y cyd, gan leihau'r niwed a achosir i unigolion a chymunedau gan gamddefnyddio sylweddau.

Mae'r Comisiynydd wedi gweithio gyda chydweithwyr ar y Bwrdd Cynllunio Ardal i leihau'r niwed a achosir gan gamddefnyddio sylweddau, yn benodol drwy sicrhau bod dros 800 o staff Heddlu Dyfed-Powys bellach wedi'u hyfforddi i gludo Nalocson, a all wrthdroi effeithiau gorddos opioid, gan ddarparu amser hanfodol i unigolion gyrchu a chael triniaeth ac ymyrraeth.

Mae arferion da eraill yn cynnwys y Prosiect Golau Glas, sy'n defnyddio nyrsys sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ymgysylltu â galwyr cyson i'r gwasanaethau brys oherwydd eu defnydd o sylweddau. Mae'r prosiect wedi sicrhau cyllid hirdymor a'i nod yw lleihau'r baich ar yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans yn ogystal â gwasanaethau eraill y GIG.

Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ym Mhowys wedi bod ymhlith y cyntaf i weithredu Pecyn Cymorth sy'n Ystyriol o Drawma a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod Canolfan Ace Cymru (TraCE), gan sicrhau bod gwasanaethau'n gwbl wybodus am drawma ac yn gallu adnabod ac ymateb yn briodol i'r rhai sydd â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae hyn yn cynnwys dylunio gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar fodel penodol sy'n cefnogi ac yn cynorthwyo adferiad.

## Arloesi data a rhannu data

Parhaodd y Comisiynydd i gadeirio Rhwydwaith Gwella Data a Dadansoddi Arloesol Cymru (WDAIIN) drwy gydol y flwyddyn. Mae WDAIIN, sy'n rhwydwaith partner bwrdd Cymunedau Mwy Diogel, yn cefnogi gwaith partneriaeth amlasiantaeth, seiliedig ar dystiolaeth, a arweinir gan wybodaeth i gefnogi cymunedau diogel, cryf a mwy hyderus. Yn dilyn cynhadledd lwyddiannus y llynedd, mae'r rhwydwaith wedi penodi grŵp gweithredol sydd wedi datblygu cynllun gwaith wedi'i adnewyddu ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ganolbwyntio ar y canlynol:

- gwaith partneriaeth effeithiol ar faterion cyffredin
- goruchwylio materion sy'n dod i'r amlwg
- nodi a rhannu arferion da.

Er mwyn cyflawni'r nodau hyn, mae'r Comisiynydd yn ddiweddar wedi dod â chynrychiolwyr o brifysgolion Cymru a'r pedwar heddlu yng Nghymru at ei gilydd i weithio tuag at rannu data'r heddlu yn rheolaidd â Chronfa Ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL).

Wedi'i sefydlu gan grŵp Gwybodeg Iechyd Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe yn 2007, gyda chyllid craidd gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru Llywodraeth Cymru, mae Cronfa Ddata SAIL yn hafan ddiogel ar gyfer data sy'n arwain y byd ac yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol. Mae'n dwyn ynghyd ystod eang o setiau data iechyd a gweinyddol dienw y gellir eu cysylltu, a gesglir yn rheolaidd, am boblogaeth Cymru. Yn arbenigo mewn ymchwil ar lefel academaidd a gweithredol, mae SAIL wedi cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â llawer o gwestiynau ymchwil, gwerthusiadau ac adroddiadau cudd-wybodaeth pwysig.

Bydd sicrhau bod data'r heddlu'n cael ei fwydo i'r gronfa ddata yn caniatáu mwy o fewnwelediad ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach o effaith gweithgarwch yr heddlu ar gymunedau Cymru, yn ogystal â chefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth.

## Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan

Yn ystod 2023-24, sef yr ail flwyddyn i gyllid gael ei ddyrannu gan bob un o'r pedwar Comisiynydd a heddlu yng Nghymru, roedd cyllid ar gael ar gyfer prosiectau academaidd yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched.

Derbyniodd tri phrosiect gyllid, gan sicrhau bod ymchwil academaidd hanfodol yn cael ei wneud ar y canlynol:

1. Casineb at fenywod fel ffactor risg sy'n arwain at niwed difrifol mewn achosion o gam-drin domestig
2. Unedau arbenigol ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ledled Cymru a
3. Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a gyflawnir gan swyddogion yr heddlu

Cynhelir cynhadledd ym mis Mehefin 2024, lle bydd canfyddiadau ymchwil o brosiectau a gefnogir gan heddluoedd yng Nghymru yn cael eu cyflwyno a bydd y camau nesaf yn cael eu trafod.

## Cyfarfod rhwng Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a Merched.

Ym mis Mehefin 2023, cynhaliodd y comisiynydd gyfarfod â'r Comisiynydd Pobl Hŷn a'r Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod a Merched, a oedd yn canolbwyntio ar gam-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched. Cynhaliwyd y cyfarfod ym mhencadlys yr heddlu ac roedd yn gyfle i dynnu sylw at yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan Heddlu Dyfed-Powys mewn perthynas â mynd i'r afael â cham-drin domestig a thrais yn erbyn menywod a merched.

Clywodd y rhai a oedd yn bresennol gan y prif gwnstabl sydd wedi ymrwymo i weithio tuag at ddileu cam-drin domestig, stelcian ac aflonyddu a sut yr oedd ffyrdd newydd o weithio yn cael eu rhoi ar waith i gyflawni hyn. Gwelsant hefyd sut mae teledu cylch cyfyng yn chwarae rhan allweddol wrth gadw cymunedau'n ddiogel ac yn cefnogi atal trais yn erbyn menywod a merched mewn mannau prysur yn economi'r nos.

Cwrddon nhw hefyd â phartneriaid allweddol sy'n cefnogi unigolion sydd wedi bod yn destun trais domestig gan gynnwys cynrychiolwyr o 'Dal i Godi', staff a swyddogion o Ganolfan Fregusrwydd yr heddlu a chynrychiolwyr o Brifysgol Aberystwyth.

Roedd y trafodaethau'n canolbwyntio ar gydweithio ar yr ymdrech ar y cyd i wella gwasanaethau i ddioddefwyr yn ein cymunedau.



# Bod yn atebol

Mae trefniadau llywodraethiant yn parhau yn eu lle i sicrhau atebolrwydd priodol ar bob lefel. Mae'r trefniadau'n hwyluso gwell prosesau gwneud penderfyniadau gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Parhaodd rôl graffu benodol y Comisiynydd yn ystod 2023-24, wedi'i hwyluso gan y Bwrdd Plismona a Chyfarfodydd Bwrdd Atebolrwydd Plismona.

## Y Bwrdd Plismona

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd cyfarfodydd y Bwrdd Plismona bob pythefnos pan oedd y comisiynydd yn dal y prif gwnstabl yn atebol am ddarparu gwasanaethau plismona.

Roedd meysydd allweddol y cyfarfodydd yn cynnwys:

- Dioddefwyr yn ymddieithrio o'r system cyfiawnder troseddol
- Y Gofyniad Plismona Strategol
- Stelcio ac aflonyddu
- Ystyriaethau adroddiad y Farwnes Casey
- Canlyniadau arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL)
- Rheoli gwybodaeth
- Plismona gwledig
- Mae cofnodion y Bwrdd Plismona ar gael i'w lawrlwytho ar wefan y Bwrdd Plismona






## Y Bwrdd Atebolrwydd Plismona

Parhaodd y cyfarfodydd Atebolrwydd Plismona yn ystod 2023/2024 bob chwarter ac fe'u cynhaliwyd yn Llanelli, Gwernyfed, Aberystwyth a phencadlys yr heddlu. Roedd y cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ac fe'u hanogwyd i ofyn cwestiynau i'r comisiynydd a'r prif gwnstabl. Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai 2023 yng nghanolfan Ambiwlans Awyr Cymru yn Nafen, Llanelli ac yn dilyn y cyfarfod gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol i fynd ar daith o amgylch dalfa newydd Dafen cyn ei hagor yn swyddogol.

Roedd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar berfformiad yr heddlu yn erbyn blaenoriaethau'r Comisiynydd yn y Cynllun Heddlu a Throseddu a pherfformiad yr heddlu yn erbyn mesurau cenedlaethol. Cyhoeddir manylion pob cyfarfod ar wefan y comisiynydd Bwrdd Atebolrwydd Bwrdd Plismona Dyfed-Powys

## Y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu

Mae'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu wedi bod yn ei le ers sawl blwyddyn ac mae'n cefnogi'r comisiynydd mewn perthynas â dyfarnu cyllid grant neu dendro am wasanaethau. Mae'r aelodaeth yn cynnwys cydweithwyr yn yr heddlu, asiantaethau partner a chynrychiolwyr paneli gwirfoddolwyr y comisiynwyr.

Cyflwynodd cynrychiolwyr gwasanaethau a gomisiynir a rhai a gafodd gyllid i'r bwrdd yn ystod y flwyddyn ac ateb cwestiynau i graffu ar berfformiad a dangos gwerth am arian. Yn ystod 2023/24 cafodd y bwrdd gyflwyniadau gan nifer o wasanaethau a gomisiynwyd a phartneriaid cyflawni allweddol. Roedd hyn yn cynnwys sylw i'r rhaglen Hyrwyddwyr Cymunedol, gwasanaeth Ôl-drafod Pobl Ifanc ar Goll, gwasanaeth Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig a sesiwn bwrpasol i glywed adborth ar brofiad cleientiaid sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Tua diwedd y cyfnod yn anffodus mae sawl aelod wedi rhoi rhybudd eu bod yn ymddiswyddo o'r bwrdd oherwydd bod ganddynt alwadau sy'n cystadlu am eu hamser fel gwirfoddolwyr. Mae hyn yn awr yn gyfle i graffu ar wasanaethau a gomisiynir a'r rhai sy'n cael cyllid y comisiynydd gael ei ystyried a'i ymgorffori mewn adolygiad o strwythur llywodraethu SCHTh i sicrhau y bydd cyfle o hyd i wasanaethau a gomisiynir gyfrannu. Bydd hyn yn ddeublyg o ran cyfrannu tystiolaeth a her fel y bo'n briodol ond hefyd i gyflwyno cyd-destun a pherfformiad eu darpariaeth gwasanaeth.

## Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys

Mae'r Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, a gydlynir gan swyddfa'r comisiynydd, yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o bob rhan o'r sector cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y llysoedd, y gwasanaeth prawf, Timau Troseddau Ieuenctid a Gwasanaeth Erlyn y Goron.


Mae aelodau'r panel yn asesu'n annibynnol, yn craffu ac yn rheoli ansawdd y defnydd o warediadau y tu allan i'r llys (fel rhybuddion, datrysiadau cymunedol a gwarediadau adferol ieuenctid) a gyhoeddir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r panel yn gwneud argymhellion, yn rhoi adborth ar achosion unigol i swyddogion, yn cyfathrebu canfyddiadau, yn hyrwyddo arferion gorau ac yn nodi anghenion datblygu polisi neu hyfforddiant posibl i'w hystyried gan yr heddlu neu asiantaethau eraill cysylltiedig.

O fewn eu gweithgareddau craffu ar-lein yn ystod 2023-24, adolygodd y panel 85 o achosion yn cwmpasu: troseddau cyllyll, ymosodiadau ar weithwyr brys, troseddau casineb, menywod ac anghymesuredd, byrgleriaethau a lladradau.

Yn dilyn gwaith craffu, argymhellwyd bod angen atgoffa swyddogion Heddlu Dyfed-Powys o'r polisi a'r canllawiau ynghylch cyhoeddi gwarediadau y tu allan i'r llys



## Asesiad panel dros amser
## Yn cwmpasu troseddau rhwng Tachwedd 2013 a Chwefror 2024




Mae'r graff uchod yn amlygu asesiadau'r panel rhwng mis Tachwedd 2013 a mis Chwefror 2024.

Cadeiriodd David Evans YH, cyn gadeirydd mainc i ynadon Sir Gaerfyrddin, ei gyfarfod olaf o'r panel craffu ar warediadau y tu allan i'r llys ym mis Chwefror 2024.Mynegodd y Comisiynydd ei ddiolch i Mr Evans YH am ei ymroddiad a'i gefnogaeth i banel craffu gwarediadau y tu allan i'r llys Dyfed-Powys.

Mae adroddiadau ar waith y panel ar gael ar ein gwefan yma: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-chraffu/craffu/panel-gwarediadau-y-tu-allan-i-r-llys/

## Cynlluniau Gwirfoddolwyr

Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y comisiynydd a'i dîm i weithio gyda gwirfoddolwyr a phaneli sy'n ei gefnogi i ddal y prif gwnstabl i gyfrif am ddarparu gwasanaethau heddlu effeithlon, effeithiol a chyfreithlon. Mae'r comisiynydd yn ddiolchgar i bawb sydd wedi parhau i wirfoddoli i'w swyddfa fel rhan o'r cynlluniau Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a Lles Anifeiliaid, y Panel Sicrhau Ansawdd, a'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr a Fforwm Ymgysylltu Ieuenctid. Mae pob gwirfoddolwr yn helpu i fonitro a sicrhau proffesiynoldeb o fewn Heddlu Dyfed-Powys

## Y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae'n ofyniad statudol i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol. Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn rhoi sicrwydd annibynnol bod pobl sy'n cael eu cadw'n gaeth yn cael eu trin yn briodol ac yn deg gan Heddlu Dyfed-Powys.

**Yn ystod 2023-24, roedd gan Dyfed-Powys y canlynol:**

- **17** o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a gynhaliodd **137** o ymweliadau â dalfeydd yn bersonol.

**Yn ystod y cyfnod hwn:**

- Roedd **411** o garcharorion yn y ddalfa yn ystod galwadau/ymweliadau
- Siaradodd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â **177** o garcharorion
- Arsylwyd **117** gan yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa
- Ni welwyd **103** gan yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Er bod nifer y carcharorion y siaradodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â nhw wedi gostwng ychydig o'i gymharu â safon y llynedd, o ystyried bod cyfanswm niferoedd yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi gostwng o naw, dim ond ychydig o ostyngiad yw nifer yr ymweliadau a gynhaliwyd ac mae'n dangos lefel yr ymrwymiad gan y grŵp gwirfoddolwyr presennol.

Rydym yn awyddus i recriwtio unigolion o gefndiroedd gwahanol i'n cefnogi gyda'r gweithgaredd hwn. Os hoffech ddod yn Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa, dilynwch y ddolen i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-chraffu/cynlluniau-gwirfoddoli/ymwelwyr-annibynnol-ar-ddalfa/

Mae'r ymweliadau wedi arwain at argymhellion ar gyfer gwelliannau gan gynnwys:

- Stensil ar waliau dalfa yn hysbysu carcharorion bod yr ardal o amgylch y toiled wedi'i phicseleiddio ar y teledu cylch cyfyng.
- Tynnu sylw at hyd cyfnod cadw unigolyn sy'n cael ei gadw yn y ddalfa tra'n aros i gael ei gludo i'r llys.
- Eitemau crefyddol yn cael eu cadw mewn mannau storio priodol.
- Mae llyfryn Hawliau a Hawliadau yn cael ei baratoi ar gyfer carcharorion ifanc ac yn cael ei fonitro'n barhaus gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa.

## Gwobr Aur y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd

Yn ystod mis Tachwedd 2023, cynhaliodd Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA) ddigwyddiad Fframwaith Sicrwydd Ansawdd (QAF) lle gwobrwywyd SCHTh yn Nyfed-Powys am reoli a rhedeg y cynllun a'i ddyfarnu â Gwobr Aur.

Cafodd y Fframwaith Sicrwydd Ansawdd ei redeg gyntaf gan y Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd gyda chynlluniau yn 2019 ac mae'n fframwaith ar gyfer y cynlluniau sy'n cael eu rhedeg yn lleol i'w helpu i wneud y canlynol:

- Myfyrio ar sut maent yn cydymffurfio â'r cod ymarfer, y ddeddfwriaeth sy'n sail i ymweliadau â dalfeydd.
- Dathlu meysydd cryfder.
- Hyrwyddo ymweliadau â dalfeydd a'r cyflawniadau y maent wedi'u gwneud.
- Gwella perfformiad cynlluniau.
- Cynyddu rhannu arferion da ac adnoddau ar draws cynlluniau.

Er mwyn ennill gwobr, rhaid i gynlluniau asesu a darparu tystiolaeth ar gyfer llu o feini prawf o dan y themâu recriwtio a hyfforddi, rheoli gwirfoddolwyr, cyfathrebu, dal yr heddlu i gyfrif, tryloywder a thawelwch meddwl y cyhoedd a lles carcharorion. Mae gan bob ardal nifer o feini prawf ar gyfer cynlluniau i'w bodloni, po uchaf yw'r lefel, y mwyaf o feini prawf y mae angen iddynt eu bodloni er mwyn ei gyflawni. Mae angen i gynlluniau gwblhau pob maen prawf o dan bob lefel cyn symud ymlaen i'r nesaf. Mae angen hunanasesiad a chymeradwyaeth gan reolwyr llinell ar bob lefel. Wrth fynd am wobr aur neu arian bydd samplo ar hap Cymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn digwydd hefyd, ac ar gyfer gwobr platinwm mae'r holl dystiolaeth yn cael ei hap samplo a'i hasesu gan Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd.

Mae'r wobr aur yn golygu bod gan y cynlluniau safon ragorol o ymweliadau â dalfeydd ac rydym yn hynod falch o fod wedi cyrraedd y lefel hon unwaith eto.

## Hyfforddiant

Cynhaliwyd dau ddiwrnod hyfforddiant ar gyfer Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod y flwyddyn, un wyneb yn wyneb a'r llall ar-lein. Yn y cyfarfod cyntaf gwahoddwyd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i gwrdd â rheolwyr newydd y cynllun, amlinellu'r strategaeth ar gyfer y cynllun ar gyfer y flwyddyn newydd ac i drafod a recordio fideo recriwtio Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Roedd y ddau gyfarfod hefyd yn gwahodd staff y ddalfa i ymuno a thrafod themâu, materion neu bryderon parhaus mewn perthynas ag ymweliadau â dalfeydd a gynhaliwyd.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd wedi cynnal nifer o gyrsiau hyfforddi ar-lein sy'n cynnwys y Ddeddf Cydraddoldeb, Diogelu Data a Chyfrinachedd trwy Fforwm Dysgu Ar-lein (Canolfan Genedlaethol Technolegau Dysgu Cymhwysol) y Coleg Plismona.

Cynigiwyd hyfforddiant gloywi dalfa i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a ddarparwyd gan hyfforddwr staff y ddalfa. Roedd yr hyfforddiant yn canolbwyntio ar fwcio unigolyn i mewn i'r ddalfa, asesu risg unigolyn a gedwir yn y ddalfa, pwerau arestio ac ystyriaethau ar gyfer ieuenctid a merched yn y ddalfa.

Sherry Ralph, Prif Swyddog Gweithredol o Gymdeithas Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd "mae tynnu dillad unigolyn yn gam eithafol i sicrhau ei ddiogelwch tra yn y ddalfa, a all gael effaith ddifrifol ar garcharorion a staff. Rwy'n falch iawn bod Heddlu Dyfed-Powys a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi gweithio ar brosiect peilot gyda Chymdeithas Ymwelwyd Annibynnol â Dalfeydd, gan arwain at argymhellion cenedlaethol gan y gymdeithas ar gyfer tynnu dillad yn y ddalfa i'r Coleg Plismona, y Swyddfa Gartref a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Bydd diweddariad llawn ar yr argymhellion hyn yn cael ei ryddhau yn 2024-25, ond mae ein diolch yn fawr i Ddyfed-Powys am eu holl gefnogaeth a'u monitro yn y camau cynnar o sefydlu safbwyntiau polisi ar y mater pwysig hwn".

I ddarganfod mwy am waith Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa gallwch ddarllen eu hadroddiad blynyddol yma Adroddiad Blynyddol Ymwelwyd Annibynnol â'r Ddalfa



## Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa

Cynhaliwyd Panel Craffu y Ddalfa cyntaf ar 6 Mawrth 2024 ac fe'i cyflwynwyd o ganlyniad i Gymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) yn argymell y byddai Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn gwella tryloywder, yn cynyddu hyder y cyhoedd a nodi arferion da a gwael gydag adolygiadau rheolaidd o gofnodion y ddalfa. Mae'r panel yn cynnwys Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a gwirfoddolwyr o gynlluniau eraill sydd wedi enwebu eu hunain i fod yn rhan o'r broses. Roedd cyfarfod diwethaf y panel yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn y ddalfa.

Bydd paneli'r dyfodol yn 2024-25 yn craffu ar fregusrwydd, defnydd o rym, dillad risg arbennig ac yn parhau i edrych ar bobl ifanc yn y ddalfa. Bydd yr holl adroddiadau'n cael eu cyhoeddi a byddant ar gael i'w gweld ar wefan SCHTh: Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa:

**Dyfyniad gan un o aelodau'r panel**

> *"Mae wedi bod yn werth chweil cymryd rhan ym Mhanel Craffu Annibynnol y Ddalfa gan mai'r nod yw adolygu, yn gwbl gyfrinachol, sut mae carcharorion yn cael eu trin yn y ddalfa. Drwy nodi arferion da a llai na delfrydol, gobeithio y bydd ein hadborth yn gweld gwelliant yn y modd y caiff POB un a gedwir yn y ddalfa ei drin."*

Dywedodd y Prif Arolygydd Dros Dro Jenna Jones, sydd â chyfrifoldeb am y ddalfa "Ar ddechrau'r flwyddyn hon fe wnaethom ddatblygu Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa, gan weithio'n agos gyda SCHTh, ac mae gennym bellach banel sefydledig sy'n adolygu ac yn craffu ar ein triniaeth o bobl sy'n mynd i'r ddalfa. Mae'r adolygiadau hyn yn galluogi'r heddlu i ddeall meysydd lle'r ydym yn gwneud yn dda a meysydd lle mae angen inni ddysgu a gwella. Mae'r panel yn adolygu cofnodion dalfeydd penodol gan graffu ar sut rydym yn rheoli lles ac anghenion carcharorion, gan gynnwys plant yn y ddalfa, defnydd o rym a bregusrwydd. Mae'r rhain yn feysydd hynod bwysig i ni eu cael yn iawn, mae'r broses sicrhau ansawdd ac adborth gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwneud hynny. Rwy'n mwynhau gweithio gydag aelodau'r panel yn fawr ac fel heddlu rydym yn dysgu llawer iawn oddi wrth ein gilydd, gydag adborth y paneli, barn ffres, a'r heddlu yn darparu ystod o hyfforddiant ychwanegol i sicrhau dealltwriaeth o'r prosesau a'r penderfyniadau anodd y mae'n rhaid i staff y ddalfa eu gwneud. Mae'r panel yn gwneud gwelliannau gwirioneddol i'n prosesau yn y ddalfa."

## Cynllun Lles Anifeiliaid




Mae ymwelwyr lles anifeiliaid y comisiynydd yn gwirio lles cŵn heddlu sy'n ymwneud â gwaith yr heddlu. Maent hefyd yn ystyried y cyflwr y mae'r cŵn yn cael eu cartrefu, eu hyfforddi, eu cludo a'u lleoli ynddo.

Disgwylir i ymwelwyr lles anifeiliaid gwblhau o leiaf un ymweliad â thriniwr cŵn a'u cŵn bob chwe mis. Yn ystod 2023-24 cynhaliodd y pedwar ymwelydd Lles Anifeiliaid gyfanswm o 24 o ymweliadau. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn ystod yr ymweliadau hyn.

Darparwyd hyfforddiant gloywi gan yr Ymddiriedolaeth Cŵn ym mis Tachwedd 2023 ar gyfer gwirfoddolwyr presennol a rheolwyr y cynllun. Yn ogystal, rhoddodd yr Ymddiriedolaeth Cŵn dystysgrif i SCHTh Dyfed-Powys yn cydnabod y gwaith parhaus o fonitro'r Cynllun Lles Anifeiliaid ac yn sicrhau bod cŵn gwaith yn addas ar gyfer materion gweithredol tan fis Chwefror 2025.

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Lles Anifeiliaid gan gynnwys sut i wirfoddoli dilynwch y ddolen i'r wefan. Y Cynllun Lles Anifeiliaid

## Y Panel Sicrhau Ansawdd

Yn 2023-24 roedd 12 aelod o Banel Sicrhau Ansawdd y comisiynydd a oedd yn craffu ar ansawdd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd, mewn modd tryloyw ac annibynnol. Mae gweithgareddau craffu'r panel yn cefnogi gwelliannau o fewn yr heddlu. Cyfarfu'r panel chwe gwaith yn ystod 2023-24, gan adolygu'r canlynol:

- **Canolfan Troseddau a Digwyddiadau** – Adolygodd y panel ddetholiad ar hap o 17 o achosion yr ymdriniwyd â hwy gan ganolfan troseddau a digwyddiadau'r heddlu a gofynnwyd iddynt ystyried a oedd y ganolfan troseddau a digwyddiadau wedi ymdrin â phob un o'r achosion yn briodol. Daeth y panel i'r casgliad bod y cyfathrebu â dioddefwyr yn gyffredinol yn amserol ac yn briodol, er i'r panel nodi nad oedd rhai cofnodion yn gyflawn, a bod gwybodaeth ar goll mewn rhai cofnodion. Ymatebodd Heddlu Dyfed-Powys gan ddweud y byddai sylwadau'r panel yn cael sylw drwy ddarparu hyfforddiant i swyddogion ar NICHE yn ystod hydref 2023.

- **Stopio a Chwilio** – Adolygodd y panel bedwar digwyddiad stopio a chwilio drwy ystyried ffilm fideo camera corff. Rhoddwyd arweiniad i'r panel ynghylch y defnydd priodol o stopio a chwilio a gofynnwyd iddynt ystyried a oedd yr achosion a adolygwyd yn cael eu trin yn briodol. Yn gyffredinol, daeth y panel i'r casgliad bod y defnydd o stopio a chwilio yn briodol yn yr achosion a ddarparwyd. Gofynnodd y panel am eglurhad ynghylch pryd a pha mor aml y mae goruchwylwyr yn adolygu digwyddiadau stopio a chwilio. Dywedodd yr heddlu ei bod yn ofynnol i oruchwylwyr adolygu pob un digwyddiad stopio a chwilio a gynhelir.

- **Athreuliad Cam-drin Domestig** – Adolygodd y panel y maes pwysig hwn ar ddau achlysur yn ystod y flwyddyn. Ym mis Tachwedd 2023, cynhaliodd SCHTh weithdy amlasiantaeth, yn gwahodd partneriaid cyfiawnder troseddol a chynrychiolwyr gwasanaethau cymorth i drafod athreuliad dioddefwyr cam-drin domestig. Nod y gweithdy oedd nodi'r materion sy'n arwain at athreuliad dioddefwyr, yn ogystal â pha gamau y gallai sefydliadau mynychwyr eu cymryd i leihau cyfraddau athreuliad ar draws ardal Dyfed-Powys. I gynorthwyo'r trafodaethau gofynnwyd i'r Panel Sicrhau Ansawdd adolygu achosion diweddar o gam-drin domestig lle'r oedd y dioddefwr wedi tynnu ei gefnogaeth i ymchwiliad yn ôl. Gofynnwyd i'r panel adolygu ffilm fideo camera corff o ryngweithio swyddogion â dioddefwyr cam-drin domestig i asesu a allai'r iaith a'r derminoleg a ddefnyddiwyd fod wedi cyfrannu at eu hathreuliad. Ystyriodd y panel ddeg achos i gyd a chanfod y gellid gwneud gwelliannau, a defnyddiwyd canfyddiadau'r adolygiad yn y gweithdy i hwyluso trafodaethau pellach.

- **Defnyddio Grym** – adolygodd aelodau'r panel saith digwyddiadau Defnyddio Grym gan gynnwys ffurflenni a ffilm fideo camera corff a oedd yn cyd-fynd â nhw a gofynnwyd iddynt graffu a oedd y defnydd yn briodol ac a oedd hyfforddiant swyddogion ar ddefnyddio grym yn gyfredol. Adroddodd y panel fod y defnydd o rym yn briodol ar y cyfan, a bod swyddogion wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

- **Desg Ddigidol** – Adolygodd y panel ddetholiad o e-byst, gohebiaeth ar y wefan a gohebiaeth cyfryngau cymdeithasol, ynghyd â'r logiau galwadau a briodolwyd i ymateb yr heddlu rhwng canolfan gyfathrebu'r heddlu ac aelodau'r cyhoedd. Adolygodd y Panel saith digwyddiad i gyd a nododd yr ymdriniwyd â chyfathrebu'n briodol ar y cyfan.

Ym mis Tachwedd 2023 mynychodd aelodau'r panel ddiwrnod cynllunio yn y pencadlys lle adolygwyd y llawlyfr, a chynhaliwyd blaengynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod y cyfarfod penodwyd Spencer Gammond yn Gadeirydd y Panel Sicrwydd Ansawdd.

I ddarllen mwy am argymhellion Panel Sicrhau Ansawdd 2023-24 a sut i ddod yn aelod, ewch i wefan y comisiynydd: [https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-chraffu/cynlluniau-gwirfoddoli/panel-sicrhau-ansawdd/](https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/atebolrwydd-a-chraffu/cynlluniau-gwirfoddoli/panel-sicrhau-ansawdd/)

## Cwynion a Phryderon

Mae gan y Comisiynydd dair prif ddyletswydd mewn perthynas â chwynion yr heddlu, fel yr amlinellir isod:

- Awdurdod priodol i ystyried cwynion am y Prif Gwnstabl
- Dyletswydd i ddal y Prif Gwnstabl i gyfrif wrth ddarparu proses gwyno effeithiol ac effeithlon
- Corff adolygu perthnasol ar gyfer rhai cwynion heddlu

## Sefydlu Bwrdd Llywodraethu newydd

Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl system gwynion effeithiol ac effeithlon ar waith. Cytunwyd mewn Bwrdd Plismona ym mis Medi 2023 i sefydlu Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol. Y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol fydd y fforwm craffu ar gyfer yr holl swyddogaethau a gyflawnir gan Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu a fydd yn galluogi'r comisiynydd i gyflawni ei rwymedigaeth statudol yn unol â Phrotocol Plismona 2023.

Cynhaliwyd y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol cyntaf ym mis Mawrth 2024, lle rhoddodd Pennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol sicrwydd ynghylch y ffordd yr ymdrinnir â chwynion a honiadau o gamymddwyn gan Heddlu Dyfed-Powys. Rhoddodd gyfle i SCHTh ddwyn yr heddlu i gyfrif am y trefniadau a'r prosesau sydd ar waith a cheisio sicrwydd eu bod yn briodol ac yn effeithiol.

## Data a Gofnodwyd

Mae SCHTh yn ystyried yr holl gyfathrebiadau a geir gan y cyhoedd ac yn rhoi cyngor perthnasol i unigolion, gan gynnwys ar y broses ar gyfer gwneud cwyn i'r heddlu, manylion yr adran berthnasol sy'n berthnasol i'w cyfathrebiad a/neu gyfeirio'r unigolyn i ble y gall gael rhagor o wybodaeth berthnasol ar wefan yr heddlu. Mae'r cyfathrebu hwn yn cael ei gofnodi a'i ystyried gan SCHTh.

Mae'r Comisiynydd a'i dîm hefyd yn ystyried adroddiadau o anfodlonrwydd a godwyd gan aelodau'r cyhoedd. Mae'r 'pryderon cymunedol' hyn yn cael eu cofnodi ar system cofnodi gohebiaeth SCHTh. Bob chwarter dadansoddir pryderon y gymuned i nodi unrhyw themâu neu dueddiadau.

### 2023-24 Niferoedd Cwynion a Phryderon

| | |
|---|---|
| Nifer y cwynion Prif Gwnstabl a dderbyniwyd | 3 |
| Nifer y cwynion yn erbyn y Prif Gwnstabl a gofnodwyd | 0 |
| Nifer yr apeliadau yn erbyn y penderfyniad a wnaed i Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu | 0 |
| Nifer yr apeliadau a gadarnhawyd o blaid penderfyniad y comisiynydd | 0 |
| Cyfanswm pryderon y gymuned a dderbyniwyd | 412 |
| % yr achosion wedi'u cau a ddatryswyd o fewn 30 diwrnod gwaith | 100 |



## Hapsamplu Cwynion

Mae SCHTh yn adolygu data cwynion i nodi unrhyw themâu cwynion mewn maes penodol o blismona. Rhoddir ystyriaeth i waith pellach y gall fod angen ei wneud i fynd i'r afael â phryderon ailadroddus. Gall hyn gynnwys samplu ar hap, dadansoddi annibynnol neu gymharu data lefel uchaf â heddluoedd tebyg eraill.

O fis Medi 2023, gwnaed penderfyniad i gynnal hapsamplu misol o achosion cwynion sydd wedi cau. Nodir themâu o ddata chwarterol Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu https://www.policeconduct.gov.uk/cy/information-for-police/police-data, pryderon cenedlaethol neu leol sydd a nodwyd fel thema o'r dadansoddiad tuedd.

Adolygwyd 34 o achosion yn ystod y cyfnod hwn sydd wedi ystyried y meysydd canlynol:

- **Cwynion wedi'u cau fel "camau gweithredu eraill"**
- **Trosedd gasineb**
- **Cwynion y tu allan i Atodlen 3**
- **Camau gweithredu gan yr heddlu yn dilyn cyswllt â'r heddlu**
- **Ymchwiliadau**
- **Gwahaniaethu**

Ar y cyfan, roedd yr achosion a adolygwyd yn gadarnhaol a nodwyd rhai o'r ffyrdd o ymdrin â chwynion fel arferion gorau o ran trylwyredd ymdrin â chwynion heblaw am drwy ymchwiliad. Fodd bynnag, nodwyd rhai themâu cyffredin ynghylch prydlondeb ymdrin â'r gŵyn gychwynnol a gallu nodi archwiliad clir o'r cyfathrebu â'r achwynydd.

Mae'n werth tynnu sylw at y ffaith bod Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn ystod chwarter 3 a chwarter 4 wedi cynnal gweithdai "Cywir y Tro Cyntaf" a adolygodd becyn cymorth a fydd ar gael i bawb sy'n ymdrin â chwynion i gefnogi a sicrhau bod cysondeb o ran camau cychwynnol ymdrin â chwynion. Mynychodd cynrychiolwyr SCHTh y gweithdai gan y bydd yn fuddiol ystyried samplu ar hap wrth symud ymlaen.

Mae canlyniad yr hapsamplu misol yn cael ei grynhoi mewn adroddiad chwarterol a'i rannu â'r Adran Safonau Proffesiynol i'w ystyried ac ymateb. Yn ogystal, trafodir yr adroddiad ym Mwrdd Sicrwydd yr Adran Safonau Proffesiynol i ystyried unrhyw ddysgu sefydliadol ehangach.

Mae'r holl adroddiadau ar gael i'r cyhoedd ar ein gwefan https://dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/

## Adolygiadau o gwynion

Ers 1 Chwefror 2020, os cofnodwyd cwyn unigolyn o dan Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a bod yr unigolyn yn anhapus â chanlyniad ei gŵyn, gall wneud cais am adolygiad i'r corff adolygu perthnasol, naill ai Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu neu Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i ystyried ceisiadau am adolygiad i benderfynu ar y canlynol:

- Pa un a oedd y cais am adolygiad yn un dilys
- A oedd canlyniad y gŵyn yn rhesymol a chymesur
- Pa un a ddylid gwneud unrhyw argymhellion i'r heddlu oherwydd y modd yr ymdriniwyd â'r gŵyn a/neu ganlyniad y gŵyn.

Rhaid cyfathrebu canlyniad adolygiad i'r achwynydd yn ysgrifenedig. Rhaid iddo gynnwys digon o wybodaeth i alluogi'r darllenydd i ddeall pa benderfyniadau ac argymhellion a wnaed, a pham.

### 2023-24 Adolygiadau o gwynion

| | |
|---|---|
| Cyfanswm yr adolygiadau dilys a dderbyniwyd | 59 |
| Cyfanswm yr adolygiadau wedi'u cwblhau | 57 |
| Cyfanswm wedi'u cadarnhau | 4 |
| Cyfanswm heb eu cadarnhau | 53 |
| Cyfanswm yn parhau | 7 |
| Cyfanswm y gwersi a ddysgwyd / argymhellion a nodwyd gan y Comisiynydd | 4 |

*Noder bod pum adolygiad wedi'u cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol gan na chawsant eu derbyn tan ddiwedd mis Mawrth 2023 ac fe'u cwblhawyd ym mis Ebrill 2023.

Yn ystod y broses adolygu, nodir anghysondebau weithiau nad ydynt yn newid y canlyniad oherwydd ei fod yn rhesymol a chymesur, ond lle gellir gwella'r gwasanaeth sy'n ymdrin â'r gŵyn. Mae'r broses adolygu yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r anghysondebau hynny, mewn achosion unigol, gyda'r awdurdod priodol.

Yn ogystal, er mwyn cynyddu tryloywder o hyn allan, bydd y tîm yn cyhoeddi adroddiadau chwarterol ar wefan SCHTh, lle bydd y cyhoedd yn gallu gweld rhai o'r themâu yn cael eu adnabod fel trosolwg yn ogystal â'r rheswm pam y cadarnhawyd yr adolygiadau.
Data Perfformiad Cwynion

## Tryloywder

Caiff y Comisiynydd ei ethol gan y cyhoedd a rhaid iddo fod yn atebol yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Mae Gorchymyn Cyrff Plismona Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth benodol am Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu gael ei chyhoeddi. Gall y cyhoedd ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddal y Comisiynydd i gyfrif. Bydd set gyson o wybodaeth gyhoeddedig hefyd yn galluogi'r cyhoedd i gymharu gwasanaethau ag ardaloedd eraill yr heddlu.

Yn ystod 2023-24 roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu gwefan newydd ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a fydd yn cael ei lansio yn dilyn yr etholiadau. Yn ystod y flwyddyn mae'r tîm wedi bod yn ystyried y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y wefan bresennol ac yn nodi'r wybodaeth y bydd angen ei rhoi ar y wefan newydd. Yn absenoldeb unrhyw adolygiad allanol ffurfiol o wefannau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, cytunwyd y bydd staff SCHTh yn monitro'n fewnol yn rheolaidd i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gorchymyn.

Mae manylion llawn y Gofynion Cyhoeddi Statudol, ynghyd â manylion sut mae hyn yn cael ei gyflawni, ar gael ar wefan y Comisiynydd. Mae'n cynnwys yr angen i gynnwys manylion deiliaid swyddi, staff, incwm a gwariant, eiddo, hawliau a rhwymedigaethau, penderfyniadau a pholisïau. Dolen https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/tryloywder/mynegai-tryloywder/



## Safonau'r Gymraeg

Drwy gydol y flwyddyn parhaodd swyddfa'r comisiynydd i gadw at Fesurau'r Gymraeg 2011. Yn ystod 2023-24 cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg adolygiad o gydymffurfiaeth SCHTh â Safonau'r Gymraeg ac yn dilyn yr adolygiad roedd y comisiynydd yn falch iawn o glywed bod SCHTh yn cydymffurfio â'r safonau.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nifer o Fyrddau Plismona trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cyfarfodydd y Bwrdd Atebolrwydd Plismona bob amser yn croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg a darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

Roedd pob swydd wag a hysbysebwyd yn 2023/2024 yn nodi bod angen y gallu i siarad Cymraeg i lefel un, neu fod yn rhaid i'r unigolyn gyrraedd lefel un o fewn chwe mis i fod yn y swydd. Ar hyn o bryd mae ychydig dros 70% o'r staff yn hyderus yn siarad trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'r holl rolau sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd yn gwbl rugl yn y Gymraeg ac mae hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i gynnig gwasanaeth dwyieithog.

Ym mis Mai 2023 cyhoeddodd y swyddfa ei hadroddiad blynyddol annibynnol cyntaf ar yr Iaith Gymraeg ar ôl datblygu adroddiadau ar y cyd â'r heddlu yn flaenorol. Roedd hwn yn gyfle i dynnu sylw at y gwaith a wnaed yn benodol yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg ar gael yma: https://www.dyfed-powys.police.uk/cy-GB/SysSiteAssets/media/downloads/dyfed-powys/about-us/equality-and-diversity/the-welsh-language/adroddiad-iaith-blynyddol-2022-i-2023.pdf



## Y Cydbwyllgor Archwilio

Mae'r Cydbwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd annibynnol i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a fframweithiau a rheoli, gan gynnwys adroddiadau ariannol, prosesau llywodraethu blynyddol a chanfyddiadau archwiliadau mewnol ac allanol.

Yn ystod dau ymgyrch recriwtio (cychwynnodd un tua diwedd y flwyddyn ariannol flaenorol) penodwyd dau aelod newydd o'r pwyllgor. Mynychodd David Macgregor ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf 2023 a bu Julie James yn ei chyfarfod cyntaf ym mis Mawrth 2024. Ymunon nhw â Kate Curran (Cadeirydd), Farhan Shakoor a Brian Jones, sy'n golygu bod y pwyllgor yn llawn, gan sicrhau gwytnwch i alluogi adolygiad a her briodol ym mhob cyfarfod.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod ffurfiol yn ystod 2023/2024 a bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar y canlynol:

- **Rheoli Risg** – lle rhoddodd y pwyllgor sylw arbennig i gofrestrau risg SCHTh a'r heddlu. Yn dilyn trafodaethau ac argymhellion gan y pwyllgor, newidiwyd fformat yr adroddiad i'w gwneud yn haws i'r aelodau ei ddeall. Heriodd y pwyllgor hefyd feysydd o'r gofrestr risg i sicrhau bod y risgiau'n ddigon manwl a chlir.

- **Rheoli Gwybodaeth** – yn y blynyddoedd diwethaf roedd y pwyllgor wedi ystyried y maes hwn yn flynyddol, fodd bynnag, oherwydd materion sylweddol mewn perthynas ag ôl-groniadau ceisiadau rhyddid gwybodaeth, cyflwynwyd adroddiad i bob cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn galluogi'r Cydbwyllgor Archwilio i fonitro cynnydd gwelliant ac ychwanegodd lefel ychwanegol o adolygu a her.

- **Llywodraethu** – bu'r pwyllgor yn ystyried gwybodaeth mewn perthynas ag argymhellion adolygiad archwilio a mynegwyd eu pryderon mewn perthynas â'r rhai a oedd yn dal heb eu bodloni am

chwe mis neu fwy. Ar ôl cael yr wybodaeth argymhellodd y pwyllgor, lle bo'n briodol, y dylid gosod y camau gweithredu ar y gofrestr Risg Corfforaethol. Rhoddodd hyn sicrwydd i'r pwyllgor y byddai cynnydd o ran gweithredu'r argymhellion yn cael ei fonitro drwy'r gofrestr risg.

- **Adroddiadau Ariannol** – Gwnaeth y pwyllgor ystyried a chymeradwyo dwy set o ddatganiadau cyfrifon yn ystod y flwyddyn. Ym mis Gorffennaf 2023 llofnododd y pwyllgor y cyfrifon ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 ac ym mis Mawrth 2024 llofnodwyd cyfrifon 2022-23. Yn ogystal, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am faterion yn ymwneud â pharatoi'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2023-24. Cymerodd yr aelodau ddiddordeb brwd yn yr adborth mewn perthynas â pharatoi cyfrifon 2021/2022 a gofyn i swyddogion ddangos bod gwersi wedi'u dysgu i wella'r broses o baratoi cyfrifon yn y dyfodol. Yn ogystal, bu'r pwyllgor yn ystyried y cynllun ariannol tymor canolig, strategaeth rheoli'r trysorlys, y polisi cronfeydd wrth gefn a'r strategaeth gyfalaf.

- **Dadansoddiad Anghenion Hyfforddi** – yn ystod y flwyddyn cynhaliodd y pwyllgor ymarfer i adnabod a oedd unrhyw anghenion hyfforddi neu ddatblygu ar yr Aelodau. Bydd y wybodaeth yn cael ei hystyried yn ystod blwyddyn 2024-25 a gwneir trefniadau i ddarparu hyfforddiant priodol.

- **Archwilio Mewnol** – Bu'r Pwyllgor yn ystyried 22 o adroddiadau archwilio mewnol penodol yn ystod 2023-24. Fel rhan o'u rôl, roedd yr aelodau'n gallu herio'r wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau a cheisio sicrwydd lle'r oedd materion wedi'u adnabod y byddai'r gwaith adfer yn cael ei wneud i ysgogi gwelliannau. Ar adegau pan oedd materion difrifol penodol wedi'u adnabod, gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad diweddaru i'w gyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol i ddangos unrhyw gynnydd sydd wedi'i wneud. Cymerodd aelodau'r pwyllgor ddiddordeb hefyd yng nghwmpas yr adolygiadau a gofynnwyd am dalu mwy o sylw i gwmpas cychwynnol adolygiadau yn y dyfodol i sicrhau bod canlyniadau yn ychwanegu gwerth ac o fudd sefydliadol.

Yn dilyn her gadarn barhaus gan y pwyllgor, cafodd y comisiynydd lefel ychwanegol o sicrwydd gan yr aelodau annibynnol gan sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith mewn perthynas â meysydd megis trefniadau llywodraethu, trefniadau ariannol a chanfyddiadau archwilio.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Adroddiad Blynyddol y pwyllgor

## Sicrwydd Annibynnol

Yr hyn a adwaenir fel y drydedd linell amddiffyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar y Cyd, darperir sicrwydd annibynnol gan weithgarwch archwilio mewnol, gweithgarwch Archwilio Cymru ac arolygiadau annibynnol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Y brif rôl yw sicrhau bod y swyddogaethau, y polisïau a'r fframweithiau yn gweithredu'n effeithiol. Maent yn darparu gwerthusiad, trwy ddull sy'n seiliedig ar risg, o effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol i'r comisiynydd, y prif gwnstabl a'r uwch reolwyr.




## Archwiliad Mewnol

Roedd cynllun archwilio y cytunwyd arno ar waith gyda'r Comisiynydd ac archwilwyr mewnol y Prif Gwnstabl, TIAA. Maent yn targedu adnoddau at feysydd o risg a phryder a nodwyd gan y comisiynydd a'r prif gwnstabl.

Yn ystod 2023-24, cynhaliwyd 22 o archwiliadau mewnol penodol, roedd 13 yn adolygiadau sicrwydd mewnol o Heddlu Dyfed-Powys a oedd yn cynnwys adolygiadau o:

- Adfer ar ôl trychineb TGCh
- Parhad busnes
- Rheoli AD
- Ystadau



Hefyd, yn ystod y flwyddyn roedd naw adolygiad o waith cydweithredol yn cael ei wneud rhwng holl heddluoedd Cymru ac yn cynnwys adolygiadau o'r canlynol:

- Rheoli fflyd
- Cyflogres
- Dyledwyr a chredydwyr

Braf oedd nodi bod deg adolygiad wedi derbyn sicrwydd sylweddol, 11 adolygiad wedi derbyn sicrwydd rhesymol a dim ond un wedi derbyn sicrwydd cyfyngedig. Mae pob adolygiad yn cael ei ystyried a'i herio yn y Cydbwyllgor Archwilio, a rhoddodd hyn sicrwydd ychwanegol i'r Comisiynydd.

## Archwiliadau Allanol

Archwilio Cymru yw'r archwilwyr allanol penodedig i'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl. Bob blwyddyn, maent yn rhoi sylwadau ar agweddau ariannol ar lywodraethiant corfforaethol, gan gynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, systemau sefydlog ariannol, systemau rheolaeth ariannol mewnol a safonau ymddygiad ariannol, twyll a llygredigaeth.

Gwnaed cryn dipyn o waith mewn perthynas â chyfrifon 2022-23 ac ym mis Mawrth 2024 cwblhawyd yr archwiliad o'r cyfrifon. Cyflwynodd Archwilio Cymru farn archwilio ddiamod i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl mewn perthynas â chyfrifon 2022-23, ac roedd yn fodlon bod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn modd darbodus, effeithiol ac effeithlon. Cwblhawyd cyfrifon statudol Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl ar 15 Mawrth 2024.

## Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS) yn asesu Heddlu Dyfed-Powys yn annibynnol. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Comisiynydd ystyried ac ymateb i bob un o'r asesiadau hyn.

Ym mis Tachwedd 2023, derbyniodd Heddlu Dyfed-Powys adroddiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar arolygiad effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) 2023-2025. Yn yr adroddiad, ystyriwyd bod yr heddlu yn ddigonol yn erbyn chwe maes ac roedd angen ei wella yn erbyn dau faes arall, mae'r tabl isod yn amlygu'r dyfarniadau:

| Maes | Canlyniad |
|---|---|
| Pwerau'r heddlu a thrin y cyhoedd yn deg ac yn barchus | Digonol |
| Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, a lleihau bregusrwydd | Digonol |
| Ymateb i'r cyhoedd | Digonol |
| Ymchwilio i droseddau | Digonol |
| Rheoli pobl a ddrwgdybir a throseddwyr | Digonol |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth yr heddlu | Digonol |
| Diogelu pobl fregus | Angen gwelliant |
| Adeiladu, cefnogi ac amddiffyn y gweithlu | Angen gwelliant |

Yn ei ymateb nododd y Comisiynydd ei siom ynghylch rhywfaint o'r adborth llai ffafriol. O bryder arbennig i'r Comisiynydd oedd yr heriau a amlygwyd o fewn y maes bregusrwydd, o ystyried bod hyn yn ymgorffori un o flaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Roedd yn amlwg o oruchwyliaeth y Comisiynydd nad yw'r gofyniad i wella yn ganlyniad i ddiffyg gweithredu neu ymdrech gan y rhai sy'n arwain ac yn gweithio yn y maes busnes, ond yn hytrach o ddiffyg cymorth, ffocws ac adnoddau gan y sefydliad yn gyffredinol.

Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i'r Comisiynydd bod camau sylweddol wedi'u cymryd ac yn parhau i gael eu cymryd tuag at unioni hyn ers cyfnod gwaith maes yr arolygiad. Roedd y Comisiynydd wedi'i galonogi gan nodi arferion addawol mewn perthynas â defnydd yr heddlu o ddata i reoli a deall ei gyllid. Mae hyn yn dod yn fwyfwy hanfodol - er bod yr adroddiad yn awgrymu bod yr heddlu mewn sefyllfa ariannol iach, ni ellir diystyru'r heriau parhaus i sicrhau bod hyn yn parhau. Ers cyhoeddi'r adroddiad arolygu, mae'r comisiynydd wedi cael diweddariad cynhwysfawr gan y Prif Gwnstabl yn manylu ar y gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â phob un o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan Arolygiaeth Ei Fawrhydi. Bydd monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu yn parhau drwy'r Bwrdd Plismona a'r Cydbwyllgor Archwilio.

Mae ymateb llawn y Comisiynwyr i arolygiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar gael ar wefan y comisiynydd [https://archive.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11941/2024-01-11-response-to-peel-report-cym.pdf (dyfedpowys-pcc.org.uk)](https://archive.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/11941/2024-01-11-response-to-peel-report-cym.pdf)

Rhwng mis Ebrill 2023 a mis Mawrth 2024, ymatebodd y Comisiynydd i 15 o adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi ar wahân, ac mae pob un ohonynt i'w gweld ar wefan y Comisiynydd: [https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/perfformiad/hmicfrs/](https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/perfformiad/hmicfrs/)

### Ebrill 2023

- Arolygiad o ba mor dda y mae'r heddlu yn mynd i'r afael â thrais difrifol ymhlith ieuenctid

### Mai 2023

- Arolygiad o ba mor dda y mae'r heddlu a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) yn mynd i'r afael â cham-drin a chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein

### Mehefin 2023

- Cyflwr plismona: Asesiad Blynyddol Plismona yng Nghymru a Lloegr 2022

### Gorffennaf 2023

- Perfformiad yr heddlu: Getting a grip
- Rheoli troseddwyr terfysgol yn sgil ymosodiadau terfysgol

### Medi 2023

- Arolygiad o ba mor effeithiol yw heddluoedd o ran defnyddio drylliau

### Hydref 2023

- Hil a phlismona - Adolygiad o arweinyddiaeth a threfniadau llywodraethiant gwasanaeth yr heddlu ar gyfer materion yn ymwneud â hil
- Hil a phlismona: Arolygiad o wahaniaethau hiliol ym mhenderfyniadau cyfiawnder troseddol yr heddlu
- Atal lladdiadau: Arolygiad o gyfraniad yr heddlu at atal lladdiadau.

### Tachwedd 2023

- PEEL 2023–25 - Arolygiad o Heddlu Dyfed-Powys

### Rhagfyr 2023

- Diwallu anghenion dioddefwyr yn y system cyfiawnder troseddol
- Uwch gŵyn y Gynghrair Cyfiawnder Troseddol - Adran 60
- Camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp

### Chwefror 2024

- Effaith recriwtio a dethol ar y system cyfiawnder troseddol.
- Arolygiad ar y cyd o'r ymateb amlasiantaeth i gam-drin ac esgeuluso plant ym Mhowys

## Panel yr Heddlu a Throseddu

Mae gan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gyfrifoldeb statudol am graffu ar waith y comisiynydd a'i gefnogi i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Yn ystod 2023/24, parhaodd y panel i gyflawni'r cyfrifoldeb hwn gan ganolbwyntio'n benodol ar y canlynol:

- Craffu ar braesept yr heddlu
- Craffu ar sut mae'r comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif
- Craffu ar berfformiad y comisiynydd yn erbyn y Gorchymyn Protocol Plismona
- Craffu perfformiad y comisiynydd yn erbyn amcanion Cynllun Busnes 2023-24

Nododd y panel hefyd ddwy flaenoriaeth yn ystod 2023/24 a oedd yn ymwneud â swyddogaeth statudol y panel. I hwyluso cyflawni'r blaenoriaethau sefydlwyd dau is-grŵp.

Cyflwynwyd blaenoriaeth un, sef craffu ar braesept yr heddlu, gan yr is-grŵp cyllid a oedd yn ceisio sicrhau bod cyllid y Comisiynwyr yn cael ei reoli'n briodol a bod pobl Dyfed-Powys yn cael gwerth am arian o braesept yr heddlu. Adolygodd yr is-grŵp y cyfrifon diwedd blwyddyn a holi'r Comisiynydd yn gyhoeddus amdanynt. Cafodd yr is-grŵp sesiynau briffio gan y Comisiynydd a'r Prif Swyddog Ariannol ar y galwadau ar statws ariannol yr heddlu, cynhaliodd ymchwil annibynnol a chynhaliodd wrandawiad cyhoeddus i ystyried y praesept arfaethedig. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a chraffu trylwyr, cymeradwyodd y panel gynnydd y Comisiynydd o 6.2% yn y praesept.

Ystyriwyd yr ail faes blaenoriaeth gan yr is-grŵp perfformiad ac roedd yn ymwneud â sut mae'r Comisiynydd yn perfformio ei ddyletswyddau statudol i gynnal heddlu effeithlon ac effeithiol. Amcan yr is-grŵp oedd cael dealltwriaeth lawnach o sut mae'r Comisiynydd wedi gallu dylanwadu ar ba mor effeithlon ac effeithiol yw Heddlu Dyfed-Powys, a'r hyn y gallai'r Comisiynydd ei wneud i wella pethau ymhellach. Bu'r is-grŵp yn ystyried gwybodaeth benodol mewn perthynas â thair prif thema, sef effaith adnoddau a llesiant ar berfformiad, effaith ymgysylltu â'r cyhoedd a hygyrchedd ar berfformiad a pha mor effeithiol y mae blaenoriaeth y Cynllun Heddlu a Throseddu o atal niwed wedi'i gweithredu a beth sydd wedi'i gyflawni. Cynhaliodd yr is-grŵp ymchwil annibynnol hefyd gan gynnwys edrych ar enghreifftiau o arfer gorau o fannau eraill a daeth i'r casgliad bod y Comisiynydd wedi bodloni'r gofyniad i gynnal heddlu effeithlon ac effeithiol.

Yn ogystal â'r blaenoriaethau hyn, bu'r panel yn craffu ar yr holl benderfyniadau allweddol a wnaed gan y Comisiynydd, gan gynnwys y rheini mewn perthynas â gwasanaethau a gomisiynir. Ymgymerodd y panel hefyd â'u swyddogaeth statudol o ymdrin â chwynion a wnaed yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Cafwyd dwy gŵyn a gafodd eu hystyried yn unol â phrotocol cwynion y panel. Penderfynwyd peidio â chymryd unrhyw gamau pellach mewn perthynas â'r naill na'r llall.

I gael rhagor o fanylion am y Panel Heddlu a Throseddu a'u gweithgarwch craffu, ewch i:

[Panel Heddlu a Throseddu Dyfed Powys (https://www.panelheddluathroseddudp.cymru/cartref/)](https://www.panelheddluathroseddudp.cymru/cartref/)



## Tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig

Rhoddodd y Comisiynydd, ynghyd â'r tri Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu arall yng Nghymru, dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig Seneddol ym mis Tachwedd 2023.

Roedd y Pwyllgor yn dymuno archwilio sut yr oedd pob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn cyflawni ei ddyletswyddau fel cynrychiolydd etholedig sy'n gyfrifol am lywodraethu'r heddlu, goruchwylio'r heddlu a chomisiynu gwasanaethau cyfiawnder troseddol ar gyfer ardal yr heddlu, ynghyd â'u hymgysylltiad â Llywodraethau'r DU a Chymru.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r berthynas â'r Prif Gwnstabliaid. Disgrifiodd y Comisiynydd y rôl fel rôl arweiniol, gan bontio cymunedau â'u gwasanaethau heddlu priodol a phwysleisiodd bwysigrwydd caniatáu i ddioddefwyr a goroeswyr gael llais a mynediad i'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ehangach. Darparodd y Comisiynydd enghreifftiau i'r pwyllgor ar sut y mae'n rhyngweithio â'r Prif Gwnstabl er enghraifft drwy gyfarfodydd Bwrdd Plismona ffurfiol lle mae'r Comisiynydd yn dal y Prif Gwnstabl i gyfrif. Darparwyd tystiolaeth bellach ar sut y cytunodd pob un o'r pedwar Comisiynydd y gallai fod gwell cyfle i gydweithio ledled Cymru, ond ni fyddai cael un heddlu unigol o fudd i Gymru.



# Bod yn gynaliadwy

## Cynaliadwyedd

Mae cynaliadwyedd yn werth allweddol i'r Comisiynydd. Grŵp Cynaliadwyedd Dyfed-Powys sy'n goruchwylio'r gwaith, sy'n parhau i weithredu a datblygu. Mae'r grŵp yn monitro gwaith yr heddlu i lywio agenda cynaliadwyedd yn ei blaen sy'n cyd-fynd â strategaeth blismona Llywodraeth Cymru a Chymru Gyfan, i sicrhau bod y sefydliad yn lleihau ei ôl troed carbon ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Mae'r canlynol ymhlith y mentrau allweddol:

- Agorodd prosiect adeiladu mawr yn Nafen ym mis Mai 2023 – ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Rhagoriaeth Adeiladu Cymru ar gyfer Prosiect Adeiladu'r Flwyddyn ac enillodd brosiect Cyfalaf Plismona gorau Grŵp Cenedlaethol Ystadau'r Heddlu gwerth dros £5 miliwn. Mae'r cyfleuster wedi cyflawni'r canlynol:
  - Adeilad cwbl drydanol sy'n defnyddio dim tanwydd ffosil
  - Cynhyrchiad trydan ffotofoltäig 60kW
  - Adeilad â Sgôr Ynni Categori A
  - Sgôr BREEAM ardderchog
  - Dŵr poeth ar y pwynt defnydd drwyddi draw
  - Canfod presenoldeb ar gyfer goleuadau, gwresogi ac oeri i leihau'r angen
  - 18 o bwyntiau gwefru cerbydau trydan – i'w defnyddio gan staff gweithredol ac ymwelwyr
  - Dŵr llwyd ar gyfer fflysio pob toiled
  - Pwyntiau gwefru beiciau trydan
  - Storfa feiciau, loceri, cawodydd, cyfleusterau ystafell sychu
  - Gwelliant ecolegol yn ei le, cytundeb cynnal a chadw yn ei le gyda Thîm Ecoleg Cyngor Sir Caerfyrddin dros ddeng mlynedd
- Mae 'Mai Di-dor' yn parhau gyda dolydd blodau gwyllt yn cael eu hybu gyda llwybrau cerdded i staff yn y pencadlys. Yn ogystal, mae cynefinoedd adar a blychau wedi'u gosod yn Rhydaman.
- Mae monitro cyfleustodau lleol yn parhau ar lefel gronynnog fesul safle i gynorthwyo i leihau galw a defnydd, mae mentrau clir a gwelliannau a wnaed yn dangos arbediad ynni sylweddol ar yr holl ddefnydd o gyfleustodau ar draws yr ystâd.
- Estynnwyd seilwaith gwefru fflyd cerbydau trydan ymhellach ar draws safleoedd tiriogaeth ehangach, pencadlys a phrosiectau adeiladu newydd.
- Goleuadau LED yn cael eu hehangu ar draws ardal yr heddlu i gyd-fynd â gwaith paratoi gosod paneli ffotofoltäig pellach, gwaith sy'n cael ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

- Mae'r mentrau buddsoddi cyfalaf ar draws yr ystâd i ddatgarboneiddio ei weithrediad yn parhau gyda phrosiectau insiwleiddio yn cael eu darparu ar draws ein hadeiladau.
- Mae strategaeth a chynllun gweithredu cynaliadwyedd a datgarboneiddio Cymru Gyfan a roddwyd ar waith yn 23/24 yn cael eu defnyddio i ysgogi newid.
- Olrhain datgarboneiddio – Adrodd ar garbon sero-net – templed gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio gan heddluoedd Cymru gyfan.
- Mae Dyfed-Powys yn aelodau o grŵp plismona Cymru Gyfan ar gyfer Gwefru cerbydau trydanol sy'n llywio darpariaeth gyffredin a chyson ar draws y rhanbarth,
- Caffael cynaliadwy a gefnogir gan WRAP Cymru – bydd cynaliadwyedd wedi'i wreiddio drwy broses ein holl weithgareddau caffael yn y dyfodol ac mae lleiafswm o 10% wedi'i ddyrannu i sgorio wedi'i alinio â chost ac ansawdd. Mae hyn bellach yn cyd-fynd â dull Cymru gyfan ac yn darparu cysondeb i'r holl gaffael ar draws plismona yng Nghymru.

Yn ogystal â'r elfen gynaliadwyedd sy'n ystyried yr amgylchedd, ymrwymodd y Comisiynydd yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu y bydd yn annog ac yn galluogi gwaith gyda'r Coleg Plismona, y gwasanaeth heddlu ehangach, partneriaid a'r byd academaidd, i nodi a rhannu dysgu am fygythiadau presennol. Yn ogystal, ymrwymodd y Comisiynydd y byddai'n hybu effeithlonrwydd drwy gydweithio a dysgu. I gynorthwyo i gyflwyno'r rhain penodwyd Cydlynydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth.

## Cydlynydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth

Ymunodd y comisiynydd â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i gyflogi Cydlynydd Ymchwil Plismona sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth am gyfnod peilot o ddwy flynedd. Dechreuodd Dr Rhiannon Sandy yn y rôl ar 5 Chwefror 2024, ac mae'n dod â chyfoeth o brofiad o'r byd academaidd a gwaith ar raglen gradd plismona proffesiynol.

Y nod cyffredinol yw gwella'r ymagwedd at blismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, drwy ehangu partneriaethau rhwng sefydliadau academaidd lleol, Heddlu Dyfed-Powys a swyddfa'r comisiynydd. Mae'r swydd yn ceisio annog trosi ymchwil academaidd i arfer lleol a gwreiddio plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth i blismona gweithredol o ddydd i ddydd trwy hyfforddiant, datrys problemau a phrosiectau.

Mae'r Comisiynydd wedi gallu gwireddu ei uchelgais drwy greu'r swydd hon. Mae cydweithredu â sefydliadau addysg uwch yn galluogi'r swyddfa i sicrhau bod y dystiolaeth orau sydd ar gael yn cael ei defnyddio i lywio a herio blaenoriaethau, arferion a phenderfyniadau plismona. Gobeithio y bydd y gwaith fydd yn cael ei wneud gan ddeilydd y swydd yn hwyluso gwelliannau pellach i sicrhau diogelwch yn ardal Dyfed-Powys.

Er mai megis dechrau y mae'r rôl, mae wedi bod yn amlwg bod awydd clir o fewn Dyfed-Powys i ddefnyddio ymchwil academaidd i wella ffyrdd o weithio a phlismona. Nodwyd yn gynnar y bydd daearyddiaeth a demograffeg Dyfed-Powys yn creu heriau wrth gymhwyso ymchwil a gynhaliwyd mewn mannau eraill ond bydd gwaith yn cael ei wneud gyda phartneriaid academaidd i feithrin ymchwil sy'n cyd-fynd ag anghenion yr heddlu.

Dywedodd y comisiynydd, "Fy nyhead hirdymor yw y bydd y gwaith hwn yn arwain at gydnabod ardal Heddlu Dyfed-Powys fel canolfan ragoriaeth plismona sy'n seiliedig ar dystiolaeth i Gymru a thu hwnt, ac mae'n wych cael cydweithio â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ar hyn."

# Ymgysylltu'n Eang



Mae'r comisiynydd yn croesawu cyfranogiad cymunedol mewn plismona ac yn ceisio sicrhau bod pobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ardal yr heddlu yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau sydd o bwys iddynt.

Drwy gydol 2023-24 bu'r comisiynydd a'i dîm yn ymgysylltu â chymunedau lleol ac yn ymgynghori ar faterion plismona pwysig.

## Sioeau a Digwyddiadau Haf

### ■ Eisteddfod yr Urdd

Mynychodd cynrychiolwyr o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys Eisteddfod yr Urdd yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin a gynhaliwyd rhwng 29 Mai a 3 Mehefin 2023.

Mae Eisteddfod yr Urdd yn un o wyliau ieuenctid mwyaf Ewrop a gan ei bod yn cael ei chynnal o fewn ardal yr heddlu, roedd yn gyfle i wrando ar farn a phrofiadau pobl ifanc er mwyn iddynt gael cyfle i ddylanwadu ar benderfyniadau.

Mae gan bobl ifanc lais canolog ar ddyfodol plismona, ac roedd y digwyddiad hwn yn bwysig i gefnogi a hyrwyddo ymgyrch recriwtio'r Fforwm Ieuenctid. Roedd hyn hefyd yn gyfle i gynrychiolwyr o'r Fforwm Ieuenctid fynychu'r eisteddfod yn ystod yr wythnos i hyrwyddo ymgynghoriad 'Y Sgwrs' drwy gynnal gweithgareddau ymgysylltu. Maes ffocws penodol Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu Dyfed-Powys oedd rhoi cyfle i bobl ifanc rannu eu barn a'u profiadau o faterion iechyd meddwl, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, a throseddau ieuenctid.

Cyn yr eisteddfod, darparodd y Comisiynydd arian i dîm cyfiawnder ieuenctid Sir Gaerfyrddin weithio gyda phlant rhwng 8 a 17 oed, sydd mewn perygl o droseddu neu sydd wedi cyflawni troseddau ar brosiect creadigol a gynhaliwyd gan Eisteddfod yr Urdd. Nod Prosiect 23 oedd rhoi cyfle i bob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan a datblygu sgiliau creadigol trwy themâu megis hanes lleol, chwedlau a pherthyn.

Cyflogodd y prosiect ymarferwr creadigol i weithio'n agos gyda phobl ifanc i greu murluniau a gwaith celf ar gyfer meinciau yn darlunio treftadaeth leol Sir Gaerfyrddin.

Roedd y meinciau i'w gweld yn Eisteddfod yr Urdd drwy'r wythnos i ymwelwyr a chystadleuwyr eu defnyddio tra yn yr ŵyl.



### Sioe Sir Benfro

Ym mis Awst 2023 aeth cynrychiolwyr o SCHTh i Sioe Sir Benfro yn Hwlffordd. Roedd yn gyfle i ymgysylltu â'r cyhoedd i hyrwyddo gwaith y comisiynydd.

Yn yr un modd ag Eisteddfod yr Urdd gofynnwyd i'r cyhoedd gwblhau arolwg byr i ddeall eu canfyddiad o blismona a'r cynnydd a wnaed tuag at y canlyniadau a osodwyd o dan flaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu 2021-25 yr heddlu. Roedd yn braf nodi bod 87% o bobl yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn eu hardal gyda'r gweddill yn nodi nad oeddent yn teimlo'n anniogel nac yn ddiogel, ni ddywedodd neb eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anniogel iawn.

Gofynnwyd i'r cyhoedd a oeddent yn ymwybodol o'r hyn yr oedd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol amdano.

Er bod y canlyniadau'n amlygu bod llawer o ymatebwyr yn meddwl bod yr heddlu yn effeithiol neu'n effeithiol iawn mewn meysydd, mae gwaith i'w wneud o hyd i sicrhau bod mwy o unigolion yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol yn hytrach na datgan eu bod yn ansicr neu fod yr heddlu'n aneffeithiol neu'n aneffeithiol iawn. Bydd canlyniadau'r arolwg hwn ac eraill a gynhelir yn ystod y flwyddyn i ddod yn gymorth i lunio meysydd gwaith ar gyfer ardal Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i ysgogi gwelliannau a gallent fwydo i mewn i ddatblygu blaenoriaethau ar gyfer y Cynllun Heddlu a Throseddu newydd.

## Uchafbwyntiau Ymgysylltu Cymunedol Eraill

Mae'r comisiynydd yn cynnal Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned rheolaidd lle mae'n cyfarfod â phartneriaid allweddol, darparwyr gwasanaethau ac aelodau'r cyhoedd ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Rhennir rhai enghreifftiau isod:

### Ymgysylltu â Chymuned Ceredigion

Ymwelodd y comisiynydd ag Aberystwyth lle cafodd gyfle i gwrdd â myfyrwyr a chynrychiolwyr o Brifysgol Aberystwyth i drafod materion sydd o bwys i fyfyrwyr a phobl ifanc. Cyfarfu'r comisiynydd hefyd â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr i drafod yr heriau y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu wrth ddarparu cymorth i'w myfyrwyr, a beth yw'r pryderon brys o ran sicrhau diogelwch a lles myfyrwyr.

Cyfarfu'r Comisiynydd hefyd â rhai darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd ac ymwelodd â Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a'u hystafelloedd synhwyraidd newydd sbon. Ymwelodd hefyd â Gwasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, sy'n darparu gwasanaethau cymorth camddefnyddio sylweddau i oedolion, a Chanolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) New Pathways yn Bow Street i drafod yr adnoddau a'r cymorth sydd ar gael yn y ganolfan.




Roedd yr ymweliad ag Aberystwyth yn cyd-daro ag Wythnos Plismona Bro a chyfarfu'r comisiynydd â swyddogion o dîm Plismona Bro Aberystwyth i drafod materion lleol a sut maent yn ymgysylltu ag amrywiol grwpiau a chymunedau yn Aberystwyth i sicrhau gweledigaeth ac ymgysylltu effeithiol.

## ■ Ymgysylltu â Chymuned Sir Benfro








Gwahoddwyd y Comisiynydd i arddangosfa a digwyddiad lansio prosiect celf graffiti fel rhan o Wythnos Ffocws Gwleidyddiaeth, Democratiaeth ac Actifiaeth Coleg Sir Benfro. Roedd y digwyddiad yn dathlu byrddau celf graffiti a grëwyd gan bobl ifanc o bob rhan o Sir Benfro, sy'n tynnu sylw ar y gwelliannau yr hoffai'r bobl ifanc eu gweld yn eu cymunedau lleol. Cefnogwyd y prosiect graffiti gan gronfa profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACES) pob un o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru a'i nod oedd rhoi ymdeimlad o reolaeth i bobl ifanc yn yr ardal a theimlo'n fwy cysylltiedig â'u cymunedau drwy sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, a thrwy hynny gynyddu eu gwytnwch a lles, ac i arfogi penderfynwyr yn well i fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn eu cymunedau.

Ymwelodd y Comisiynydd hefyd â'r Hive, yn Hwlffordd, lle'r nod yw cefnogi pobl ifanc ward y Garth a'r gymuned leol yn Hwlffordd. [www.facebook.com/pages/Garth-Youth-Community-Project-Hive/152516164901135](www.facebook.com/pages/Garth-Youth-Community-Project-Hive/152516164901135)

Mae'r prosiect yn cynnig amgylchedd diogel i bobl ifanc gyfarfod, chwarae, dysgu ac addysgu eu hunain trwy eu helpu i dyfu a datblygu'n oedolion sy'n aelodau cadarnhaol o gymdeithas gan wella eu cyfleoedd bywyd yn y dyfodol yn barhaus. Roedd hefyd yn gyfle i'r Comisiynydd weld y 'Cruyff Court' wedi'i gwblhau, cyfleuster newydd sbon a adeiladwyd mewn partneriaeth â Sefydliad Cruyff Sir Benfro ac a ariannwyd yn rhannol gan y Comisiynydd a phartneriaid.

Ymwelodd y Comisiynydd â sesiwn Boxwise yn Noc Penfro i wobrwyo'r hyfforddwr, Chris McEwen â thystysgrif cydnabyddiaeth am ei holl waith caled yn y gymuned. Mae BOXWISE yn rhaglen ymyrraeth focsio lwyddiannus ar gyfer pobl ifanc sy'n helpu i feithrin hyder, gwella eu hiechyd a'u lles, a gwneud y mwyaf o bob cyfle sydd ar gael iddynt yn ardal Dyfed-Powys.



## Ymgysylltu â Chymuned Powys

Cyfarfu'r comisiynydd â'r Cynghorydd Joy Jones, cynghorydd sir ac eiriolwr cymunedol a hwylusodd ymweliad â chegin gymunedol y Drenewydd sy'n darparu lle diogel a phryd o fwyd cynnes i lawer o bobl o'r gymuned leol. Cyfarfu'r comisiynydd hefyd ag aelodau o staff yn Credu, sefydliad sy'n gweithio i gefnogi aelodau teuluoedd a ffrindiau ar draws Powys sy'n gofalu am rywun sy'n sâl neu'n anabl, a Phonthafren, elusen iechyd meddwl ar gyfer pobl sy'n profi problemau iechyd meddwl neu sy'n gymdeithasol ynysig neu eithriedig.

Aeth y Comisiynydd hefyd i Aberhonddu a'r ardaloedd cyfagos lle ymwelodd ag un o'i ddarparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd, Kaleidoscope, sef clinig cyffuriau methadon sy'n darparu cymorth a chefnogaeth i bobl sy'n camddefnyddio alcohol, yn camddefnyddio cyffuriau ac yn gaeth i gyffuriau. Heddiw mae Kaleidoscope yn cynnal prosiectau camddefnyddio sylweddau ledled Cymru ac yn cefnogi mwy na 10,000 o bobl y flwyddyn.








## Ymgysylltu â Chymuned Sir Gaerfyrddin

Aeth y comisiynydd i Fynwent Hen Heol yn Llanelli i ddathlu 50 mlynedd o brosiectau gwneud iawn â'r gymuned gyda Gwasanaeth Prawf Carchardai Ei Fawrhydi. Mae'r Comisiynydd wedi cefnogi'n gryf y fenter hon sy'n gwasanaethu fel cosb i droseddwyr ac fel cynllun adsefydlu.

Tra yn Llanelli cyfarfu hefyd â Chlwb Bocsio Stallion i drafod eu cynlluniau ar gyfer ehangu yn y gymuned a sut y maent yn bwriadu dargyfeirio ieuenctid oddi wrth droseddu trwy fynychu dosbarthiadau bocsio.

Yn Rhydaman, cyfarfu'r Comisiynydd â'r Tîm Plismona Bro lleol i drafod heriau lleol a gwrando ar bryderon cymunedol a godwyd, ac yna aeth i ymweld â Coaltown Coffee Roasters i drafod eu gwaith a'u cynlluniau i roi yn ôl i'r cymunedau.

## Digwyddiadau Drysau Agored




Cynhaliodd y comisiynydd gyfres o ddigwyddiadau Drysau Agored ar 15 ac 16 Tachwedd 2023 ym Mhencadlys yr Heddlu, Caerfyrddin. Roedd y digwyddiadau yn agored i gynrychiolwyr cymunedol Dyfed-Powys gan gynnwys cynghorwyr sir, cynghorwyr tref a chymuned, Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Senedd, gyda'r nod o feithrin ymdeimlad dyfnach o dryloywder ac ymddiriedaeth rhwng ein heddlu a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Roedd hefyd yn gyfle i ofyn cwestiynau, rhannu mewnwelediadau a chymryd rhan mewn trafodaethau adeiladol gyda'n swyddogion.

Roedd y gyfres o ddigwyddiadau'n cynnwys ystod o fewnbynnau gan unedau arbenigol ac adrannau o'r heddlu, a gynlluniwyd i roi dealltwriaeth gynhwysfawr i gynrychiolwyr cymunedol o'r gwaith helaeth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod ein cymunedau'n parhau'n ddiogel rhag niwed. Darparodd cynrychiolwyr yr heddlu fewnbynnau ar feysydd allweddol o blismona, gan gynnwys perfformiad yr heddlu, gweithrediadau arbenigol, rhaglen trais difrifol a throseddau cyfundrefnol, timau plismona bro a'r ganolfan atal ganolog. Daeth y digwyddiadau i ben yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu, i ddangos sut mae'r seilwaith teledu cylch cyfyng yn cael ei weithredu i gefnogi swyddogion ar lawr gwlad.





## ■ Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi

Cynhaliwyd wythfed Cynhadledd Dydd Gŵyl Dewi blynyddol y Comisiynydd ar 1 Mawrth 2024 fel digwyddiad hybrid ar-lein ac ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Caerfyrddin. Y maes ffocws allweddol eleni oedd cydnabod bregusrwydd troseddwyr.

Rhoddodd y gynhadledd gipolwg ar sut mae amrywiaeth o sefydliadau a darparwyr gwasanaethau cymorth yn gweithio i ddeall pa mor fregus yw troseddwr; sut maent yn nodi sefyllfaoedd lle gallai troseddwyr fod mewn perygl o gael eu gormesu o fewn y system cyfiawnder troseddol; a sut maent yn cefnogi rhoi mesurau diogelu priodol ar waith, i amddiffyn unigolion bregus rhag niwed. Drwy fynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n cyfrannu at ymddygiad troseddol trwy nodi a deall gwendidau, mae'n caniatáu ar gyfer ymyriadau effeithiol wedi'u targedu a bydd yn helpu i leihau'r risgiau o aildroseddu a gormesu.

**Ymhlith siaradwyr gwadd y gynhadledd oedd:**

- Michelle John, Cyfarwyddwr Cymorth Parental Education Growth Support (PEGS) - Adnabod ac Ymateb i Gamdrin Rhieni Gan Blant.

  Mae PEGS yn helpu rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid sy'n profi camdrin rhieni gan blant trwy ddarparu gwasanaethau cymorth, hyfforddi gweithwyr proffesiynol rheng flaen a gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol a rhanbarthol i ddatblygu a gweithredu polisïau.

- Rebecca Zerk ac Elize Freeman, Canolfan Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol ym Mhrifysgol Aberystwyth - Profiadau dioddefwyr hŷn o gam-drin teuluol.

  Mae menter Dewis Choice sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Oedran, Rhywedd a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi darparu

cymorth dwys i unigolion, 60 oed a hŷn, i wneud dewisiadau gwybodus am: opsiynau diogelwch, cyfiawnder sifil, troseddol ac adferol ac wedi darparu cymorth llesiant mewn adferiad.

- Mike Wilkinson, Dirprwy Gyfarwyddwr New Pathways - Ymateb i Ymddygiad Rhywiol Problemus a Niweidiol y mae Plant a Phobl Ifanc yn ei Arddangos.

  New Pathways yw'r darparwr cymorth trais rhywiol mwyaf yng Nghymru, gyda 30 mlynedd o brofiad o ddarparu cymorth therapiwtig arbenigol i oedolion a phlant sy'n cael eu heffeithio gan drawma treisio, ymosodiad rhywiol neu gam-drin rhywiol, gan gefnogi bron i 4,000 o bobl bob blwyddyn.

- Victoria Harris, Prif Swyddog Prawf Cynorthwyol, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF - Ymagwedd Strategol at Reoli Troseddwyr a'r Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd. Mae'r nod o leihau nifer y menywod yn y system cyfiawnder troseddol yn cael ei gefnogi ymhellach gan y Glasbrint ar gyfer Troseddwyr Benywaidd yng Nghymru, gyda'r nod o greu atebion cynaliadwy yn y gymuned i gadw menywod a chymunedau'n ddiogel ac osgoi ymddygiad troseddol.

- Gemma Humphreys, Rheolwr Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru. Ymddiriedolaeth Nelson - Gwasanaethau Troseddwyr Benywaidd ac Ymagwedd Canolfannau i Ferched.

  Mae Ymddiriedolaeth Nelson yn elusen y mae ei hymagwedd yn seiliedig ar drawma, yn berthynol ac yn canolbwyntio ar adferiad gydol oes. Maent yn cynnig triniaeth adsefydlu breswyl a gwasanaethau menywod i bobl y mae dibyniaeth ac anfanteision lluosog yn effeithio arnynt.

**Yn dilyn y gynhadledd, dywedodd y comisiynydd:**

> *"Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o droseddwyr yn aml yn ddioddefwyr eu hunain, a allai fod wedi profi troseddau yn waeth na'u rhai nhw. Yn ogystal, mae nifer sylweddol ohonynt yn dioddef o broblemau iechyd meddwl. Mae deall y ffactorau sylfaenol hyn yn hanfodol wrth i ni ymdrechu i ddod o hyd i atebion mwy tosturiol ac effeithiol. Nid anfon unigolion i garchar yw'r dewis gorau bob amser; yn lle hynny, rhaid inni gydweithio i ddatblygu ymyriadau a systemau cymorth sy'n mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol ac sy'n cyfrannu at adsefydlu."*



## Ymgynghoriadau

Ymgynghorodd y Comisiynydd â'r cyhoedd, cynrychiolwyr cymunedol a Heddlu Dyfed-Powys ar yr opsiynau sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau lefel isel ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer atebion cymunedol newydd.

Mae rhwymedi cymunedol yn canolbwyntio ar y dioddefwr, gyda'r nod o roi mwy o lais i ddioddefwyr ar y modd y dylid delio â throseddwyr a chynyddu hyder y cyhoedd mewn gwarediadau y tu allan i'r llys. Gan ddefnyddio dull adferol, mae'r rhwymedi cymunedol yn cynnig rhestr o saith sancsiwn priodol y gellir eu defnyddio gan yr heddlu a'u hawdurdodi gan swyddogion ymchwilio, weithiau ar y cyd â gwarediadau eraill, mwy ffurfiol, y tu allan i'r llys. Gall sancsiynau o'r fath gynnwys atgyweirio difrod a achoswyd, cyfryngu i gefnogi'r gwaith o ddatrys anghydfodau, rhaglenni camddefnyddio sylweddau a dibyniaeth ar alcohol, ymddiheuriad llafar neu ysgrifenedig, a chyrsiau addysgol, dargyfeiriol neu reoli dicter. Mae addasrwydd yr opsiynau yn dibynnu ar natur y drosedd, oedran y troseddwr ac amgylchiadau'r sefyllfa. Defnyddir rhwymedi cymunedol amlaf gyda throseddwyr tro cyntaf, lefel isel.

Mae cefnogi dioddefwyr troseddau i wella a symud ymlaen yn rhan allweddol o rôl y comisiynydd, ac mae sicrhau bod cyfiawnder adferol, megis y rhwymedi cymunedol, ar gael yn sicrhau gwasanaethau sy'n briodol i oedran, yn gynaliadwy ac yn ystyrlon i gymunedau ardal Dyfed-Powys, gan gadw mewn cof anghenion y rhai dan sylw. Mae hyn hefyd yn cynnwys arferion adferol mewn lleoliadau addysg, teuluol a chymunedol a ddefnyddir ar gyfer mesurau ataliol a chymorth parhaus; a gwarediadau y tu allan i'r llys i ddargyfeirio oedolion ifanc o'r system cyfiawnder troseddol.



Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus rhannodd y swyddfa arolwg ar-lein â'r cyhoedd i ymateb iddo a chafwyd cyfanswm o 131 o ymatebion.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriodd y Comisiynydd yr holl ymatebion, a chytuno ar y rhestr o ddewisiadau rhwymedi cymunedol gyda'r Prif Gwnstabl.

**Maent yn cynnwys:**

1. Iawndal am y difrod
2. Rhaglenni cymorth camddefnyddio sylweddau / dibyniaeth alcohol
3. Cyrsiau addysgol, dargyfeiriol a/neu reoli dicter
4. Cwnsela ar gam-drin domestig
5. Cyfryngu
6. Ymddiheuriad llafar neu ysgrifenedig
7. Llofnodi contract ymddygiad derbyniol

Ceir rhagor o wybodaeth yma:
[www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/ymgysylltu-ar-gymuned/rhwymedi-cymunedol/](www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/ymgysylltu-ar-gymuned/rhwymedi-cymunedol/)

## Fforwm Ymgysylltu Ieuenctid

Mae ein Fforwm Ieuenctid yn darparu llwyfan i bobl ifanc ddylanwadu ar ddyfodol plismona ac atal troseddu yn eu hardaloedd lleol. Mae'r llysgenhadon ieuenctid sy'n aelodau o'r Fforwm Ieuenctid yn chwarae rhan allweddol yn ein llwyddiant: maent yn ein herio, yn ein cwestiynu, yn ein cefnogi ac yn sicrhau ein bod yn cadw ein haddewidion i blant a phobl ifanc ardal Dyfed-Powys.

Sefydlodd y Comisiynydd y Fforwm Ieuenctid am y tro cyntaf yn 2018 fel bod gan ardal Dyfed-Powys fforwm o lysgenhadon ieuenctid sy'n barod i 'ddylanwadu' a 'herio penderfyniadau', ac i sicrhau bod gan gymunedau ardal Dyfed-Powys heddlu sy'n yn diogelu plant a phobl ifanc yn llwyddiannus ac yn hybu eu lles.

Yn 2022, lansiwyd ymgynghoriad "y Sgwrs" ar gyfer pobl ifanc yn dilyn arolwg yn yr haf lle nodwyd tri maes blaenoriaeth i'r Fforwm Ieuenctid ganolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn academaidd. Gwahoddwyd pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc i gymryd rhan, i rannu eu profiadau o faterion mewn perthynas â'r tair blaenoriaeth - iechyd meddwl, bod yn ddioddefwr neu'n dyst i drosedd, troseddau ieuenctid a chamddefnyddio sylweddau.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg ar-lein a ofynnodd i bobl ifanc yn eu harddegau ac i oedolion ifanc esbonio beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio a sut y gellid gwella pethau. Cynhaliodd y Fforwm Ieuenctid grwpiau ffocws hefyd er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cyrraedd cynulleidfa eang ac i gael barn plant a phobl ifanc yn eu hardal. Mynychodd llysgenhadon ieuenctid hefyd ddigwyddiadau dros yr haf megis Eisteddfod yr Urdd a Sioe Sir Benfro i ymgysylltu â phobl ifanc ar y blaenoriaethau allweddol hyn.

O'r ymgynghoriad hwn, crëwyd Adroddiad y Sgwrs oedd yn amlygu argymhellion a wnaed gan y Fforwm Ieuenctid ar gyfer newid a gwelliannau i'w gwneud o fewn yr heddlu a'i asiantaethau partner. Cyflwynwyd yr argymhellion hyn i Gynhadledd Ieuenctid ym mis Gorffennaf 2023 a gynhaliwyd gan y Fforwm Ieuenctid, y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau o gynghorau lleol a sefydliadau ieuenctid, yn ogystal ag asiantaethau partner eu gwahodd i Barc y Scarlets, Llanelli. Ymrwymodd yr holl bartneriaid a oedd yn bresennol i wneud newid i wella'r gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

Ers y gynhadledd, mae cylch gorchwyl y Fforwm Ymgysylltu Ieuenctid wedi'i ddiweddaru a chyfeirir ato bellach fel y Cynllun Llysgenhadon Ieuenctid. Wrth symud ymlaen, bydd y Comisiynydd ac aelodau o staff SCHTh yn ymweld â'r llysgenhadon ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys i ymgysylltu â'u grwpiau a gwrando ar unrhyw faterion neu bryderon lleol sydd ganddynt.



## Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

Nod trosfwaol y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yw cydweithio i sicrhau bod dioddefwyr yn cefnogi darparu gwasanaethau rhagorol. Drwy'r fforwm, mae'r comisiynydd yn parhau i ddarparu cyfleoedd i'r rhai sydd â phrofiad bywyd i gymryd rhan mewn trafodaethau lleol am flaenoriaethau cyfiawnder troseddol ac i gyd-lunio gwasanaethau lle bo'n briodol. Mae'n hanfodol bod ymgysylltu drwy'r fforwm yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi. Isod, nodir rhai o'r gwasanaethau i ddioddefwyr a ystyriwyd gan y fforwm yn ystod y flwyddyn, y gweithgareddau a gyflawnwyd, ac yn bwysig iawn, ganlyniad eu gwaith:

### Ymgysylltu Cam-drin Domestig a Threisio a Throseddau Rhywiol Difrifol

- **Y gwasanaeth i ddioddefwyr a ystyriwyd:** Cipolwg ar y rhwystrau y mae dioddefwyr yn eu hwynebu wrth riportio troseddau cam-drin domestig a threisio a throseddau rhywiol difrifol i'r heddlu.

- **Yr hyn y gofynnwyd i aelodau'r fforwm ei wneud:** Cymryd rhan mewn ymgynghoriad lle crëwyd arolwg i ddioddefwyr cam-drin domestig a threisio a throseddau rhywiol difrifol ei gwblhau, gan esbonio'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu wrth adrodd am y troseddau hyn i'r heddlu. Yn ogystal, cynhaliwyd tri grŵp ffocws lle cafwyd sgyrsiau mwy manwl gyda dioddefwyr-goroeswyr.

- **Canlyniad:** Yn dilyn yr ymgynghoriad, crëwyd adroddiad yn cynnwys argymhellion gan SCHTh, a oedd yn amlygu ystyriaethau a wnaed gan y dioddefwyr ar newidiadau a datblygiadau y dylai'r Heddlu eu gweithredu i wasanaethu dioddefwyr cam-drin domestig a threisio a throseddau rhywiol difrifol yn well. Yna rhannwyd yr adroddiad hwn â Heddlu Dyfed-Powys a'i drafod yn y Bwrdd Plismona. Ymatebodd Heddlu Dyfed-Powys i'r argymhellion ac ers hynny mae wedi gwneud y gwelliannau drwy fwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion. Yna rhannwyd y newidiadau hyn â'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr a chyfranogwyr yr ymgynghoriad i ddangos iddynt y gwaith sydd wedi'i wneud dros y misoedd fel ymateb i'w mewnbwn i'r ymgysylltiadau hyn.



**Dyfyniad gan swyddog Heddlu Dyfed-Powys sy'n arwain yr ymgysylltu â'r fforwm:**

> *"Mae'r heddlu wedi gweithio ar y cyd â SCHTh i gasglu adborth gan ddioddefwyr, yn benodol gan y rhai sydd wedi bod yn ddioddefwyr neu sy'n byw gyda cham-drin domestig a throseddau rhywiol. Er nad ydym yn dymuno trawmateiddio dioddefwyr o'r newydd, mae'n hanfodol, lle mae pobl yn teimlo y gallant, ein bod yn rhoi llais iddynt, fel y gallwn adolygu ein gwasanaeth yn gyson o safbwynt dioddefwyr, ac rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio awgrymiadau a syniadau i wneud newidiadau lle mae hyn yn ymarferol."*

### Cynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol yn Ailgomisiynu Grwpiau Ffocws

- **Y gwasanaeth i ddioddefwyr a ystyriwyd:** Roedd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent yn dymuno darparu gwasanaeth Cynghorydd/Eiriolwr Annibynnol ar Drais Rhywiol sy'n canolbwyntio ar gyfiawnder troseddol i gynyddu diogelwch emosiynol a lles oedolion a phlant sy'n profi trais a cham-drin rhywiol.

- **Yr hyn y gofynnwyd i aelodau'r fforwm ei wneud:** Gwahoddwyd aelodau i ddigwyddiad gan y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol i drafod ailgomisiynu gwasanaeth ymgysylltu â goroeswyr. Roedd grŵp ffocws yn helpu i ymgysylltu â goroeswyr yn gynnar er mwyn rhannu'r model gwasanaeth arfaethedig a chael adborth y dioddefwr.

- **Canlyniad:** Bu'r adborth gan y grwpiau ffocws o gymorth i lunio a llywio'r fanyleb ar gyfer y gwasanaeth newydd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y math o gysylltiad â defnyddwyr gwasanaeth a'i amlder, yr hyfforddiant a'r sgiliau/rhinweddau sy'n ofynnol gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a phwysigrwydd gwasanaethau cymorth yn cydweithio'n ddi-dor i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r broses dendro bellach wedi dod i ben a bydd y gwasanaeth newydd yn cychwyn ar draws Dyfed-Powys, De Cymru a Gwent ar 1 Gorffennaf 2024.

### Gweithgaredd Ymgysylltu ynghylch Larymau Cam-drin Domestig

- **Y gwasanaeth i ddioddefwyr a ystyriwyd:** Nodi cynnyrch larwm newydd a fydd yn cael ei ddosbarthu i ddioddefwyr cam-drin domestig, dioddefwyr stelcio ac unrhyw ddioddefwr sydd mewn perygl o niwed uchel oherwydd trais o fewn Dyfed-Powys.

- **Yr hyn y gofynnwyd i aelodau'r fforwm ei wneud:** Gwahoddodd **Heddlu Dyfed-Powys** aelodau i fynychu dau gyflwyniad cynnyrch ar-lein wedi'u trefnu gan gwmnïau sy'n cyflenwi'r larymau arbenigol hyn, lle cafodd y cynnyrch a'i fanteision eu hesbonio, a gallai aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr ofyn cwestiynau a rhannu eu barn ar bob cynnyrch.

- **Canlyniad:** Ar ddiwedd y cyflwyniadau cymerwyd barn yr aelodau i ystyriaeth fel y gallai Heddlu Dyfed-Powys wneud y penderfyniad gorau ar ba gynnyrch i'w ddefnyddio yn y dyfodol i helpu i amddiffyn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

**Dyfyniad gan swyddog Heddlu Dyfed-Powys sy'n arwain yr ymgysylltu â'r fforwm:**

> *"Bu cynnwys y Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr â'r paneli cyflwyno o gymorth i ganfod yr atebion gorau sydd ar gael i'n cymunedau. Roedd yn ein galluogi i wrando ar safbwyntiau unigryw pobl â phrofiadau bywyd o'r mater dan sylw. Fe ddarparodd syniadau a meddyliau efallai nad oedden nhw wedi cael eu hystyried o'r blaen, roedd hyn yn caniatáu i ni deilwra ein hymateb i gefnogi'r bobl rydyn ni'n ceisio eu helpu yn y ffordd orau bosibl."*

Roedd gwasanaethau dioddefwyr eraill a ystyriwyd gan aelodau'r fforwm yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cymryd rhan mewn ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn canolbwyntio ar 'Tystiolaeth mewn Erlyniadau Troseddau Rhywiol'. Roedd yr ymgynghoriad yn ymwneud â chynigion dros dro ar gyfer diwygio'r ffordd y defnyddir tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol yng Nghymru a Lloegr, ac roedd gan y diwygiadau arfaethedig dri nod:

1. gwella dealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol drwy wrthsefyll effeithiau mythau treisio,
2. gwella triniaeth achwynwyr,
3. sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg.

Gwahoddwyd yr aelodau hefyd i gymryd rhan yn Ymgyrch y Gaeaf Heddlu Dyfed-Powys, sy'n canolbwyntio ar Gam-drin Domestig a Thrais sy'n Gysylltiedig ag Alcohol. Gofynnwyd i aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr am eu barn ar y troseddau hyn ac i rannu eu profiadau bywyd go iawn ohonynt. Gwahoddwyd aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr hefyd i fynychu cyfarfod arbennig o'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu, lle gofynnwyd i unigolion sydd wedi cael cymorth gan un o'r gwasanaethau a gomisiynir a ariennir gan y Comisiynydd fynychu ein cyfarfod a rhannu eu profiadau. Mae adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol i wella darpariaeth yn y dyfodol ac mae'r llwybr hwn yn caniatáu i adborth annibynnol a chyfrinachol gael ei ddarparu'n uniongyrchol i gomisiynwyr y gwasanaethau hynny. Mae Heddlu Dyfed-Powys a'i bartneriaid wedi gofyn am adborth gan y fforwm yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Anogir partneriaid cyfiawnder lleol eraill i ymgysylltu â dioddefwyr drwy'r platfform hwn.

### Ymgysylltu â Chymunedau heb Gynrychiolaeth Ddigonol

Yng Nghynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys 2021-2025, un o amcanion y Comisiynydd yw "ymgymryd â gwaith ar gyfer deall a mynd i'r afael â gwahaniaethau yn ffydd y cyhoedd yn yr heddlu ymysg grwpiau oedran, hiliau a rhywiau gwahanol, gan gynnwys oedolion ifanc. Mae hyn yn cynnwys gwella effeithiolrwydd ein mecanweithiau craffu ar gyfer helpu i feithrin ffydd a hyder, gan gynnwys sicrhau bod oedolion ifanc yn medru cymryd rhan ystyrlon mewn dal yr heddlu i gyfrif."

Yn ystod mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2023, a mis Ionawr 2024, bu SCHTh yn gweithio gydag ystod amrywiol o grwpiau cymunedol trwy sesiynau ymgysylltu i sicrhau bod cyfle cyfartal i gynrychioli ac adlewyrchu lleisiau'r cymunedau a wasanaethir gan SCHTh a Heddlu Dyfed-Powys. Ceisiodd SCHTh werthuso ymgysylltiad y cymunedau hyn â Heddlu Dyfed-Powys, sicrhau bod y cymunedau'n teimlo'n ddiogel, nodi unrhyw gyswllt â'r heddlu, a oedd unrhyw ddioddefwyr troseddau, a'u dehongliad o droseddau a'u parodrwydd i roi gwybod amdanynt.

Roedd cyfanswm o 64 o gyfranogwyr ar draws chwe ymweliad ymgysylltu a gynhaliwyd gan staff SCHTh, ar draws y pedwar awdurdod lleol yn ardal yr heddlu.

Drwy'r sesiynau ymgysylltu, roedd yn bwysig cael cipolwg ar yr hyn yr hoffai'r cymunedau weld Heddlu Dyfed-Powys yn ei flaenoriaethu, ac i gymunedau fod yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael drwy swyddfa'r comisiynydd i graffu ar yr heddlu a dal yr heddlu i gyfrif.



## Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-28

Ym mis Mehefin 2023 i gefnogi datblygiad Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-28, lansiwyd arolwg rhanbarthol mewn partneriaeth ag asiantaethau sector cyhoeddus lleol i geisio barn trigolion ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys am eu profiadau wrth geisio cael mynediad at ystod o wasanaethau cyhoeddus o blismona i dai ac iechyd.

Cydweithiodd awdurdodau lleol yn y pedwar rhanbarth ynghyd â Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i greu'r arolwg.

Roedd yr arolwg yn canolbwyntio ar feysydd allweddol gan gynnwys addysg, tai, iechyd, trosedd, hamdden a mynediad i'r arfordir a chefn gwlad. Gofynnodd i bobl raddio eu profiadau eu hunain o'r gwasanaethau hyn a'u canfyddiadau o'r profiad y gallai pobl eraill yn ein cymdeithas ei gael.

Byddai'r adborth yn helpu i lywio gwaith yn ymwneud â chydraddoldeb a sut mae pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu heffeithio neu eu trin wrth geisio cael mynediad at wasanaethau a ddarperir gan y sector. Mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n nodi sut y byddant yn gweithio i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu a'u bod yn hygyrch i bob preswylydd a defnyddiwr gwasanaeth waeth beth fo'u hoedran, rhyw, rhywioldeb, crefydd, dewis iaith neu anabledd.

Mae gan bob corff sector cyhoeddus ddyletswydd i wneud y canlynol:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl heb nodwedd o'r fath
- Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl sydd heb nodwedd o'r fath

Gweithiodd staff o'r swyddfa gyda Rheolwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Heddlu Dyfed-Powys yn yr hydref i adolygu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ac i ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Bydd gan y cynllun newydd bedwar amcan ar gyfer y swyddfa a'r heddlu. Maent yn cynnwys:

**Amcan 1:** Cynyddu amrywiaeth y gweithlu a grwpiau gwirfoddol i fod yn gwbl gynrychioliadol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Canolbwyntio ar recriwtio, cadw a datblygu.

**Amcan 2:** Mynd i'r afael â gwahaniaethau ar sail hil yn HDP a SCHTh a'u dileu trwy weithredu polisïau ac arferion sy'n hyrwyddo cydraddoldeb hiliol.

**Amcan 3:** Cryfhau ein perthynas o fewn ein cymunedau drwy blismona cymunedol rhagweithiol a gweithgareddau ymgysylltu.

**Amcan 4:** Hyrwyddo diwylliant sy'n gynhwysol a chefnogol, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig ac sy'n herio ymddygiad hiliol, homoffobig neu sy'n arddangos casineb at fenywod.


Rhannwyd drafft o'r cynllun newydd â'n Grŵp Cynghori Annibynnol, a Grŵp Cofleidio Amrywiaeth yr heddlu. Yn dilyn adborth gan ein Grŵp Cynghori Annibynnol a Grŵp Cofleidio Amrywiaeth yr heddlu, cymeradwywyd drafft terfynol, a bydd cynllun newydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2024 yn dilyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu.

## 2024-25 Ymgynghoriad ar Braesept yr Heddlu

Mae'r comisiynydd yn gyfrifol am osod y gyllideb ar gyfer yr heddlu, sy'n cynnwys gosod y praesept sef yr elfen o'r dreth gyngor sy'n mynd i'r heddlu. Ymgynghorodd y comisiynydd â'r cyhoedd i lywio ystyriaethau ac i gael eu barn ar lefel y cynnydd ym mhraesept yr heddlu ar gyfer 2024-25. O'r 627 o ymatebion, nododd 67.3% y byddent yn cefnogi lefel uwch o gyllid. Cymeradwywyd cynnydd o 6.2% ar ôl proses graffu helaeth gan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.

Ymgorfforwyd rhagor o fanylion am ganlyniadau'r ymgynghoriad yn y cynllun ariannol tymor canolig, sydd ar gael ar wefan y comisiynydd: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/

Ym mis Mawrth 2024, cyhoeddodd y CHTh y daflen praesept sy'n esbonio i'r cyhoedd ble bydd y cyllid yn cael ei wario. www.dyfedpowys-pcc.org.uk/media/tipbkpzx/taflen-praesept-202425.pdf



# Adnoddau

## Cyllideb ac Alldro 2023-24

Mae gwasanaeth Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i wynebu heriau ariannol sylweddol yn sgil effaith gyfunol gostyngiadau mewn termau real mewn grantiau llywodraeth ganolog a Llywodraeth Cymru ac ansicrwydd ynghylch chwyddiant a chodiadau cyflog. Er gwaethaf llwyddiant y rhaglen Uplift swyddogion heddlu, sydd wedi cynyddu niferoedd swyddogion o 132 dros y tair blynedd diwethaf, mae recriwtio a chadw swyddogion yn parhau i fod yn her. Mae hyn yn adlewyrchu darlun cenedlaethol ymddiswyddiadau gwirfoddol swyddogion heddlu o 3.3% ar gyfer 2022-23 sef y lefel uchaf a gofnodwyd erioed. Mae hyn yn ychwanegol at bwysau costau sylweddol a newidiadau parhaus yn y cymhlethdod a maint y galw am wasanaethau plismona. Mae hyn oll yn wyneb y dirwedd ariannol ac economaidd heriol iawn.

Yn dilyn proses drylwyr o graffu a thrafod tybiaethau ariannol, risgiau sy'n bygwth ein cymunedau, gofynion buddsoddi a blaenoriaethau, gosododd y comisiynydd gyllideb refeniw net o £133.4 miliwn i ddarparu gwasanaethau plismona yn ardal Dyfed-Powys ar gyfer 2023-24. Roedd y gyllideb hon yn ymgorffori defnyddio £2.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn, yn ogystal ag arbedion ariannol o £6.4 miliwn (4.6%).

Fel rhan o'r gyllideb hon, cytunodd y Comisiynydd ar gynnydd o 7.75% yn y dreth gyngor neu £22.49 y flwyddyn i £312.65 ym mand D y dreth gyngor. Unwaith eto, ardal Dyfed-Powys sydd â'r praesept treth gyngor isaf yng Nghymru. Bydd y praesept yn codi cyfanswm o £72.518 miliwn, sef 54% o'r cyllid.

Roedd blwyddyn ariannol 2023/2024 yn heriol, gyda llawer o ansicrwydd ynghylch costau ynni, chwyddiant cyffredinol, a chyfraddau llog ac ati. Wrth fynd i mewn i'r flwyddyn ariannol, roedd yr heddlu hefyd yn wynebu'r risg o gynnydd mewn costau o ganlyniad i ddyfarniadau cyflog heb eu hariannu a gweithrediadau sylweddol parhaus mewn perthynas â phrotestiadau canolfannau lloches (Ymgyrch Cambrian).

Mae blwyddyn ariannol 2023-24 wedi bod yn flwyddyn o amryweddau ariannol sylweddol, ac mae'r mwyafrif helaeth ohonynt yn gadarnhaol. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r sefyllfa alldro derfynol ar gyfer 2023-24 ac yn cymharu hwn â'r gyllideb wreiddiol. Dangosir y gyllideb ddiwygiedig hefyd sy'n adlewyrchu'r cyllidebau a'r symudiadau yn y cronfeydd wrth gefn ychwanegol a gymeradwywyd yn ystod y flwyddyn at ddibenion monitro'r gyllideb a gymeradwywyd yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

| Crynodeb o'r gyllideb refeniw 2023-24 | Cyllideb wreiddiol £000 | Cyllideb ddiwygiedig £000 | Gwirioneddol £000 | Amrywedd (Cadarnhaol ar gyfer arbed) £000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gyllideb – Comisiynydd | 2.4 | 2.4 | 2.4 | 0 |
| Cyfanswm y gyllideb – Prif Gwnstabl | 133.6 | 134.2 | 128.6 | 5.0 |
| Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn | - 2.6 | - 3.2 | 2.5 | - 5.1 |
| Gwariant net ar ôl trosglwyddo o/i gronfeydd wrth gefn | 133.4 | 133.4 | 133.4 | - |

Roedd y sefyllfa alldro derfynol ar gyllideb refeniw'r comisiynydd yn amrywedd cadarnhaol o £0.1 miliwn. Mae'r tanwariant wedi'i drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i neilltuo i ariannu costau untro ychwanegol yn 2024-25.

Y sefyllfa alldro derfynol ar gyfer y Prif Gwnstabl oedd amrywedd cadarnhaol o £5 miliwn. Roedd hyn yn caniatáu trosglwyddo i gronfeydd wrth gefn yn hytrach na defnyddio'r trosglwyddiad o £2.6 miliwn o gronfeydd wrth gefn y Comisiynydd a oedd wedi'i gyllidebu.

**Y prif amryweddau oedd:**

- Tâl swyddogion a staff yr heddlu - cytunodd y Swyddfa Gartref ar gyllid o £2.3 miliwn i fodloni diffyg refeniw o ganlyniad i'r dyfarniad cyflog. Yn dilyn adolygiad yr heddlu bu oedi wrth recriwtio swyddi staff ac mae heriau yn parhau o ran recriwtio i rolau arbenigol ee TG, cyfreithiol ac ati. Yn ogystal, roedd lefel y swyddogion a oedd yn gadael yr heddlu yn uwch na'r disgwyl ac yn genedlaethol dyma'r lefelau uchaf a gofnodwyd. Mae swydd recriwtio a chadw wedi'i chreu sydd wedi gweld canlyniadau cadarnhaol.

- Cronfa Drosiannol Wrth Gefn - Yn dilyn adolygiad yr heddlu roedd cost y newid yn is na'r amcangyfrif, gostyngodd hyn yr angen i ddefnyddio cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi o £1.4 miliwn a oedd wedi'i gyllidebu.

- Costau Adeiladau - Cyllidebwyd ar gyfer cynnydd sylweddol mewn costau o dan benawdau eiddo oherwydd y cynnydd a ragwelwyd yn sgil chwyddiant. Roedd y rhain yn is na'r disgwyl a chadarnhawyd ad-daliadau ardrethi a ddaeth ag arbedion annisgwyl pellach.

- Prosiectau TG - oedi wrth weithredu'r system rheoli cyswllt a datrysiad teleffoni yn yr ystafell reoli yn cyfrannu £0.5 miliwn.

- Darpariaeth Yswiriant ac Ymgyfreitha – Arbedion o £0.3 miliwn yn ystod y flwyddyn, oherwydd oedi yn y broses archwilio oherwydd addasiadau yn 2022-23, roedd cyfrifon ar agor am gyfnod hwy ac roedd angen addasiadau pellach yn 2022-23 gan leihau gwariant 2023-24.

- Gwaith Fforensig – Cafwyd arbedion o £0.3 miliwn o ganlyniad i droseddau cymhleth/difrifol yn is na'r disgwyl yn ystod y flwyddyn, gan arwain at lai o alw am ddadansoddi fforensig.

- Cydweithio - Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (Tarian) yn bennaf, a'r Gyd-unedau Arfau Saethu yn gweithredu ymhell o fewn y cyllidebau, eto yn bennaf oherwydd materion staffio. Roedd cyfraniadau i drefniadau cenedlaethol eraill ar y cyd hefyd yn is nag a ragwelwyd adeg gosod y gyllideb.

- Grantiau Ychwanegol - £2.3 miliwn o grant arbennig tuag at ddyfarniadau cyflog, a £0.5 miliwn o grant ychwanegol oherwydd cyflymu Ymgyrch Uplift. Cafwyd cyllid dirybudd ychwanegol hefyd gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas â datgelu a gwahardd, cynnydd mewn costau meddalwedd a'r Rhaglen Data Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol (LEDS).

- Roedd incwm arall heblaw grantiau yn uwch na'r gyllideb o £0.7 miliwn. Derbyniadau llog gyfrannodd y mwyafrif helaeth o hyn oherwydd talwyd grant pensiynau yn gynnar a chafwyd £0.4 miliwn oddi wrth Ymgyrch Safeguard (am ddefnyddio celloedd dalfeydd).

- Cyllid Refeniw Uniongyrchol - Roedd y cynllun ariannol tymor canolig a osodwyd ym mis Ionawr 2024 yn rhagdybio y byddai £1.1 miliwn o daliadau cyllid refeniw uniongyrchol ychwanegol yn cael eu codi i leihau ad-daliadau statudol a thaliadau llog yn 2024/25 wrth fantoli cyllidebau.

Roedd y gyllideb ar gyfer 2024/5 a'r cynllun ariannol tymor canolig eisoes yn ymgorffori defnyddio elfen o'r tanwariant hwn i leihau'r cynnydd yn y praesept. Roedd y rhain yn cynnwys cynnydd mewn cyllid refeniw uniongyrchol o £1.1 miliwn y manylir arno uchod a chreu cronfa wrth gefn i liniaru'r gyllideb refeniw (£1.172 miliwn) i gefnogi pwysau cyllidebol untro yn y dyfodol, Adolygiad yr Heddlu ac i ddod ag arbedion ymlaen o flynyddoedd i ddod.

Fel yr amlygwyd uchod, roedd sefyllfa ffafriol y gyllideb yn gyffredinol yn caniatáu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu gynyddu'r cronfeydd refeniw wrth gefn cyfanswm o £1.8 miliwn: o £19.7 miliwn i £21.5 miliwn. Gan ystyried trosglwyddiadau cyfrif dal, y cynnydd cyffredinol ar gyfer cronfeydd wrth gefn Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yw £2.4 miliwn.

Mewn perthynas â gwariant cyfalaf, gosododd y comisiynydd gyllideb wreiddiol o £18.2 miliwn ym mis Chwefror 2023 ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, a ostyngwyd i £11.4 miliwn ym mis Ionawr 2024 oherwydd oedi mewn perthynas â rhai cynlluniau mawr.

| | Cyllideb wreiddiol 2023-24<br><br>£miliwn | Cyllideb ddiwygiedig 2023-24<br><br>£miliwn | Gwariant gwirioneddol 2023-24<br><br>£miliwn | Amrywedd<br><br>£miliwn |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Gwariant wedi'i gyfalafu** | | | | |
| Rhaglen ystadau | 11.2 | 5.6 | 3.6 | 2.0 |
| Cerbydau | 1.3 | 1.8 | 1.3 | 0.5 |
| Prosiectau mawr TGCh | 1.7 | 1.6 | 0.8 | 0.8 |
| Prosiectau isadeiledd TGCh | 0.5 | 0.5 | 0.3 | 0.2 |
| Amnewid dyfeisiau TGCh cylchol | 2.4 | 1.2 | 1.1 | 0.1 |
| Amnewid offer cyfalaf eraill | 1.1 | 0.6 | 0.2 | 0.4 |
| **Cyfanswm gwariant wedi'i gyfalafu** | **18.2** | **11.3** | **7.3** | **4.0** |
| **Cyfanswm gwariant** | **18.2** | **11.4** | **7.4** | **4.0** |



Agorodd Cynllun Gorsafoedd a Chyfleusterau Dalfa Sir Gaerfyrddin yn Nafen ar amser ym mis Mehefin 2023. Bu rhywfaint o lithriant anochel yn erbyn rhai prosiectau gan gynnwys gorsaf newydd Aberhonddu a rhai cynlluniau mân waith y bydd angen cario cyllid ar eu cyfer ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Roedd rhywfaint o lithriant yn erbyn pryniannau cerbydau i'w briodoli i amseroedd arwain hwy, ac oedi yn gysylltiedig â chyflenwi. Mae'r heddlu yn adnewyddu seilwaith, gan gynnwys o fewn ei Ystafell Reoli, a gwelwyd llithriant yn erbyn y pennawd cyllideb hwn.

Trafodwyd y sefyllfa gyffredinol ar ddiwedd y flwyddyn mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona. Gwnaeth y Comisiynydd benderfyniad ar ddyrannu cronfeydd wrth gefn tuag at dalu costau llithriant cyfalaf a phwysau costau presennol / yn y dyfodol gan gynnwys:

- Cynnydd yn y cronfeydd wrth gefn cyffredinol i 4% o'r gyllideb i liniaru risgiau ariannol posibl yn y dyfodol a sicrhau gwell gwytnwch ariannol.
- Cynnydd yn y cronfeydd cyfalaf wrth gefn i leihau gofynion benthyca yn y dyfodol.
- Clustnodi cronfeydd wrth gefn ar gyfer TGCh arloesol yn y dyfodol, gweithio mewn partneriaeth a mentrau Comisiynydd dros y pedair blynedd nesaf.
- Talu cryn gostau tymor byr mewn perthynas â chyfieithu i'r Gymraeg, amrywiaeth, lles staff a safonau proffesiynol.


Roedd y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol iawn, gan roi Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach a mwy gwydn i ymdrin ag amrywiaeth o heriau ariannol yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi'n gynhwysfawr yn y cynllun ariannol tymor canolig. https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cyllid/y-praesept-a-r-cynllun-ariannol-tymor-canolig/


## Cyllideb Gomisiynu


Y gyllideb gomisiynu ar gyfer 2023/2024 oedd £2,429,523 a oedd yn cynnwys costau staff yn ogystal â chostau yr aed iddynt am ddarparu gwasanaethau uniongyrchol. Ariannwyd £1,432,033 o'r gyllideb gyffredinol drwy grant cyllid craidd i ddioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a darparwyd cyllid ychwanegol i wasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dilyn pandemig Covid 19.



## Gwariant Cyllideb comisiynu 2023-24





**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**
**Dyfed-Powys**
**Police and Crime Commissioner**


## Cysylltwch â'r comisiynydd

01267 226440

opcc@dyfed-powys.police.uk

Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch Post 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

www.dyfedpowys-pcc.org.uk

Facebook @DPOPCC

@DPOPCC

@DPOPCC